GIG CYMRU
NHS WALES

Partneriaeth Cydwasanaethau
Shared Services Partnership



# Adolygiad Blynyddol

2024-2025

# Adolygiad Blynyddol Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru 2024–25

© Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru 2025

Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon yn rhad ac am ddim (ac eithrio logos adrannau neu asiantaethau) ar unrhyw ffurf neu mewn unrhyw gyfrwng, ar yr amod y ceir caniatâd i wneud hynny ac y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac mewn cyd-destun nad yw'n gamarweiniol.

Rhaid cydnabod mai deunydd dan hawlfraint Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yw hwn a rhaid nodi teitl y ddogfen. Os mai deunydd trydydd parti ydyw, rhaid cael caniatâd gan y deiliad hawlfraint perthnasol.

# Cynnwys


**Cyflwyniad gan y Cadeirydd a'r Rheolwr Gyfarwyddwr** .......... 4

**Am PCGC** .......... 6
Cipolwg ar PCGC – Ein Blwyddyn mewn Rhifau .......... 7
Ein Gwasanaethau .......... 9
Ein Map Strategaeth .......... 10

**Sut Wnaethon Ni Eleni?** .......... 11
Dangosyddion Perfformiad Allweddol .......... 12
Rheolaeth Ariannol ar y Gyllideb .......... 17
Y Fframwaith Llywodraethu .......... 24
Gwersi a Ddysgwyd a Heriau .......... 26
Dyletswydd Ansawdd .......... 27
Iechyd a Diogelwch .......... 28
Llywodraethu Gwybodaeth .......... 31
Y Gymraeg .......... 32
Cyfathrebu .......... 36

**Pobl a Diwylliant** .......... 38
Iechyd a Llesiant .......... 39
Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant .......... 40
Dysgu a Datblygu .......... 43
Cynllun Buddion Staff .......... 44

**Ein Cyflawniadau** .......... 45
Cydnabod Staff .......... 46
Cyflawniadau - Astudiaethau Achos .......... 47
Uchafbwyntiau .......... 48
Ardystiadau a Safonau .......... 50
Gwobrau a chydnabyddiaeth .......... 51

**Datblygu Cynaliadwy** .......... 52
Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol .......... 53
Egwyddor Datblygu Cynaliadwy .......... 54
Perfformiad Cynaliadwyedd .......... 56
Cyflogaeth Foesegol yn y Gadwyn Gyflenwi a Chaethwasiaeth Fodern .......... 59
Partneriaeth Gymdeithasol .......... 61

**Ein Pobl** .......... 61
Ein Pobl - Cipolwg .......... 62
Ein Pobl .......... 63

**Rhagolwg** .......... 67
Egwyddorion Cyffredinol ar gyfer 2025-26 .......... 68
Cynllun Blwyddyn 1 ar Dudalen .......... 70
Ein Blaenoriaethau Strategol 2025-28 .......... 71

# Cyflwyniad gan y Cadeirydd a'r Rheolwr Gyfarwyddwr



***Neil Frow OBE***

*Rheolwr Gyfarwyddwr*



***Professor Tracy Myhill OBE***

*Cadeirydd*

***Croeso i Adolygiad Blynyddol Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC) 2024-25. Dyma ein pedwerydd adroddiad blynyddol ar ddeg, sy'n arddangos ein gwelliant parhaus mewn gwasanaethau i ddiwallu gofynion ein partneriaid a'n cwsmeriaid. Mae ein hymrwymiad i ychwanegu gwerth trwy weithio mewn partneriaeth, arloesedd a rhagoriaeth yn parhau'n gadarn.***

Yn ystod 2024-25, gwnaethom gynnydd sylweddol tuag at gyflawni amcanion ein Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) sy'n rhan o'n cynllun 3 blynedd. Rydym wedi cyflawni perfformiad da ar y cyfan ar ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) gan gynnwys cyrraedd terfynau amser Amser i Benodi ar draws gwasanaethau recriwtio GIG Cymru. Mae hyn yn allweddol i sicrhau'r staff cywir i swyddi gwag ar yr amser cywir i gefnogi darpariaeth gwasanaethau'r GIG. Fe wnaethon ni gyflawni sefyllfa ariannol gytbwys, gan adrodd am warged bach o **£0.015m**. Roedd hyn ar ôl dosbarthu arbedion o **£3.600m** i bartneriaid GIG Cymru a Llywodraeth Cymru. Cyfanswm ein trosiant oedd **£892m**, gyda gwariant cyfalaf o £**11.572m**. Rydym wedi cyflawni **£47m** mewn arbedion caffael uniongyrchol yn 2024-25 ac wedi arbed **£338m** mewn dylanwad proffesiynol i'r GIG yng Nghymru.



Ein cwsmeriaid craidd yw Llywodraeth Cymru a sefydliadau partner y GIG, ac rydym wedi addasu i'w cefnogi i gyflawni eu blaenoriaethau. Mae gan ein gwaith effaith eang ar ansawdd ac effeithiolrwydd ehangach y gwasanaethau a ddarperir gan GIG Cymru.

Rydym wedi parhau i arwain ar sawl menter:

- Gwariant caffael a gwariant nad yw'n ymwneud â chyflogau ar draws GIG Cymru; edrych ar leihau amrywiadau direswm, yn ogystal â thargedu cyfleoedd am arbedion ochr yn ochr â chefnogi twf yn yr economi sylfaenol.
- Rheoli meddyginiaethau a phrynu cyffuriau'n fwy effeithiol i'w defnyddio wrth drin cleifion yng Nghymru.
- Trefniadau effeithiol gweithlu'r GIG drwy ein gwasanaethau cyflogres a recriwtio, ac arwain ar weithgarwch recriwtio rhyngwladol.
- Cyflwyno'r achos dros newid wrth Drawsnewid Mynediad at Feddyginiaethau gyda'r gwaith dylunio a pharatoi cychwynnol wedi'u cwblhau ar gyfer uned Radiofferylliaeth i gefnogi de ddwyrain Cymru.

Wrth gadw ein hardystiadau sefydliadol i Safon BS EN ISO14001:2015 ar gyfer Rheoli Amgylcheddol a Safon Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cwsmeriaid, fe wnaethom gyflawni 12 Cydymffurfiaeth +, 45 Cydymffurfiaeth, gyda dim un Cydymffurfiaeth Rannol neu Ddim Cydymffurfiaeth yn nodi meysydd i'w gwella.

Fe wnaethon ni barhau i hyrwyddo iechyd a llesiant drwy amrywiol fentrau a rhaglenni hyfforddi a chynhaliom ein cynhadledd Iechyd a Llesiant flynyddol ym mis Ionawr 2025. Cynhaliwyd ein seremoni Gwobrau Cydnabod Staff ym mis Chwefror 2025 a chydnabuwyd yr ymdrechion eithriadol ar draws PCGC a chynhaliwyd digwyddiad Cynllunio ar gyfer Dysgu Cymru Gyfan a Sesiwn Datblygu Pwyllgor y Bartneriaeth lwyddiannus yn Hydref 2024.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi enghreifftiau o sut rydym yn addasu i ddefnyddio deallusrwydd artiffisial a thrawsnewid digidol ar draws gwasanaethau. Fe wnaeth gweithredu systemau a ffyrdd newydd o weithio gynnig heriau y byddwn yn dysgu ohonynt er mwyn llywio mentrau yn y dyfodol. Yn ogystal, mae ein hastudiaethau achos yn rhoi cipolwg i'r ffordd y mae ein gwaith i gryfhau diwylliant ein gweithle, a'n dull partneriaeth parhaus gyda'n Hundebau Llafur partner, yn grymuso ein staff i arloesi, gwella'n barhaus a chyflawni newid cadarnhaol.

Crëwyd PCGC yn 2011 i ddarparu ystod o wasanaethau proffesiynol, technegol a gweinyddol i'n partneriaid, ac mae wedi tyfu o ran cwmpas a graddfa gyda chefnogaeth ein partneriaid flwyddyn ar ôl blwyddyn. Rydym wedi sicrhau enw da am gyflawni yn brydlon, o fewn y gyllideb ac i safon uchel. Gobeithiwn fod yr adroddiad hwn yn dangos ein hymagwedd 'gallu gwneud' at fynd i'r afael â'r heriau y mae ein partneriaid yn y GIG yn eu hwynebu a'r blaenoriaethau ehangach y mae Gweinidogion Cymru yn eu gosod.

# Am PCGC



# Cipolwg ar PCGC

## Ein blwyddyn mewn rhifau

**6057**
aelod o staff
(2,502 o staff heblaw model yr Un Cyflogwr Arweiniol)

Gweithredu o
**17**
adeilad

Cyllideb Refeniw o
**£892m**

Rydym yn parhau i ailfuddsoddi arbedion er budd GIG Cymru

Caiff
**95%**
o holl wariant GIG Cymru ei brosesu drwy systemau a phrosesau PCGC.

Cyflawni
**£338m**
mewn arbedion dylanwad proffesiynol

Dosbarthwyd arbedion o
**£3.6m**
i bartneriaid GIG Cymru a Llywodraeth Cymru

Paratowyd
**6,182**
o feddyginiaethau i'w chwistrellu parod i'w defnyddio ar gyfer gwasanaethau gofal

Cyflawnwyd cyfanswm o
**£24m**
mewn arbedion rhyddhau arian parod ar gyfer caffael

Wedi prosesu dros
**84m**
presgripsiwn

Dros
**54m**
o ffurflenni presgripsiwn wedi'u sganio

Proseswyd dros
**2.1m**
anfoneb gwerth bron i £8.8m

Deliwyd â thros
**29m**
o eitemau i'w golchi

Proseswyd dros
**1.7m**
o slipiau cyflog

Anfonwyd dros
**21,870**
o gynigion recriwtio amodol

Cofrestrwyd
**470**
o nyrsys cofrestredig rhyngwladol

Cynhyrchodd datblygiadau solar cerbydau
**263,000**
o filltiroedd mewn cerbydau fflyd trydan

Arbedwyd milltiredd fan trydan
**90.22**
tunnell fetrig o CO2e (o'i gymharu â fan diesel o'r un maint).

Vehicle solar developments generated
**1,320 kWh**
o bŵer solar, gan osgoi'r angen am gadw:

**1785**
785 litr o ddiesel

**81**
litr o AdBlue

**13kw**
o drydan

**4.6**
tunnell fetrig o Co2

# Ein Gwasanaethau

## Sicrhau Gwerth, Arloesedd a Rhagoriaeth drwy Bartneriaeth

Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC) yn darparu ystod eang o wasanaethau proffesiynol, technegol a gweinyddol o ansawdd uchel i GIG Cymru, gan weithio gyda gwasanaethau cyhoeddus ehangach, gan gynnwys Llywodraeth Cymru.

Mae PCGC yn rhan annatod o deulu GIG Cymru, yn cefnogi darparu gwasanaethau i staff a chleifion Byrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau ac Awdurdodau Iechyd Arbennig yng Nghymru. Rydym hefyd yn darparu ystod o wasanaethau i ofal sylfaenol: Meddygfeydd, deintyddion, optegwyr a fferyllfeydd cymunedol ac, o 1 Ebrill 2023, fe ddechreuon ni ddarparu gwasanaethau i Gorff Llais y Dinesydd, Llais, trwy gytundeb lefel gwasanaeth.

- Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd
- Gwasanaethau'r Golchdy
- Gwasanaethau Cyllid a Chorfforaethol
- Cyfrifon Taladwy
- yflogwr Arweiniol ar gyfer hyfforddeion meddygol, deintyddol a fferylliaeth
- Cynllunio, Perfformiad a Gwybodeg
- Gwasanaethau Atal Twyll yng Nghymru
- Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg
- Pobl a Datblygu Sefydliadol
- Tîm Canolog e-Fusnes
- Gwasanaeth Archwilio Meddygol
- Y Labordy Profi Dyfeisiau Llawfeddygol
- Datrysiadau Gweithlu Digidol
- Gwasanaethau Gofal Sylfaenol
- Buddion Staff
- Gwasanaethau Cyflogaeth
- Gwasanaethau Caffael a'r Gadwyn Gyflenwi
- Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr
- e-Alluogi
- Gwasanaethau Technegol Fferylliaeth
- Cronfa Risg Cymru
- Yr Academi Gyllid (wedi'i lletya)
- Gwasanaethau Ystadau Arbenigol
- Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru
- Y Gwasanaeth Negesydd Iechyd

# Map Strategaeth

## Ein Gwerthoedd

***Gwrando a Dysgu***
Ystyried yn barhaus a gwella ansawdd ac effeithiolrwydd popeth a wnawn.

***Cymryd Cyfrifoldeb***
am benderfyniadau dewr a thosturiol a gwneud i'r pethau iawn ddigwydd.


***Cydweithio'n Gynhwysol***
gyda chydweithwyr, cwsmeriaid, a chyflenwyr.

***Arloesi***
Bod yn ddewr a chreadigol trwy welliant parhaus.

## Ein Nodau Strategol

### *Ein Pobl*

Cydweithio i fod y gorau y gallwn fod



***Canlyniadau***

| | | | |
|---|---|---|---|
| Byddwn yn creu cyfleoedd i'n staff presennol a'n staff yn y dyfodol wneud y gorau o'u potensial a meithrin ein cyflenwad o dalent | Byddwn yn cynyddu amrywiaeth ein gweithlu ac yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg ym mhopeth a wnawn. | Byddwn yn hyrwyddo llesiant corfforol, cymdeithasol, meddyliol ac ariannol ar draws y sefydliad i gefnogi ein staff. | Byddwn yn gwrando ar ein staff ac yn dysgu oddi wrthynt i gyd-gynhyrchu atebion arloesol gyda'n partneriaid. |

### *Ein Gwasanaethau*

Ysgogi arloesedd a darparu gwasanaethau o ansawdd uchel yn gyson



***Canlyniadau***

| | | | |
|---|---|---|---|
| Byddwn yn galluogi ein timau sy'n delio â chwsmeriaid i gau mwyafrif yr ymholiadau ar y cyswllt cyntaf, trwy wella cyflymder, ansawdd a phrofiad y gwasanaeth. | Byddwn yn hybu arloesedd, yn gosod y safon ar gyfer arferion da, ac yn gwella ein prosesau trwy awtomeiddio. | Byddwn yn meithrin partneriaethau ag arweinwyr diwydiant a sefydliadau academaidd ac yn ceisio statws Prifysgol. | Byddwn yn cael ein llywio gan ddata, gan rannu gwybodaeth â'n partneriaid i ddylanwadu ar y gwaith o wneud penderfyniadau ar draws GIG Cymru. |

### *Ein Gwerth*

Gwneud y mwyaf o fudd, effeithlonrwydd ac effaith gymdeithasol yr hyn a wnawn i'n partneriaid



***Canlyniadau***

| | | | |
|---|---|---|---|
| Byddwn yn gwneud penderfyniadau buddsoddi beiddgar sy'n sbarduno trawsnewid ac yn ychwanegu gwerth. | Byddwn yn arwain y ffordd ac yn mynnu'r newidiadau sydd eu hangen gan eraill i ymdrin â'r argyfwng newid hinsawdd a chyflawni targedau datgarboneiddio. | Byddwn yn defnyddio ein hadnoddau yn effeithlon ac yn creu effaith gadarnhaol ar sail gymdeithasol a chynaliadwy. | Byddwn yn arwain cyfleoedd i gynyddu buddsoddiad yn yr economi sylfaenol ledled Cymru fel cyfran gynyddol o'n cadwyn gyflenwi. |

# Sut wnaethon ni eleni?





# Dangosyddion Perfformiad Allweddol

## Dangosyddion Perfformiad Allweddol mewnol:

| Dangosyddion Perfformiad Allweddol a Thargedau Lefel Uchel | 2024 - 25 Gwirioneddol | 2024 - 25 Targed |
|---|---|---|
| **Gwasanaethau Cyllid a Chorfforaethol** | | |
| Sefyllfa Ariannol Gytbwys | -15k | Adennill costau |
| Sefyllfa Ariannol Gyfalaf Gytbwys | O fewn CEL | O fewn CEL |
| Dosbarthiad Arfaethedig | £3.6M | £0M |
| % o anfonebau nad ydynt yn rhai'r GIG a dalwyd o fewn 30 diwrnod | 98% | 95% |
| **Pobl a Datblygu Sefydliadol** | | |
| Absenoldeb Salwch Staff | 3.46% | 3.30% |
| Cydymffurfedd ag Adolygiadau Perfformiad a Datblygu | 84% | 85% |
| Cydymffurfedd â Hyfforddiant Statudol a Gorfodol | 93% | 85% |
| % Asiantaeth | 0.22% | <0.8% |
| **DPA Sefydliadol PCGC - Recriwtio** | | |
| Absenoldeb Salwch Staff | 56.3 | 71 |
| Cydymffurfedd ag Adolygiadau Perfformiad a Datblygu | 8.6 | 10 |
| Cydymffurfedd â Hyfforddiant Statudol a Gorfodol | 7.6 | 3 |
| % Asiantaeth | 4.5 | 3 |

## Dangosyddion Perfformiad Allweddol allanol:

| Dangosyddion Perfformiad Allweddol a Thargedau Lefel Uchel | 2024 - 25 Gwirioneddol | 2024 - 25 Targed |
|---|---|---|
| **Dylanwad Proffesiynol** | | |
| Buddion Dylanwad Proffesiynol | £338M | £110m |
| **Gwasanaethau Caffael** | | |
| Arbedion Caffael *Yn ystod y flwyddyn | £35M | £16M |
| Arbedion Caffael *Blwyddyn Gyfan | £47m | £42m |
| **Cyfrifon Taladwy** | | |
| Arbedion a Llwyddiannau | £15M | |
| % o anfonebau Cymru Gyfan a dalwyd o fewn 30 diwrnod | 96.6% | 95% |
| **Gwasanaethau Cyflogaeth** | | |
| Cywirdeb Cyflogres PCGC | 99.94% | 99.6% |
| Cywirdeb Cyffredinol y Gyflogres | 99.77% | 99.6% |
| % o Alwadau'r Gyflogres yr ymdriniwyd â hwy | 98% | 95% |
| **Recriwtio - DPA Sefydliadol Cymru Gyfan** | | |
| Diwrnodau Cyfartalog rhwng Creu Swydd wag a chynnig diamod o fewn 71 diwrnod | 61.4 | 71 |
| % o Alwadau Recriwtio yr ymdriniwyd â hwy | 99% | 95% |
| **Recriwtio - DPA Sefydliadol PCGC Cymru Gyfan** | | |
| % o Swyddi Gwag a hysbysebwyd o fewn 2 ddiwrnod gwaith o'u derbyn | 99.8% | 95% |
| % o Lythyrau cynnig amodol a anfonwyd o fewn 4 diwrnod gwaith | 99.4% | 95% |
| **Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr** | | |
| % o Alwadau Dyfarniadau Myfyrwyr yr ymdriniwyd â hwy | 98% | 95% |
| % o Geisiadau Bwrsariaeth y GIG a broseswyd o fewn 20 diwrnod | 100% | 100% |
| **Gwasanaethau e-Fusnes y Tîm Canolog** | | |
| Caiff digwyddiadau blaenoriaeth uchel a godir gyda'r Tîm Canolog ymateb o fewn 20 munud | 100% | 85% |
| Bydd tocynnau Pwynt Gwasanaeth BACS a dderbynnir cyn 14.00 yn cael eu prosesu ar yr un diwrnod gwaith | 100% | 95% |

| Dangosyddion Perfformiad Allweddol a Thargedau Lefel Uchel | 2024 - 25 Gwirioneddol | 2024 - 25 Targed |
|---|---|---|
| **Gwasanaethau Gofal Sylfaenol** | | |
| Taliadau gofal sylfaenol a wnaed yn unol â therfynau amser Statudol | 100% | 100% |
| Presgripsiynau - cyfraddau cywirdeb mewnbynnu | 99.73% | 99% |
| Cofnodion meddygol brys a drosglwyddwyd o fewn 2 ddiwrnod gwaith | 100% | 100% |
| Aseiniadau cleifion a weithredwyd o fewn 24 awr i dderbyn y cais | 100% | 100% |
| Rhybuddion Rhaeadru Categori A i'w cyhoeddi o fewn 4 awr o'u derbyn | 100% | 80% |
| **Archwilio a Sicrwydd (Mehefin - Mawrth 23)** | | |
| Barn Archwilio/Adroddiadau Blynyddol yn cadw at yr amserlen | Ydyn | Ydyn |
| Archwiliadau wedi'u cyflawni ar gyfer pob Pwyllgor Archwilio yn unol â'r cynllun y cytunwyd arno | 77% | 80% |
| Cyflymder cynhyrchu adroddiadau - o waith maes i gyflwyno adroddiad drafft [10 diwrnod] | 99% | 95% |
| Cyflymder cynhyrchu adroddiadau - ymateb rheolwyr i'r adroddiad drafft [15 diwrnod] | 64% | 80% |
| Cyflymder cynhyrchu adroddiadau - o ymatebion i'r drafft i'r adroddiad terfynol [10 diwrnod] | 99% | 95% |
| **Gwasanaethau Ystadau Arbennig** | | |
| Arbedion Dylanwad Proffesiynol | £19M | |
| **Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg** | | |
| Arbedion a Llwyddiannau | £249m | £65M |
| Prydlondeb cydnabod cais am gyngor - o fewn 24 awr | 99.6% | 95% |
| Prydlondeb rhoi cyngor – o fewn 3 diwrnod neu o fewn yr amserlen gytunedig | 99.6% | 95% |
| **Cronfa Risg Cymru** | | |
| Yr amser rhwng cyflwyno a'i ystyried gan y Panel Cynghori ar Ddysgu | 100% | 95% |
| Amser o'i ystyried gan y Panel Cynghori ar Ddysgu i'w gyflwyno i Bwyllgor Cronfa Risg Cymru | 100% | 95% |
| Cynnal digon o gyfarfodydd o'r Panel Cynghori ar Ddysgu | 100% | 95% |

| Dangosyddion Perfformiad Allweddol a Thargedau Lefel Uchel | 2024 - 25 Gwirioneddol | 2024 - 25 Targed |
|---|---|---|
| **Y Labordy Profi Dyfeisiau Llawfeddygol** | | |
| % o adroddiadau ymchwiliadau a gwblhawyd o fewn 40 diwrnod o'u derbyn i'r labordy | 93% | 90% |
| % o adroddiadau wedi eu harchwilio a gyflwynwyd yn brydlon (Masnachol) | 98% | 89% |
| % o werthusiadau sicrwydd Technegol a gyflwynwyd yn brydlon | 100% | 89% |
| **Datrysiadau Gweithlu Digidol** | | |
| Boddhad Cwsmeriaid | 94% | 90% |
| % o Alwadau yr Ymdriniwyd â hwy | 94% | 85% |
| **Gwasanaethau Golchdy Cymru Gyfan** | | |
| Archebion a anfonwyd i fodloni archebion sefydlog cwsmeriaid | 95% | 91% |
| Dosbarthiadau a wnaed o fewn 2 awr i'r amser dosbarthu y cytunwyd arno | 100% | 85% |
| Pwyntiau methiant cyswllt microbiolegol | 97% | 90% |
| **Gwasanaethau Archwilio Meddygol** | | |
| Nifer yr achosion a gyfeiriwyd at Wasanaethau Archwilio Meddygol | 100% | 100% |
| Achosion Byth | 0 | 0 |

***Dros y 18 mis diwethaf, bu datblygiad sylweddol o ran Adrodd yn Seiliedig ar Ganlyniadau, mewn partneriaeth â Phwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau. Cyhoeddwyd yr adroddiad cyntaf sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ym mis Mai 2024, gan nodi cam strategol tuag at fesur effaith a gwerth gwasanaethau yn ogystal â'n hadroddiadau traddodiadol ar fesurau perfformiad. Mae hyn yn alinio data perfformiad yn agosach â chanlyniadau a'n nodau strategol.***

## Archwilio a Sicrwydd

- Cyflwynir archwiliadau ar gyfer pob Pwyllgor Archwilio yn unol â'r cynllun y cytunwyd arno a'r cyflymder cynhyrchu adroddiadau - ymateb rheolwyr i'r adroddiad drafft (15 diwrnod) sy'n mesur cyflymder cynhyrchu adroddiadau o fewn y sefydliad iechyd. Methwyd â chyrraedd y targedau o drwch blewyn, ond mae Penaethiaid Archwilio yn trafod yr oedi hyn yn uniongyrchol gyda sefydliadau iechyd a hynny'n gyson.

Mae ein Penaethiaid Archwilio yn parhau i weithio'n agos gyda sefydliadau'r GIG i helpu i wella amseroedd cyflawni ymatebion rheolwyr. Caiff yr holl gynnydd o ran cynlluniau archwilio ei drafod a'i gytuno gydag Ysgrifenyddion y Bwrdd a Chadeiryddion Pwyllgorau Archwilio.

## Recriwtio

- Bu gwelliannau yn yr amser cyffredinol i benodi drwy'r gwaith moderneiddio a glanhau cofnodion hŷn yn y system recriwtio. Yr amser penodi ar gyfartaledd yn 24/25 oedd 61 diwrnod o'i gymharu â tharged o 71 diwrnod ar gyfer Cymru Gyfan. Fodd bynnag, mae rhai gwelliannau y gellir eu gwneud o hyd o fewn prosesau unigol taith yr amser i benodi.

  Mae newidiadau i'r Broses Moderneiddio Recriwtio wedi'u rhoi ar waith yn yr holl sefydliadau iechyd ac mae gwelliannau ym mhrofiad rheolwyr ac ymgeiswyr i'w gweld.

  Mae ein Penaethiaid Archwilio yn parhau i weithio'n agos gyda sefydliadau'r GIG i helpu i wella amseroedd cyflawni ymatebion rheolwyr. Caiff yr holl gynnydd o ran cynlluniau archwilio ei drafod a'i gytuno gydag Ysgrifenyddion y Bwrdd a Chadeiryddion y Pwyllgor Archwilio.

## Adolygiad Gwerthuso a Datblygu Perfformiad

## Pobl a Datblygu Sefydliadol

- Gan gydnabod ein bod yn perfformio'n is na'r targed ar gyfer cydymffurfio â PADR, rydym wedi nodi meysydd sydd angen cymorth ac rydym yn gweithio gyda'n staff anodd eu cyrraedd a'n gwasanaethau a letyir i'w galluogi i sicrhau bod sgyrsiau ystyrlon yn cael eu cynnal i gefnogi perfformiad a datblygiad staff.


# Rheolaeth Ariannol ar y Gyllideb

## Targedau

- Mae PCGC yn rhoi cymorth i holl gyrff y GIG ledled Cymru a rhaid inni ddefnyddio'r gyllideb a ddyrennir inni i gwrdd â'n costau rhedeg, ac mae gofyn inni o leiaf adennill costau bob blwyddyn ariannol.
- Yn ogystal, bydd PCGC yn dosbarthu arbedion a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn ariannol i
- gyrff iechyd ar draws Cymru.
- Yn ogystal â sicrhau bod incwm a gwariant refeniw yn gytbwys, mae gofyn hefyd sicrhau bod unrhyw wariant cyfalaf o fewn y Terfyn Gwariant Cyfalaf a ddarperir gan Lywodraeth Cymru.
- Mae gan PCGC rwymedigaeth statudol i gyflawni ei swyddogaethau o fewn yr adnoddau ariannol sydd ar gael. Mae gofyniad i barhau i ddatblygu a gwella Rheolaeth Gyllidebol yn unol â Gweithdrefn Rheoli Ariannol PCGC.
- Mae Polisi Dim Gorchymyn Prynu, Dim Taliad (Dim Archeb Prynu, Dim Taliad) Cymru Gyfan yn sicrhau mai dim ond am nwyddau, gwasanaethau a gwaith sydd wedi'u hawdurdodi'n briodol y mae GIG Cymru yn talu, yn unol â rheolau caffael a chyfarwyddiadau ariannol. Hefyd, mae'n symleiddio prosesu anfonebau i leihau oedi wrth dalu cyflenwyr.
- Yn olaf, mae Polisi Taliadau'r Sector Cyhoeddus (PSPP) yn ei gwneud yn ofynnol i PCGC dalu anfonebau i ddarparwyr nad ydynt yn rhan o'r GIG o fewn 30 diwrnod o gyhoeddi anfoneb neu dderbyn y nwyddau/gwasanaethau.

Yn ystod 2024-25 cyflawnwyd pob un o'n targedau perfformiad ariannol, rhagorwyd ar ein targedau arbedion a bu'n bosib i ni rannu £3.6 miliwn o arbedion i GIG Cymru a Llywodraeth Cymru.

## Alldro



## Llwyddiant

- **Cyflawnwyd Terfyn Gwariant Cyfalaf o £11.261m**
- **Dosbarthwyd £3.6m o arbedion**
- **Aeth Dangosfwrdd Deiliaid Cyllideb QlikSense yn fyw ar gyfer deiliaid cyllidebau, gan alluogi gwell goruchwyliaeth ariannol, gwneud penderfyniadau cyflymach, a mwy o atebolrwydd am reolaeth gyllidebol**
- **Gostyngiad o 52% mewn daliadau Dim Archeb Prynu Dim Taliad yn ystod y Flwyddyn Ariannol**
- **Cyrhaeddwyd y targed ar gyfer Polisi Taliadau'r Sector Cyhoeddus, sef 98%**


### Gellir crynhoi incwm a gwariant PCGC fel a ganlyn:

| | 2024-25 £miliwn | 2023-24 £miliwn |
|---|---|---|
| Incwm | 891.988 | 855.922 |
| Gwariant | 684.457 | 554.272 |
| WRP - DEL | 145.011 | 135.966 |
| WRP - AME | 62.505 | 165.673 |
| Gwarged | 0.015 | 0.012 |

**Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) ar gyfer talu costau yn ystod y flwyddyn sy'n ymwneud â hawliadau sydd wedi eu setlo. Caiff gwariant uwchlaw'r dyraniad blynyddol ei adennill o Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau gan ddefnyddio cytundeb rhannu risg a gymeradwywyd gan Bwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau ar gyfer twf mewn hawliadau craidd.*

***Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) i gwrdd â chost cyfrifo ar gyfer rhwymedigaethau hirdymor hawliadau. Mae'r gyllideb hon yn seiliedig ar amcangyfrifon a ddarparwyd yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru gan Gronfa Risg Cymru.*


## Gwariant Refeniw




During the 2024-25 financial year, total expenditure was £892m. £431m was spent on pay costs, £253m on non-pay costs and £208m was Welsh Risk Pool Expenditure.

## Gwariant ar gyflogau


Mae £321m o'n gwariant cyflogau yn gysylltiedig â chostau'r Un Cyflogwr Arweiniol. Ar y cyfan, mae gwariant ar staff banc, staff sy'n gweithio dros amser a staff asiantaeth yn gysylltiedig â chyflenwi swyddi gwag neu salwch hirdymor. Mae gwariant ar gyflogau cyfradd premiwm yn cael ei leihau cymaint â phosibl, ac rydym wedi gweld gostyngiadau yn y gwariant hwn yn ystod 2024-25 yn dilyn prosesau gafael a rheoli cynyddol.





Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gweithredu paneli craffu i fynd i'r afael â chostau amrywiol. Rhaid cyfiawnhau pob cais am swydd banc a'i gyflwyno i banel i'w gymeradwyo. Trafodir ystyriaethau parhad busnes, cyllid a dewisiadau eraill. Ar 31 Mawrth 2025, roedd gwariant asiantaeth wedi'i ddileu yn y sefydliad.

**Mae cynllun yr Un Cyflogwr Arweiniol (SLE) yn drefniant cyflogaeth sydd wedi'i roi ar waith i reoli a chefnogi'r holl hyfforddeion Meddygol a Deintyddol ledled Cymru yn effeithiol drwy gydol eu rhaglen hyfforddi.*

## Gwariant nad yw’n gysylltiedig â chyflogau



*Wedi’i sefydlu ym mis Hydref 2017, bwriad Cynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru (WIBSS) yw darparu cymorth i bobl sydd wedi’u heintio â Hepatitis C a/neu HIV yn dilyn triniaeth gyda gwaed, cynhyrchion gwaed neu feinwe’r GIG yn y 1980au a’r 1990au.

Ar ôl cymryd drosodd oddi wrth gynlluniau presennol y DU (Ymddiriedolaeth Eileen, Ymddiriedolaeth Macfarlane, MFET Ltd, Cronfa Skipton a Sefydliad Caxton), sydd bellach yn cael eu galw’n sefydliadau Alliance House (AHOs), nod Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru yw cynnig gwasanaeth taliadau ariannol symlach a chymorth wedi’i deilwra i fuddiolwyr Cymru. Mae WIBSS hefyd yn cynnig Gwasanaeth Hawliau Llesiant a Gwasanaeth Seicoleg a Llesiant pwrpasol.

Ar 21 Mai 2025, cyhoeddodd Llywodraeth y DU Gynllun Iawndal a sefydlu Corff Hyd Braich newydd i weinyddu’r cynllun iawndal, o’r enw’r Awdurdod Iawndal Gwaed Heintiedig (IBCA). Ar 21 Mai, gofynnodd Llywodraeth Cymru i Gynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru wneud taliadau iawndal dros dro pellach o £210,000 cyn diwedd mis Mehefin. Dim ond i fuddiolwyr “heintiedig” byw yr oedd y taliadau hyn. Gwnaed cyfanswm o 185 o daliadau hyd at 31 Mawrth 2025 am gyfanswm gwerth £38,850,000.

Ar 24 Hydref, lansiodd IBCA y Taliadau Iawndal Gwaed Heintiedig Dros Dro i Ystadau (IBIEP). Roedd hyn ar gyfer ystadau pobl a fu farw pan oeddent wedi cofrestru gyda Chynllun Cymorth Gwaed Heintiedig (IBSS) cyfredol neu Gynllun “Alliance House” ar neu cyn 17 Ebrill 2024. Nid oedd y person a fu farw, ei bartner mewn profedigaeth na’i ystâd eisoes wedi derbyn taliad iawndal dros dro o £100,000, ac roedd y person yn byw yn y DU neu Weriniaeth Iwerddon ar adeg ei farwolaeth. Gofynnwyd i WIBSS weinyddu’r ceisiadau hyn ar gyfer yr ystadau hynny lle’r oedd yr ymadawedig heintiedig wedi’i heintio yng Nghymru.

Proseswyd cyfanswm o 37 o geisiadau gan ystadau hyd at 31 Mawrth 2025. Roedd 23 yn llwyddiannus am gyfanswm o £2,300,000, gwrthodwyd 6 gan nad oeddent yn gymwys ac roedd 8 arall ar y gweill ar ddiwedd y flwyddyn.



## Buddsoddiadau cyfalaf

Yn ystod blwyddyn ariannol 2024-25, derbyniodd PCGC £11.261m o gyllid cyfalaf. Fe wnaeth £6.826m hwyluso buddsoddiadau mewn prosiectau cyfalaf, gan gynnwys yr uned Radiofferylliaeth newydd, moderneiddio golchdai a warysau, prynu cerbydau newydd a'n strategaethau datgarboneiddio, digideiddio ac ad-drefnu ystadau. Hefyd, fe wnaethon ni dderbyn a gwario cyllid cyfalaf o £4.435m yn gysylltiedig â chyfalafu prydlesi fel y bo'n ofynnol o dan IFRS16.

| Gwariant Cyfalaf | Radiofferylliaeth | Gwasan-aethau'r Golchdy | Cadwyn Gyflenwi/ Warysau | Datgarboneiddio | Digidol/ Awtomeiddio | Ad-drefnu Ystadau | **CYFANSWM** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£000** | | | | | | |
| Uned Radiofferylliaeth | 1,602 | | | | | | **1,602** |
| Moderneiddio'r golchdy | | 1,134 | | 61 | | | **1,195** |
| Amnewid Cerbydau | | | 116 | 938 | | | **1,054** |
| Adnewyddu TG | | | | | 999 | | **999** |
| Gwaith Storfeydd a Thŷ Matrix | | | 431 | | | 113 | **544** |
| Paneli ffotofoltäig a batri IP5 | | | | 316 | | | **316** |
| Ystâd IP5 gan gynnwys Gwefru Cerbydau trydan | | | 114 | 135 | | | **249** |
| System Rheoli Achosion Cyfreithiol a Risg 196 | | | | | 196 | | **196** |
| Paneli ffotofoltäig Tŷ Matrix | | | | 191 | | | **191** |
| Goleuadau LED DuPont | | | | 182 | | | **182** |
| System Gweithlu Gofal Sylfaenol | | | | | 162 | | **162** |
| Mewnosodwr Llythyrau | | | | | 69 | | **69** |
| Gwefru Cerbydau Trydan Tŷ Matrix | | | | 36 | | | **36** |
| Iechyd a Diogelwch | | | 20 | | | | **20** |
| Seiberddiogelwch | | | | | 11 | | **11** |
| **CYFANSWM** | **1,602** | **1,134** | **681** | **1,859** | **1,437** | **113** | **6,826** |





Matrix House Solar Panels

HCS Fleet replacement scheme (Incl. Electric Vehicles






Laundry Lavatec Tumblers

# Y Fframwaith Llywodraethu

Nid yw PCGC yn sefydliad statudol ynddo'i hun. Mae'n gweithredu o fewn

fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd a osodwyd gan Weinidogion Cymru, gan sicrhau ei bod yn gweithredu mewn partneriaeth wirioneddol â GIG Cymru. Mae PCGC yn cael ei lletya gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, sy'n darparu'r sylfaen gyfreithiol a gweinyddol ar gyfer gweithrediadau PCGC. Mae pob sefydliad y GIG yng Nghymru, gan gynnwys Byrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau'r GIG, ac Awdurdodau Iechyd Arbennig, yn cydweithio drwy Femorandwm Cydweithio i sicrhau bod cydwasanaethau yn cael eu darparu'n effeithiol, yn unol â strategaeth Pwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau (SSPC).

Mae Pwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau yn gyfrifol am sicrhau bod PCGC yn dilyn egwyddorion llywodraethu da yn gyson, gan gynnwys goruchwylio a datblygu systemau a phrosesau ar gyfer rheolaeth ariannol, rheolaeth sefydliadol, llywodraethu, a rheolaeth risg.  Mae'r SSPC yn asesu risgiau strategol a chorfforaethol trwy adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol ym mhob cyfarfod ac mae'n monitro perfformiad yn erbyn dangosydd perfformiad allweddol. Os na fydd dangosydd wedi cyrraedd y targed, nodir y rhesymau dros hynny a chânt eu cynnwys yn yr adroddiad ynghyd â chamau i wella perfformiad. Mae sesiynau Golwg Manwl yn aml ar yr agenda i archwilio cyfleoedd, risgiau a phroblemau o fewn gwasanaethau PCGC.

Mae'r SSPC yn gosod y polisi a'r strategaeth ar gyfer PCGC o fewn y fframwaith cyfreithiol y mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu oddi tano fel lletywr, yn monitro'r ddarpariaeth gwasanaethau drwy'r Rheolwr Gyfarwyddwr, ac yn ceisio gwella'r ddarpariaeth cydwasanaethau sy'n effeithiol, yn effeithlon ac yn darparu gwerth am arian i GIG Cymru a Llywodraeth Cymru. Mae hefyd yn sicrhau arweinyddiaeth, cyfeiriad a rheolaeth gref dros PCGC, gyda ffocws ar gyflawni arbedion y gellir eu hailfuddsoddi mewn gofal uniongyrchol i gleifion.

Mae SSPC yn sicrhau bod PCGC yn dilyn egwyddorion llywodraethu da sy'n berthnasol i sefydliadau yn y GIG mewn modd cyson, gan gynnwys goruchwylio a datblygu systemau a phrosesau ar gyfer rheolaeth ariannol, rheolaeth sefydliadol, llywodraethu, a rheolaeth risg. Mae'r SSPC yn asesu risgiau strategol a chorfforaethol trwy adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol ym mhob cyfarfod.


Mae aelodau Pwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau yn cynnwys Cadeirydd Annibynnol, Rheolwr Gyfarwyddwr PCGC ac naill ai'r Prif Weithredwr neu gynrychiolydd enwebedig arall, sy'n gweithredu ar ran pob Bwrdd Iechyd neu Ymddiriedolaeth ac Awdurdod Iechyd Arbennig GIG Cymru.



Mae Pwyllgor Archwilio Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ar gyfer PCGC yn gyfrifol am adolygu ac adrodd ar

weithredu effeithiol llywodraethu cyffredinol a'r system rheolaeth fewnol. Mae hyn yn cynnwys rheoli risg, rheolaethau cydymffurfedd weithredol, a sicrwydd cysylltiedig sy'n cefnogi cyflawni nodau a chynnal safonau llywodraethu da. Ceir tystiolaeth o reoli adnoddau yn ystod 2024-25 yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae'r datganiad yn nodi i ba raddau y cydymffurfiwyd â'n gofynion llywodraethu ein hunain, gan grynhoi'r holl ddatgeliadau sy'n ymwneud â llywodraethu, risg a rheolaeth. Cyhoeddir Papurau Pwyllgor a Datganiadau Gweithredol ac maent ar gael ar ein gwefan.

Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn rhoi barn bob blwyddyn ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y prosesau rheoli risg, rheolaeth, a llywodraethu yn PCGC, sef Sicrwydd Rhesymol ar gyfer 2024-25.



## Adolygiad Annibynnol sydd ar ddod o Drefniadau Atebolrwydd a Llywodraethu PCGC

Ar 9 Ebrill 2025, cyhoeddodd Cyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar a Phrif Weithredwr GIG Cymru adolygiad annibynnol yn ffurfiol o drefniadau llywodraethu ac atebolrwydd PCGC. Mae'r fenter hon yn cyd-fynd â'r cyfeiriad strategol a nodir yn nogfen Cymru Iachach (2018), a amlygodd gymhlethdod cynyddol GIG Cymru ac a alwodd am adolygiad o swyddogaethau cenedlaethol i sicrhau eglurder a chydlyniant.

Mae adolygiadau tebyg eisoes wedi'u cynnal ar draws cyrff eraill GIG Cymru. O ystyried y twf sylweddol ym maint a chymhlethdod PCGC ers sefydlu ei fframwaith llywodraethu gwreiddiol, mae'r adolygiad hwn yn amserol ac i'w

groesawu. Bydd yn asesu a yw'r trefniadau presennol yn parhau i fod yn addas at y diben neu a oes angen eu cryfhau. Yn bwysig, mae PCGC yn parhau i weithredu'n llawn o fewn ei strwythur llywodraethu presennol wrth aros am ganlyniad yr adolygiad.



# Gwersi a Ddysgwyd a Heriau

Fel y gwelir yn y data perfformiad, mae gan PCGC hanes cryf o ddarparu a chyflawni'r amcanion a osodwyd ar ei chyfer gan Bwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau a gweithredu o fewn y gyllideb, gan gyflawni arbedion i'w hailfuddsoddi mewn datblygu gwasanaethau PCGC a chefnogi sefyllfa ariannol ehangach GIG Cymru.

A hithau'n gweithredu ar draws ehangder gwasanaethau ac mewn systemau cymhleth, ni fydd popeth yn mynd yn ôl y cynllun ac mae heriau y mae PCGC wedi'u hwynebu ac yn parhau i'w hwynebu. Pan fydd pethau'n mynd o chwith, fel y maent yn ei wneud weithiau, mae gan PCGC ddiwylliant cryf o ddysgu gwersi a gweithio i wella.

Yn ystod 2024–25, derbyniodd PCGC 35 o bryderon ffurfiol, cynnydd o gymharu â 26 y flwyddyn flaenorol, ac ymatebwyd i 88% ohonynt o fewn 30 diwrnod gwaith. Yn ogystal, aethpwyd i'r afael yn lleol ag 20 o gwynion i'w datrys yn gynnar o fewn 24 awr, gan osgoi'r angen am uwchgyfeirio ffurfiol.

Roedd pryderon yn ymwneud yn bennaf â chyflog, pensiynau a threuliau, gan adlewyrchu rôl PCGC yn cefnogi staff GIG Cymru, yn hytrach na darparu gofal uniongyrchol i gleifion. Fodd bynnag, yn sgil cyflwyno'r Gwasanaeth Archwilio Meddygol yn statudol ym mis Medi 2024, roedd cynnydd amlwg mewn cwynion, yn enwedig ynghylch oedi wrth gyhoeddi Tystysgrifau Meddygolo Achos Marwolaeth (MCCDs) sydd, yr ydym yn cydnabod, wedi bod yn her barhaus. Ym mis Mawrth 2025, cafodd Pwyllgor PCGC archwiliad dwfn yn gysylltiedig â'r Gwasanaeth Archwilio Meddygol i archwilio ble y gellir gwneud gwelliannau, ar y cyd â phartneriaid. Atgyfnerthir hyn drwy gyfarfodydd perfformiad rheolaidd gyda sefydliadau partner, cymryd rhan mewn rhwydweithiau proffesiynol a chydweithio â Llywodraeth Cymru.

Yng nghyd-destun gwelliant parhaus ac yn unol ag egwyddor rhodd cwynion, fe wnaethom gryfhau ein mecanweithiau adrodd i gofnodi achosion sylfaenol ac unrhyw wersi a ddysgwyd o bob pryder a gafwyd a thrafodir y rhain yn fisol. Hefyd, fe wnaethom lansio mecanwaith adborth ar gyfer achwynwyr yn gysylltiedig â'r broses ymdrin â phryderon.

Fe wnaeth gwersi a ddysgwyd o gwynion a dderbyniwyd arwain at sawl gwelliant, gan gynnwys modiwlau hyfforddi mwy hygyrch, protocolau ymateb cryfach i negeseuon e-bost a phrosesau cyfathrebu cliriach o fewn y MES. Yn y Gwasanaethau Gofal Sylfaenol, cymerwyd camau

i atal camgymeriadau wrth ymdrin â chofnodion meddygol, gwella cyfathrebu â theuluoedd sydd mewn profedigaeth, a sicrhau taliadau presgripsiwn cywir.

Bu gostyngiad nodedig yn nifer y pryderon ynghylch y gyflogres a gafwyd yn sgil cyflwyno Polisi Gordaliadau Cymru Gyfan ar 1 Hydref 2024, sef dull cenedlaethol dan arweiniad PCGC, ond rydym yn parhau i weithio ar sicrhau, er bod cywirdeb cyflogres yn gyson dros 99%,

y gall achlysuron pan fydd angen adennill gordaliadau effeithio'n sylweddol ar yr unigolion dan sylw. Rydym yn gweithio gyda sefydliadau'r GIG i sicrhau bod gwybodaeth gywir yn cael ei darparu i'r gyflogres yn amserol er mwyn atal gordaliadau rhag digwydd yn y lle cyntaf.



# Y Ddyletswydd Ansawdd

**"Diffiniad ansawdd yw diwallu anghenion y boblogaeth yr ydym yn ei gwasanaethu mewn modd parhaus, dibynadwy a chynaliadwy."**

Mae blwyddyn adrodd 2024–2025 yn nodi ail flwyddyn lawn gweithredu'r Ddyletswydd Ansawdd gan PCGC, yn sgil ei chyflwyno ym mis Ebrill 2023.

Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at ein hymrwymiad parhaus i wreiddio ansawdd ar draws ein portffolio gwasanaethau amrywiol, anghlinigol. Mae'r Ddyletswydd wedi'i hintegreiddio i gynllunio strategol, cyflawni gweithredol a sicrhau perfformiad i gyd-fynd â'n gwerthoedd craidd a'n nodau strategol.

Mae cyflawniadau allweddol yn cynnwys cynnal yr achrediad Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cwsmeriaid ar draws y sefydliad, cyflawni a chadw achrediadau ISO a rheoleiddio lluosog a gwreiddio egwyddorion ansawdd yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP). Mae is-adrannau wedi mabwysiadu Systemau Rheoli Ansawdd teilwredig ac adrodd "bob amser" i sicrhau gwelliant ac atebolrwydd parhaus. Mae ymgysylltiad staff wedi bod yn ganolog, gyda hyrwyddwyr ansawdd ym mhob is-adran a fformatau hygyrch fel fideos a blogiau dwyieithog yn cael eu defnyddio i rannu arferion gorau.




Mae PCGC wedi dangos arloesedd mewn adrodd sy'n seiliedig ar ansawdd, gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar ddata, a mentrau cynaliadwyedd. Mae enghreifftiau'n cynnwys datblygu offer digidol dwyieithog, ymdrechion i ddatgarboneiddio mewn gwasanaethau golchdy, a chydweithio cenedlaethol

ar adolygiadau o farwolaethau a chynllunio'r gweithlu. Mae'r sefydliad yn parhau i ddefnyddio adolygiadau is-adrannol chwarterol a dangosyddion perfformiad allweddol i yrru rheoli ansawdd a gwella ansawdd, gan sicrhau bod gwasanaethau'n parhau i fod yn ddiogel, yn effeithiol, yn effeithlon, yn amserol, yn deg, a'u bod yn canolbwyntio ar y person.

Wrth edrych ymlaen, bydd PCGC yn gwella

sut mae'n adrodd ar ansawdd drwy well dangosfyrddau data, ymgysylltu parhaus a mireinio hunanasesiadau, a bydd yr adrodd i Bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn parhau i esblygu. Mae'r adroddiad yn cadarnhau rôl PCGC yn cefnogi GIG Cymru drwy ddarparu gwasanaethau anghlinigol o ansawdd uchel a'i hymrwymiad parhaus

i ddarparu gwerth, arloesedd, a

rhagoriaeth.

Gallwch ddarllen mwy am sut rydym wedi gwreiddio ansawdd fel sefydliad yn **Adroddiad Blynyddol Dyletswydd Ansawdd PCGC 2024-25.**

# Iechyd a Diogelwch

## Ein Nod ar gyfer Iechyd a Diogelwch

*Darparu a chynnal amgylchedd diogel ac iach i bawb sy’n defnyddio ein gwasanaethau a chreu diwylliant cadarnhaol.*

Mae PCGC yn rhoi’r pwys mwyaf ar iechyd, diogelwch a llesiant staff ac ymwelwyr. Mae’n hanfodol bod rheolwyr a staff yn cydweithio i sicrhau y ceir amgylchedd iechyd a diogelwch cadarnhaol.

Er mwyn cyflawni ein hamcanion, mae arnom angen gweithlu hynod fedrus, llawn cymhelliant, ymroddedig ac iach. Mae ymgysylltiad staff ac iechyd a diogelwch yn flaenoriaeth a bydd yn cael ei sicrhau mewn amgylchedd lle mae staff yn cael eu rheoli’n dda a’u gwerthfawrogi am eu cyfraniad. Cyflawnir hyn trwy arweinyddiaeth effeithiol uwch reolwyr, cyfranogiad yr holl staff a sianeli cyfathrebu agored ac ymatebol.

Mae’r Cyfarwyddwr Corfforaethol a Chyllid yn arwain cyfeiriad cyffredinol iechyd a diogelwch PCGC ac, ar y cyd â’r Rheolwr Iechyd a Diogelwch, mae’n parhau i wella perfformiad drwy fonitro cynnydd, adolygu prosesau a thrafodaethau yng Ngrŵp Iechyd a Diogelwch Cymru Gyfan PCGC.

## Tueddiadau Digwyddiadau Iechyd a Diogelwch 2024-2025

Yn ystod 2024/2025, mae tueddiadau’r digwyddiadau iechyd a diogelwch yn parhau fel a ganlyn:


Dod i gysylltiad â Gwrthrych


Codi a Chario


Llithro, Baglu a Chwympo


Trais ac Ymddygiad Ymosodol

| Categori Tueddiadau | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 | Tuedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyswllt â gwrthrych/wedi’i daro gan wrthrych | 11 | 11 | 26 | 30 | 18 | 16 | ↓ |
| Trais ac Ymddygiad Ymosodol | 14 | 10 | 10 | 15 | 20 | 11 | ↓ |
| Codi a Chario | 14 | 12 | 23 | 16 | 16 | 17 | ↓ |
| Llithro, Baglu a Chwympo | 14 | 10 | 10 | 15 | 6 | 16 | ↑ |

- gellir gweld gostyngiad yn nifer y digwyddiadau y cafwyd adroddiadau amdanynt yn y categorïau canlynol:

**Cyswllt â gwrthrych/wedi'i daro gan wrthrych**

- Bu **gostyngiad yn nifer y digwyddiadau** yn ystod 2024-2025, a all roi sicrwydd o welliant.

**Trais ac Ymddygiad Ymosodol**

- Bu **gostyngiad yn nifer y digwyddiadau** yn ystod 2024-2025, a all roi sicrwydd o welliant.

- gellir gweld cynnydd yn nifer y digwyddiadau y cafwyd adroddiadau amdanynt yn y categorïau canlynol:

**Codi a Chario**


- Er gwaethaf y cynnydd bach yn nifer y digwyddiadau y cafwyd adroddiadau amdanynt ar gyfer 2024-2025, mae PCGC yn parhau i gyflawni ei nod, sef lleihau nifer y digwyddiadau codi a chario sy'n gysylltiedig â gwaith yn y gweithle, gan anelu at ostyngiad o 10% dros ddwy flynedd. Gall hyn roi sicrwydd o welliant.

**Llithro, Baglu a Chwympo**


- Er gwaethaf y cynnydd yn nifer y digwyddiadau y cafwyd adroddiadau amdanynt ar gyfer 2024-2025, mae PCGC **yn parhau i gyflawni ei nod**, sef lleihau llithro, baglu a chwympo sy'n gysylltiedig â gwaith yn y gweithle, gan anelu at ostyngiad o 10% dros ddwy flynedd.

Yn ystod y cyfnod, cyflawnwyd amserlen o archwiliadau mewnol iechyd a diogelwch gan y Rheolwr Iechyd a Diogelwch a'r Swyddogion Cymorth Iechyd a Diogelwch yn PCGC.

## Digwyddiadau Iechyd a Diogelwch yn ôl Grŵp Gwasanaeth 2024-2025



## Digwyddiadau Iechyd a Diogelwch yn ôl Categori2024-2025






# Llywodraethu Gwybodaeth

Yn ystod 2024/25, cynhaliwyd y gweithgareddau canlynol o fewn y swyddogaeth Llywodraethu Gwybodaeth:

Mynychwyd **16** dosbarth LIG wyneb yn wyneb gan staff drwy ddefnyddio Microsoft Teams.

**89.5%**
Cyfartaledd cydymffurfedd â sgiliau craidd e-Ddysgu LIG ar draws PCGC

**138**
Nifer y Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a gafwyd.

**250**
Galwad Actionpoint wedi'u cofnodi ar blatfform pwrpasol y gwasanaeth.

**95.5%**
Cydymffurfedd ag ymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth o fewn 20 diwrnod gwaith

**477**
Aelod staff wedi mynychu sesiwn hyfforddi LIG.



- Adolygwyd hysbysiadau a phrotocolau preifatrwydd lle y bo'n berthnasol
- Datblygwyd cyfathrebiadau rheolaidd i roi diweddariadau ar bob pwnc LIG.
- LIG drwy gydol y flwyddyn ac ni adroddwyd am unrhyw ddigwyddiadau difrifol.
- Sicrwydd sylweddol gyda'r pecyn cymorth asesu LIG blynyddol
- Lansiwyd canllawiau a phrotocolau LIG newydd.
- Adolygwyd Polisïau a Gweithdrefnau yn unol â dyddiadau adolygu.
- Asesiadau o'r Effaith ar Breifatrwydd wedi'u cwblhau a diweddariadau i'r Gwasanaeth Archwilio Meddygol yn sgil ei sefydlu'n statudol
- Cynllun gwaith wedi'i gwblhau'n llawn
- Cynnal cyfarfodydd LIG mewnol bob chwarte

# Y Gymraeg

Mae PCGC wedi ymrwymo i sicrhau y caiff y Gymraeg a'r Saesneg eu trin yn gyfartal yn y gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd ac i sefydliadau eraill yn GIG Cymru. Mae hyn yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Rheoliadau Safonau'r Gymraeg [Rhif 7] 2018.

Mae PCGC yn adrodd am y gwaith mae'n ei wneud o ran ei darpariaeth Gymraeg a'i pherfformiad i Lywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg yn yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol. Mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud yn bennaf gan Bennaeth Gwasanaethau'r Gymraeg a Chydymffurfiaeth, sy'n adrodd i'r Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol ac yn gweithio'n agos gyda phob is-adran a gwasanaeth ar draws PCGC.

Mae Uned Iaith Gymraeg wedi'i sefydlu i gefnogi ein his-adrannau a'n gwasanaethau gyda gwasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd, yn ogystal â rhoi cyngor ac arweiniad ar y ffordd orau o gynllunio'r modd y darperir gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Rydym wedi sefydlu proses hunanasesu i asesu ein statws cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a'r Cod Ymarfer. Cytunir ar gynlluniau gwella lleol a chânt eu gweithredu yn y flwyddyn ddilynol yn seiliedig ar yr asesiad a'r dystiolaeth a ddarperir i ategu'r asesiad. Mae'r broses hon yn ein cynorthwyo i ddarparu sicrwydd a gwybodaeth gywir am ein lefelau cydymffurfio.

Roedd ein statws cydymffurfedd cyffredinol ar ddiwedd mis Mawrth 2025 fel a ganlyn:

| **Safonau** | **Lefel cydymffurfedd** |
|---|---|
| Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Lefel ganolig i uchel o gydymffurfedd |
| Safonau Llunio Polisi | Lefel ganolig o gydymffurfedd |
| Safonau Gweithredu | Lefel ganolig i uchel o gydymffurfedd |
| Safonau Cadw Cofnodion | Lefel uchel o gydymffurfedd |


Yn dilyn seminar gyda swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ym mis Tachwedd 2023 a gweithdy pellach ym mis Ebrill 2025, fe wnaethom adolygu offeryn yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a oedd gennym o'r blaen a'i ymgorffori'n llawn yn ein gwaith Polisi Newid Sefydliadol. Mae hyn cynnwys darparu ystadegau allweddol ar ddemograffeg y boblogaeth a thynnu sylw at ddogfennau allweddol y dylai awduron ymgynghori â nhw wrth gwblhau asesiad o'r effaith ar y Gymraeg, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:


- Data cyfrifiad 2021
- Mesur y Gymraeg 2011
- Hysbysiad Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg ar gyfer Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre
- Cod Ymarfer Safonau'r Gymraeg
- Strategaeth Cymraeg 2050
- Strategaeth Mwy na Geiriau a
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
    - Yn ogystal ag ystyried proffil demograffig ein staff ledled Cymru.

Rydym hefyd wedi adolygu'r broses, lle mae'n rhaid i Bennaeth Gwasanaethau'r Gymraeg a Chydymffurfiaeth weld unrhyw waith Polisi Newid Sefydliadol arfaethedig i gael arweiniad a chyngor cyn ymgynghori.

## Sgiliau'r Gymraeg yn PCGC Sgiliau'r Gymraeg yn PCGC

Mae sgiliau Cymraeg wedi cynyddu o fewn y sefydliad o gymharu â 2023/24:







## Sgiliau Cymraeg yn PCGC

| **Cyfanswm nifer y swyddi gwag a hysbysebwyd gan ddatgan:** | |
|---|---|
| Mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol | 2 |
| Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol | 435 |
| Bydd angen dysgu sgiliau Cymraeg pan benodir rhywun i'r swydd | 0 |
| Nid yw sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol | 0 |
| Cyfanswm nifer y swyddi gwag a hysbysebwyd 01/04/2022 - 31/03/2023 | 437 |

## Staff sy'n Dysgu Cymraeg

Yn ystod 2024/25, mae 73 aelod o staff wedi dysgu Cymraeg ar y lefelau canlynol:




## Adolygiad o'r Protocol Pryderon a Chwynion

Cymerodd Tîm y Gymraeg ran yn yr adolygiad Corfforaethol o Brotocol Rheoli Pryderon a Chwynion PCGC a diweddarodd ganllawiau i'r holl staff ar sut i reoli pryderon a chwynion yn unol â'r polisi. Mae rheoli pryderon a chwynion a godir yn y Gymraeg neu am Wasanaethau Protocol y Gymraeg wedi'i gynnwys yn y Protocol a'r canllaw cysylltiedig.

## Gwasanaethau Cyfieithu i'n cleientiaid:

### Gwasanaethau Cyfieithu PCGC 2024/25




Yn ystod 2024/25, parhaodd y duedd am wasanaethau cyfieithu i gynyddu. Cyfieithom gyfanswm odros 8 miliwn o eiriau ar draws ein cleientiaid, fel y disgrifir uchod.



# Cyfathrebu

Yn 2024 i 2025, fe wnaeth y Tîm Cyfathrebu gefnogi nodau a chyflawniad PCGC trwy amrywiaeth o weithgareddau dwyieithog a chynnig cyngor a'n harbenigedd i gydweithwyr ar draws PCGC.

Roedd ein gwaith yn amrywio o reoli ymholiadau cymhleth gan y cyfryngau i ddylunio adroddiadau mawr, fel ein Cynllun Tymor Canolig Integredig, ac o gynnwys, i ddiweddariadau gwefannau a threfnu cyfathrebu a digwyddiadau mewnol o fewn amserlenni tynn.

Fe wnaeth y tîm olygu a chreu fideos, tudalennau Sharepoint, ffeithluniau a chynnwys gwefannau, ynghyd â threfnu a chefnogi Boreau Coffi mewnol i staff, a digwyddiadau ar gyfer prosiectau a blaenoriaethau strategol.

Ddechrau mis Mawrth 2025, croesawon ni Bennaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu, rôl newydd i PCGC. Mae cynlluniau ar y gweill i gynyddu allbwn cyfathrebu strategol, cynllunio ac effaith y Tîm ar gyfer staff a'n cynulleidfaoedd allanol yn 2025 i 2026. Hefyd, enillodd aelod o'r tîm, James Ward, wobr ganmoliaeth uchel mewn gwobr staff fewnol am ei waith yn hyrwyddo'r Gymraeg a'i diwylliant.

## Ymweliadau â'r wefan (cyfnod adrodd Ebrill 2024 i Fawrth 2025)

**433,899**, gostyngiad o **68%**

**Sylwch, rydym wedi newid sut rydym yn adrodd ar ystadegau ein gwefan a'u mesur..*

## Y Prif dudalennau

Swyddi gwag cyfredol - **33,328**

Sut mae cael mynediad at fwrsariaeth? ? - **27,102**

Dyfarniadau myfyrwyr - **30,603**

## Amser ymgysylltu ar gyfartaledd

Munud **1** a **6** eiliad

## Number of users

**140,915**

## Ystadegau Cyfryngau Cymdeithasol

**4760** o ddilynwyr ar X (Twitter gynt) ↓ 2.8%[1]

**Sylwch, yn unol â sefydliadau eraill GIG Cymru, fe wnaethom roi'r gorau i bostio'n rhagweithiol ar X ym mis Rhagfyr 2024 oherwydd pryderon ynghylch cynnwys a moeseg y platfform.*

**7758** Ddilynwyr LinkedIn ↑ 13.2%[2]

Mwy na **50,000** o argraffiadau

Mae mwy na thraean o'n cynulleidfa LinkedIn wedi'u lleoli yng **Nghaerdydd, Llundain, Abertawe, Casnewydd a Phen-y-bont ar Ogwr**, ond mae gennym ni gynulleidfaoedd hefyd yn India a de orllewin a gogledd Lloegr.

---

[1]Gostyniad o 4,760

[2]Cipiwyd nifer y dilynwyr ar 1 Mai 2025. Roedd nifer y dilynwyr yn adroddiad 2023 i 2024

yn 6,851. Mae'r cynnydd i 7,758 yn ei gwneud hi'n gynnydd o 13.2% yn nifer y dilynwyr.

## Prosiectau Allweddol

- Dylunio'r Cynllun Tymor Canolig Integredig
- Cefnogi lletya digwyddiad yr hydref Rhaglen Gynllunio ar gyfer Dysgu GIG Cymru i staff cynllunio ar draws GIG Cymru
- Datblygu Porth Buddion Staff GIG Cymru (i'w gyhoeddi yn 2025)
- Mudo gwefan Labordy Profi Deunyddiau Llawfeddygol
- Cyfathrebu ategol ar gyfer Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru
- Datblygu proses awtomataidd Datix Down
- Dylunio adolygiadau adrannol a sefydliadol blynyddol
- Datblygu deunyddiau ategol y cynllun gweithredu datgarboneiddio
- Goruchwylio adnewyddu llety a chyfathrebu wrth archebu desgiau
- Dylunio a chyhoeddi cylchlythyr misol y Rheolwr Gyfarwyddwr
- Trefnu a chynnal Boreau Coffi mewnol ar brosiectau allweddol
- Cefnogi golygu fideos ar gyfer y Gwobrau Staff PCGC

# Iechyd a Llesiant



# Cynhadledd Iechyd a Llesiant Flynyddol

Fe wnaethon ni ddathlu ein Cynhadledd Iechyd a Llesiant Flynyddol ar 16 Ionawr 2025, a fu'n llwyddiant rhyfeddol. Roedd y digwyddiad yn cynnwys amrywiaeth o weithdai craff gyda siaradwyr gwadd ysbrydoledig, gan gynnig strategaethau gwerthfawr i'r mynychwyr i wella eu hiechyd a'u llesiant. Roedd hyblygrwydd i'r cyfranogwyr ymuno â'r diwrnod cyfan neu sesiynau penodol, gyda recordiadau ar gael i'w gwylio'n ddiweddarach.

Roedd uchafbwyntiau'r agenda yn cynnwys:

- Gweithdai ar faterion iechyd y mislif a'r menopos.
- Rhannodd trefnydd undeb llafur UNISON ei harbenigedd ym maes addysg, cydraddoldeb a chefnogaeth yn y gweithle.
- Esboniodd Adweithegydd Clinigol fanteision ac egwyddorion adweitheg.
- Trafododd George King, sef "dringwr y Shard", reoli ofn, ADHD, a harneisio canolbwyntio manwl iawn.
- Cynhaliodd David E. Hull-Watters weithdy holistaidd ar iechyd meddwl a llesiant, gan ddarparu gwybodaeth ymarferol, strategaethau cymorth ac offer er budd personol a chyfunol.
- Daeth y gynhadledd i ben gyda sesiwn ar arferion bob dydd wedi'i hysbrydoli gan Dr. Michael Mosley, gan sbarduno trafodaethau bywiog ar bynciau llesiant.

Darlledwyd y digwyddiad yn y Pencadlys yn Nantgarw ac IP5 Casnewydd, gan sicrhau hygyrchedd i'r holl staff. Gyda lefel uchel o bresenoldeb a chyfranogiad gweithredol, roedd y fenter flynyddol hon gan y Grŵp Partneriaeth Staff ar Iechyd a Llesiant yn amlygu pwysigrwydd dysgu ar y cyd a chymryd camau ymarferol tuag at fywyd iachach a mwy cytbwys.



# Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Mae PCGC wedi ymrwymo'n gadarn i ddileu gwahaniaethu, gwerthfawrogi amrywiaeth a hyrwyddo cynhwysiant a chydraddoldeb cyfle ar draws ei holl feysydd gwaith. Fel sefydliad anstatudol sy'n cael ei letya gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, mae cynnig PCGC yn cyd-fynd â Pholisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a Chynllun Cydraddoldeb Strategol yr Ymddiriedolaeth, gan sicrhau cydymffurfedd â dyletswyddau deddfwriaethol ac ymrwymiad ar y cyd i feithrin diwylliant cynhwysol.

Drwy gydol 2024 i 2025, parhaodd PCGC i chwarae rhan flaenllaw mewn ymdrechion cydraddoldeb cenedlaethol, gan gyfrannu at Grŵp Arweinyddiaeth Cydraddoldeb GIG Cymru a chefnogi gwasanaethau Cymru Gyfan, fel Caffael a Recriwtio. Mae'r sefydliad hefyd yn cynnal amrywiaeth o rwydweithiau staff i hyrwyddo cynhwysiant y gweithlu ac mae'n parhau i ehangu ei gynnig cynhwysiant mewnol, fel rhwydwaith Proud/Balch.

Mae'r Grŵp Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, a sefydlwyd trwy raglen ddiwylliant "Dyma Ein PCGC", wedi bod yn allweddol wrth lunio Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y sefydliad. Mae Safon Cydraddoldeb Hil y Gweithlu, Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, a Chynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru yn llywio'r strategaeth hon. Mae aelodaeth PCGC o Rwydwaith y Cyflogwyr dros Gydraddoldeb a Chynhwysiant yn cefnogi ymhellach ei thaith gwelliant parhaus. Hefyd, mae Llysgenhadon Amrywiaeth a Chynhwysiant pwrpasol wedi'u cyflwyno i helpu meithrin amgylchedd gwaith cadarnhaol a chyfartal.

Mae proses Asesiad Integredig PCGC o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi aeddfedu'n sylweddol. Mae bellach yn ystyried yn gadarn anghenion nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru, a

Deddf Hawliau Dynol 1998. Mae hefyd yn ymgorffori galluogwyr ehangach megis cynaliadwyedd, cyflogaeth foesegol, y Gymraeg, llywodraethu gwybodaeth, iechyd a diogelwch, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol, sydd mewn grym ers mis Mawrth 2021, hefyd wedi'i gwreiddio mewn gwneud penderfyniadau strategol.

Rheolir data cydraddoldeb drwy system y Cofnod Staff Electronig, gyda staff yn gyfrifol am gynnal eu proffiliau amrywiaeth eu hunain. Mae arferion recriwtio PCGC yn cydymffurfio'n llawn â'r Ddeddf Cydraddoldeb, gyda gwiriadau ansawdd ar waith i sicrhau tegwch a chael gwared ar ragfarn o hysbysebion swyddi a deunyddiau ategol.

Mae hyfforddiant yn parhau i fod yn gonglfaen i ddull PCGC. Mae pob aelod o staff yn cwblhau modiwl e-ddysgu GIG Cymru, "Fy Nhrin yn Deg", fel rhan o'r cyfnod ymsefydlu, ac mae rheolwyr yn derbyn hyfforddiant ychwanegol drwy'r rhaglen Sgiliau Craidd i Reolwyr, sy'n cynnwys modiwlau ar urddas yn y gwaith a rheoli gwrthdaro. Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru (WHC 2024/044), mae PCGC hefyd wedi gweithredu hyfforddiant gwrth-hiliaeth gorfodol i'r holl staff, gan gynnwys staff mewn rolau nad ydynt yn wynebu cleifion.

## Cynnydd Cydraddoldeb Hil y Gweithlu

Yn 2024, ymatebodd PCGC i adroddiad cyntaf Llywodraeth Cymru ar Safon Cydraddoldeb Hil y Gweithlu (WRES), a nododd feysydd allweddol yr oedd angen gweithredu arnynt yn benodol. Roedd y rhain yn cynnwys absenoldeb cynrychiolaeth pobl o leiafrifoedd ethnig ar y bwrdd, gwahaniaethau mewn canlyniadau recriwtio ar gyfer staff anghlinigol o leiafrifoedd ethnig, lefelau isel o ddatganiadau ethnigrwydd—yn enwedig ymhlith staff uwch—ac ymgysylltu cyfyngedig ag Arolwg Staff GIG Cymru. I ymateb, mae PCGC wedi cymryd amrywiaeth o gamau targedig i fynd i'r afael â'r heriau hyn.

Rydym wedi hyrwyddo cyfleoedd datblygu arweinyddiaeth fel Rhaglen Darpar Aelodau Bwrdd Academi Cymru ac wedi lansio ein menter "Arweinwyr y Dyfodol" ein hunain, gyda lleoedd wedi'u neilltuo ar gyfer grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ohonynt. Mae arferion recriwtio cynhwysol wedi cael eu cryfhau drwy fodiwlau hyfforddi a monitro data yn well. Mae ymdrechion i wella ansawdd data ar ethnigrwydd yn parhau, gydag allgymorth a gwelliannau targedig i systemau. Er gwaethaf gostyngiad yn y nifer sy'n cymryd rhan yn arolygon y staff, fe wnaethom weithredu strategaeth ymgysylltu aml-sianel ac rydym yn bwriadu dilyn hynny i fyny gydag arolygon pwls i ddeall yn well y rhwystrau rhag cymryd rhan. Yn ogystal, fe wnaethom gyflwyno Llysgenhadon Amrywiaeth a Chynhwysiant a gwreiddio arferion cynhwysol mewn rhaglenni arweinyddiaeth, gan atgyfnerthu ein hymrwymiad i greu gweithle teg a chyfartal i bawb.



## Cynllun Gweithredu Diwylliant Cynhwysol

I ymateb i ofynion deddfwriaethol a pholisi cynyddol ynghylch cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, mae PCGC wedi datblygu Cynllun Gweithredu Diwylliant Cynhwysol cynhwysfawr ar gyfer 2025–2027. Mae'r cynllun unedig hwn yn cyfuno camau gweithredu sy'n gorgyffwrdd o nifer o ffrydiau gwaith, gan gynnwys Arolwg Staff GIG Cymru, Safon Cydraddoldeb Hil y Gweithlu (WRES), Codi Llais Heb Ofn, ac adborth Llywodraeth Cymru ar fentrau cydraddoldeb strategol fel Cynlluniau Gweithredu Cymru Wrth-Hiliol ac LHDTC+. Mae hefyd yn mynd i'r afael â dyletswyddau deddfwriaethol newydd o dan Ddeddf Diogelu Gweithwyr 2023 ac mae'n cefnogi gweithredu arferion gorau gweithio hyblyg a llesiant.

Cyd-gynhyrchwyd y cynllun gan weithgor sy'n cynnwys cydweithwyr Pobl a Datblygu Sefydliadol, cynrychiolwyr Undebau Llafur, Hyrwyddwyr Newid Diwylliant, ac arweinwyr arolygon staff. Mae'n nodi 15 o gamau gweithredu wedi'u targedu gyda'r nod o wella morâl, cadw staff, a chynrychiolaeth, wrth feithrin amgylchedd gwaith tosturiol, cynhwysol, a diogel yn seicolegol. Mae mentrau allweddol yn cynnwys lansio rhaglen “Arweinwyr y Dyfodol”, hyfforddiant a mentora gwell, hyfforddiant recriwtio cynhwysol, a chyflwyno model gwerthuso newydd sy'n canolbwyntio ar arweinyddiaeth dosturiol. Mae'r cynllun hefyd yn blaenoriaethu cynyddu adrodd ar ddata demograffig, codi ymwybyddiaeth o ddiogelwch rhywiol, a chefnogi staff i godi llais heb ofn.

Bydd cynnydd yn cael ei fonitro drwy adrodd yn rheolaidd i'r Uwch Grŵp Arwain, i Bwyllgor y Bartneriaeth, ac i Lywodraeth Cymru, gyda diweddariadau yn cael eu rhannu ar draws y sefydliad. Mae'r cynllun wedi'i alinio'n llawn â nodau strategol a gwerthoedd craidd PCGC, gan atgyfnerthu diwylliant lle mae pob cydweithiwr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu cefnogi, a'u grymuso i ffynnu.



# Dysgu a Datblygu Dysgu a Datblygu

Mae dysgu a datblygu yn parhau i fod yn ganolog i'n cenhadaeth yn PCGC, gyda phwyslais cryf ar greu cyfleoedd cynhwysol, hygyrch ac effeithiol ar gyfer twf staff. Eleni, fe wnaethom gynnal Dadansoddiad Blynyddol trylwyr o Anghenion Hyfforddi gyda phob is-adran i sicrhau bod ein cynigion datblygu yn cyd-fynd â blaenoriaethau sefydliadol a dyheadau unigol.

Rydym wedi parhau i fuddsoddi mewn rhaglenni hyfforddi a mentora, gan feithrin diwylliant o gefnogaeth gan gymheiriaid a gwelliant parhaus. Mae ein ffocws ar sgiliau gallu digidol wedi helpu staff i addasu i dechnolegau sy'n esblygu ac amgylcheddau gwaith hybrid. Drwy ystod o opsiynau addysg a datblygu am ddim ac am gost isel, gan gynnwys cymwysterau wedi'u hariannu, rydym wedi cefnogi staff i fynd ar drywydd dysgu ffurfiol heb rwystrau ariannol.

Mae PCGC wedi bod yn falch o gefnogi dau gynllun pwysig i raddedigion; Rhaglen Graddedigion Rheoli Cyffredinol Cymru Gyfan, a gynhelir gan AaGIC a'r Cynllun Graddedigion Cyllid, a gynhelir gan yr Academi Gyllid. Mae'r rhaglenni hyn wedi darparu llwybrau strwythuredig i yrfaoedd yn y GIG i raddedigion dawnus ledled Cymru.

Hefyd, rydym wedi cymryd camau breision ymlaen o ran ehangu mynediad at yrfaoedd yn y GIG drwy fentrau fel Cynllun Rhwydwaith 75, sy'n cyfuno astudiaethau academaidd â dysgu seiliedig ar waith, ac amrywiaeth o brentisiaethau ar draws adrannau. Yn ogystal, fe wnaethom dreialu Lleoliadau Profiad Gwaith Tymor Byr o fewn gwahanol dimau, gan gynnig profiad gwerthfawr o amgylcheddau gwaith y GIG. At hynny, mae ein rhaglenni lleoliadau gwaith wedi cefnogi unigolion sy'n awyddus i ennill profiad ymarferol ac archwilio opsiynau gyrfa o fewn PCGC.

Mae ystod eang o gyrsiau hyfforddi mewnol, ynghyd â disgrifiadau manwl a dyddiadau ac amseroedd wedi'u hamserlennu, wedi sicrhau bod dysgu'n berthnasol ac yn amserol. Rydym hefyd wedi blaenoriaethu datblygu arweinyddiaeth a rheolaeth, gan gynnig cyfres o raglenni fel:

- Arweinwyr y Dyfodol
- Darpar Arweinwyr
- Rhaglen Arwain ar gyfer Rhagoriaeth ac
- Arloesedd
- Arweinyddiaeth Dosturiol
- Sut i fod yn Arweinydd Cynhwysol
- Ymsefydlu ar gyfer Arweinwyr
- Sesiynau Coffi a Sgwrs
- Cyfleoedd Arwain Ehangach

Mae ein gweminarau rheolaidd wedi darparu cyfleoedd dysgu hyblyg ar bynciau allweddol, gan ganiatáu i staff gymryd rhan mewn datblygiad proffesiynol wrth eu pwysau. Mae'r sesiynau hyn wedi ategu ein strategaeth ddysgu ehangach ac maent wedi cefnogi twf parhaus ar draws PCGC.



# Cynllun Buddion Staff

O fewn Tîm Buddion Staff PCGC, rydym yn cynnig y cynlluniau canlynol i staff:



### Cynllun Prydlesu Cerbydau i Staff

Caiff y cynllun hwn ei redeg ar y cyd ag NHS Fleet Solutions a'i nod yw rhoi'r cyfle i bob aelod cymwys o staff PCGC gael cerbyd o'u dewis am bris cystadleuol iawn, ac ar yr un pryd arbed arian i'r sefydliad a ddefnyddir i gefnogi'r gwasanaethau a ddarperir i gleifion.



### Benthyciadau a Ad-delir trwy Gyflog

Mae'r cynllun yn cynnig benthyciadau ar gyfraddau fforddiadwy, fel dewis fforddiadwy arall yn lle cardiau credyd a gorddrafftiau, ac mae'n fwy tebygol na banciau o dderbyn pobl i'r cynllun. Gallai hefyd gael ei ddefnyddio i dalu am gost annisgwyl neu gymorth i gyflawni nodau ariannol tymor hir.



### Cynllun Cyfarpar Electronig yn y Cartref

Caiff ei redeg ar y cyd â Home Electronic Solutions a'i fwriad yw rhoi'r cyfle i bob aelod cymwys o staff PCGC brynu eitemau electronig o'u dewis ar gyfer y cartref am bris cystadleuol iawn o Currys/PCWorld, ac ar yr un pryd arbed arian i'r sefydliad a ddefnyddir i gefnogi'r gwasanaethau a ddarperir i gleifion. Nid oes angen rhoi blaendal ac nid yw'r costau'n newid trwy'r holl gyfnod ad-dalu.



### Cynllun beicio i'r gwaith

Cynnig cyfle gwych i staff

arbed arian ar feiciau ac offer beicio wrth hyrwyddo cymudo iachach a mwy cynaliadwy. Drwy'r fenter hon, gall gweithwyr ledaenu cost beic newydd dros daliadau misol, gan ei gwneud hi'n haws nag erioed i gofleidio teithio llesol, gan gefnogi ymhellach ymrwymiad GIG Cymru i lesiant staff a gweithleoedd mwy gwyrdd ac iach.

# Ein Cyflawniadau



# Staff Recognition

Cynhaliodd PCGC ei Gwobrau Cydnabod Staff ar 13 Chwefror 2025, gan roi cyfle i'r Uwch Grŵp Arwain gydnabod yn ffurfiol ymrwymiad, ymroddiad a phroffesiynoldeb anhygoel ein holl staff. Dyma oedd y nawfed digwyddiad blynyddol, a'r pedwerydd a gynhaliwyd yn rhithwir, gan ddathlu ymrwymiad a gwaith caled unigolion a thimau sydd wedi mynd y tu hwnt i'r disgwyl yn eu rolau, gan sicrhau bod gwasanaethau o ansawdd uchel yn cael eu darparu ar draws GIG Cymru. Cafodd staff eu cydnabod mewn amrywiaeth o gategorïau, gyda phob derbynnydd yn dangos ymroddiad a rhagoriaeth eithriadol yn eu meysydd priodol, gan gyfrannu'n sylweddol at lwyddiant ac effeithlonrwydd cyffredinol PCGC.

Ymhlith yr uchafbwyntiau allweddol yr oedd Gwobrau Gwerthoedd Craidd PCGC (Arloesi, Gweithio Gyda'n Gilydd, Gwrando a Dysgu a Chymryd Cyfrifoldeb), Hyrwyddwyr Diwylliant y Gymraeg, Arweinyddiaeth, Arwyr Cudd, Iechyd a Llesiant, Dangos Esiampl ar gyfer Amrywiaeth a Chynhwysiant, Tîm y Flwyddyn, Cyfraniad Amgylcheddol at Gynaliadwyedd, Gwobr Partneriaeth Undebau Llafur, Gwobrau Seren y Rheolwr Gyfarwyddwr, a Gwobrau Gwasanaeth Hir.

Roedd y digwyddiad yn ddathliad sefydliadol, yn llawn straeon ysbrydoledig a diolchgarwch diffuant. Fe ddarparodd gyfle i gydweithwyr ddod at ei gilydd, myfyrio ar eu cyflawniadau, ac edrych ymlaen at lwyddiannau yn y dyfodol.



Roedd yr awyrgylch yn un o gyfeillgarwch a balchder, wrth i bawb ddathlu cyflawniadau cyfunol teulu PCGC.

Cynhaliwyd y seremoni yn rhithwir drwy Microsoft Teams, gan ganiatáu i staff o wahanol leoliadau gymryd rhan a dathlu gyda'i gilydd, waeth beth fo'u lleoliad daearyddol. Yn ogystal, darlledwyd y digwyddiad ar draws amrywiol safleoedd PCGC, gan sicrhau bod cyfle gan bawb i ymuno yn y dathliadau. Sicrhaodd y fformat rhithwir hwn fod y digwyddiad yn hygyrch ac yn gynhwysol i staff, gan ddangos ymrwymiad PCGC i ddefnyddio technoleg i ddod â phobl ynghyd.



Wrth i PCGC barhau i ymdrechu am ragoriaeth, mae'r digwyddiad yn ein hatgoffa am y doniau a'r ymroddiad anhygoel o fewn y sefydliad. Nid yn unig y mae'r gwobrau hyn yn anrhydeddu cyflawniadau unigol a thîm, maent hefyd yn ysbrydoli eraill i anelu at ragoriaeth yn eu rôl. Roedd y seremoni yn llwyddiant ysgubol, gan arddangos y gorau o'r hyn sydd gan y sefydliad i'w gynnig a gosod safon uchel ar gyfer y dyfodol. I barhau â'r dathliadau, cynhaliom ddigwyddiadau rhanbarthol wyneb yn wyneb ledled Cymru, lle y gallai'r Uwch Grŵp Arwain ddiolch yn bersonol i'n henillwyr a chyflwyno eu gwobrau a'u tystysgrifau iddynt.



# Achievements

Gwerthusiad meddalwedd deallusrwydd artiffisial o Oed Esgyrn ar gyfer GIG Cymru

BS EN 14065 yng Ngwasanaethau Golchdy Cymru Gyfan

Darparu Llwybrau Optometreg

System Electronig ar gyfer Cofnodi Archwiliadau (ESRA)

Gwreiddio'r Ddyletswydd Ansawdd ym mywyd beunyddiol PCGC – rhannu'r lleisiau

Employee Investigations Event - Putting People at the Heart of our Processes

Hyfforddiant Swyddogion Cymorth Cyntaf Iechyd Meddw

Profi aer yn ficrobiolegol mewn theatrau llawdriniaeth a awyrir yn gonfensiynol

Cynllun Peirianneg Ôl-raddedig ar gyfer myfyrwyr Rhwydwaith 75

Rhaglen Moderneiddio Recriwtio

Ehangu Gofal zSylfaenol

# Highlights from 2024-25

## Rôl Cyfaill Menopos



Mae Cyfeillion Menopos yn wirfoddolwyr hyfforddedig sy'n cynnig cefnogaeth a gwybodaeth heb farnu i unrhyw un sydd angen cymorth yn gysylltiedig â'r menopos. Maent yn gwrando'n empathig, yn cyfeirio at adnoddau, ac yn awgrymu cysylltiadau perthnasol ar gyfer cymorth mwy manwl. I reolwyr, gall Cyfeillion eu tywys at bolisïau a chefnogaeth yn y gweithle ond nid ydynt yn cynnig cyngor clinigol - dylid cyfeirio pryderon meddygol at feddyg teulu. Mae rhestr o Gyfeillion ar gael ar y dudalen Iechyd a Llesiant ar y fewnrwyd a bydd posteri mewn rhai swyddfeydd yn arddangos eu manylion cyswllt. Gall unrhyw un gysylltu â Chyfaill, hyd yn oed y tu allan i'w tîm, gan ei gwneud yn system gymorth hygyrch iawn.

## Grŵp Iechyd Meddwl Dynion



Bu datblygiad sylweddol i'r Grŵp Iechyd Meddwl Dynion, sy'n rhoi cyfle i ddynion ddod at ei gilydd mewn amgylchedd diogel a chefnogol. Roedd PCGC wrth eu bodd yn clywed gan Andrew Jenkins o "The Traitors" ac Amser i Newid Cymru, a ddaeth i roi cyflwyniad ysbrydoledig ar iechyd meddwl i gyfarfod ein Grŵp Cymorth i Ddynion. Roedd ei daith ac mae ei daith yn enghraifft nodedig o wydnwch ac fe wnaeth wynebu llawer o heriau ond, trwy fyfyrio a hunanddarganfod dwfn, daeth drwyddi'n gryfach nag erioed. Roedd Andrew yn siaradwr ysbrydoledig sydd wedi troi ei stori yn ffagl o obaith i eraill.

## Codi Llais heb Ofn: Hyrwyddo Diwylliant o Thryloywder




Yn dilyn adborth o'r Arolwg Staff, cymerodd PCGC gamau rhagweithiol i sicrhau amgylchedd gwaith mwy diogel a thryloyw. Penodwyd arweinydd Codi Llais heb Ofn a chynhaliwyd holiadur dilynol. Er mwyn annog cyfathrebu agored ymhellach, cyflwynwyd ffurflen adrodd ddienw. Mae hyn yn sicrhau bod gweithwyr yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu cefnogi wrth leisio problemau, gan greu gweithle lle mae staff wedi'u grymuso i roi gwybod am bryderon, boed yn ymwneud â gofal cleifion, diogelwch, neu lesiant cyffredinol, heb ofni dial arnynt. Yn 2025/2026, bydd platfform adrodd dienw newydd o'r enw "Gweithio'n Hyderus" yn cael ei lansio i wella diogelwch cleifion, cryfhau diwylliant y gweithle, a gwella ansawdd gofal yn gyffredinol.

## Trais mewn Gofal Iechyd: Cryfhau Diogelwch Trwy Bartneriaeth ac Atal



I ymateb i bryderon cynyddol ynghylch diogelwch staff, mae GIG Cymru wedi ymuno â holl heddluoedd Cymru a Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) i sefyll yn gadarn yn erbyn trais ac ymddygiad ymosodol mewn lleoliadau gofal iechyd. Ar 30 Mai 2024, daeth cyfarfod nodedig â rhanddeiliaid allweddol ynghyd i gadarnhau eu hymrwymiad cyffredin i amddiffyn staff y GIG a gweithwyr brys. Mae'r dull cydweithredol hwn yn canolbwyntio ar wella protocolau ymateb, gwella cefnogaeth i staff yr effeithir arnynt, a sicrhau bod digwyddiadau'n cael eu cymryd o ddifrif a bod camau gweithredu cyflym yn cael eu cymryd yn eu cylch. Gan edrych tua'r dyfodol, bydd y bartneriaeth hon yn parhau i esblygu, gyda mentrau newydd yn anelu at feithrin diwylliant lle na ddangosir unrhyw oddefgarwch o drais, gan atgyfnerthu hyder staff, a sicrhau bod amgylcheddau gofal iechyd yn parhau i fod yn ddiogel, yn barchus ac yn gefnogol i bawb.

## Datblygu Pwyllgor



Cynhaliwyd Diwrnod Datblygu ym mis Hydref 2024 gydag Aelodau'r Pwyllgor, Uwch Arweinwyr ac unigolion allweddol o fewn PCGC, a chynigiodd gyfle gwerthfawr i fyfyrio, cydweithio a blaengynllunio. Gyda chyfraniadau gan bartneriaid GIG Cymru, archwiliodd y sesiwn ddatblygiadau allweddol, o arloesiadau fferylliaeth a rheoli risg i ymrwymiadau wedi'u hadnewyddu i wasanaeth cwsmeriaid a chynllunio strategol. Fe wnaeth y diwrnod feithrin deialog agored a dysgu ar y cyd, gan atgyfnerthu ffocws cyfunol ar welliant parhaus a gweithio mewn partneriaeth. Wrth i ni edrych ymlaen, bydd y cipolygon a gafwyd yn helpu i lunio dull mwy ymatebol, effeithlon a chydweithredol o ddarparu cydwasanaethau sy'n cefnogi anghenion esblygol GIG Cymru a'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu.

## Rhaglen Ddysgu ym maes Cynllunio



Daeth y digwyddiad, a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2024, â chydweithwyr GIG Cymru ynghyd ar gyfer diwrnod deinamig o ddysgu, trafod a chydweithio, gan gynnwys siaradwyr gwadd a gweithdai ymarferol ar bynciau yn amrywio o recriwtio rhyngwladol i arferion fferylliaeth cynaliadwy. Gan atgyfnerthu ymrwymiad PCGC i welliant parhaus, roedd adnoddau'r digwyddiad ar gael ar-lein yn eang.

# Ardystiadau a Sicrwydd Allanol

Mae PCGC yn parhau i ddangos ei hymrwymiad i ansawdd, atebolrwydd a gwelliant parhaus trwy raglen gadarn o ardystiadau allanol ac archwiliadau wedi'u gwirio'n annibynnol, ar draws ei gwasanaethau. Ar lefel gorfforaethol, cadwodd y sefydliad ei Achrediad Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cwsmeriaid (CSE) a chyflawnodd ardystiad i Safon Rheoli Amgylcheddol ISO 14001:2015, gan atgyfnerthu ei ffocws ar foddhad cwsmeriaid a chyfrifoldeb amgylcheddol.

Cynhaliwyd ystod eang o archwiliadau allanol yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys asesiadau ar gyfer Diogelwch Bwyd STS, Trwyddedu Cludo Nwyddau Peryglus a chydymffurfedd â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS). Hefyd, cafodd sawl gwasanaeth oruchwyliaeth reoleiddiol gan yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA), gan gwmpasu Arfer Dosbarthu Da (GDP) ac Arfer Gweithgynhyrchu Da (GMP).

Ar draws y sefydliad, parhaodd is-adrannau i ddal ardystiadau ISO 27001 (Rheoli Diogelwch Gwybodaeth), ISO 9001 (Rheoli

Ansawdd), ISO 11014 (Taflenni Data Deunyddiau a Diogelwch), ac ISO 45001 (Rheoli Iechyd a Diogelwch).

Yn nodedig, cwblhaodd y Labordy Profi Dyfeisiau Llawfeddygol (SMTL) ei arolygiad pedair blynedd yn llwyddiannus i ISO/IEC 17025, sef safon a gydnabyddir yn fyd-eang ar gyfer labordai profi a graddnodi, heb unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio.

Mae achrediadau ychwanegol yn cynnwys Lexcel ar gyfer Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg, sy'n cael asesiadau blynyddol a thair blynedd trylwyr, ac ardystiad ISO/IEC 20000-1 a BACS ar gyfer Gwasanaethau E-Fusnes Canolog, a gyflawnodd foddhad cwsmeriaid o 100% hefyd. Mae PCGC hefyd yn dal Achrediad Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl fel Sefydliad Hyfforddi, gan gefnogi llesiant staff ymhellach.

Yn ystod y flwyddyn, dyfarnwyd statws Cyflogwr Cymeradwy ACCA – Datblygiad Proffesiynol i'n tîm Cyllid hefyd

, gan gydnabod ein hymrwymiad i gefnogi datblygiad proffesiynol parhaus aelodau ACCA. Mae'r achrediad mawreddog hwn gan y corff cyfrifyddu byd-eang yn amlygu ymroddiad PCGC i feithrin twf proffesiynol.

Nid yn unig y mae'r ardystiadau hyn yn dyst i'r safonau uchel a gynhelir ar draws PCGC, maent hefyd yn cyd-fynd yn agos ag egwyddorion Dyletswydd Ansawdd y sefydliad. Cânt eu

defnyddio'n weithredol i lywio sicrwydd mewnol, gwelliant parhaus, a dysgu traws-sefydliadol – gyda chefnogaeth offer fel SharePoint ac adborth gan aseswyr allanol. Gyda'i gilydd, maent yn rhoi sicrwydd i'n partneriaid, ein cwsmeriaid a'r cyhoedd bod PCGC yn gweithredu gydag uniondeb, diogelwch a rhagoriaeth wrth ei wraidd.

# Gwobrau a Chydnabyddiaeth

Mae gwobrau staff ac is-adrannau, yn fewnol ac yn allanol, yn parhau i amlygu ansawdd gwasanaethau ar draws PCGC. Fe wnaeth hyn gynnwys y Gwobrau Cydnabod Staff Blynyddol ym mis Ionawr 2025 a chyfres o sioeau teithiol rhanbarthol wyneb yn wyneb.

Yng Ngwobrau GO Cymru 2024, cydnabuwyd PCGC am ragoriaeth mewn caffael cyhoeddus, gan dderbyn anrhydeddau Cymeradwyaeth Uchel mewn tri chategori; Gwobr Menter Caffael Cydweithredol (Rhagnodi Electronig a Gweinyddu Meddyginiaethau), Gwobr Tîm Caffael y Flwyddyn, a'r Wobr Cyflawni Caffael Gorau (Meddyginiaethau Aseptig Cyfansawdd). Hefyd, cyrhaeddodd PCGC y rhestr fer ar gyfer Gwobr Gwerth Cymdeithasol, Gwobr y Fenter Sero Net Orau, a Gwobr Unigolyn y Flwyddyn.

Ym mis Tachwedd 2024, yng Ngwobrau Gweledigaeth y Dyfodol Fforwm Cydwasanaethau'r DU yn Aintree, cyrhaeddodd PCGC y rownd derfynol mewn pedwar categori; Gwobr y Gymuned (Tîm Banc Adnoddau PCGC), Gwobr Cydweithio â Chwsmeriaid, a Gwobr Effaith Llesiant (Recriwtio Rhyngwladol). Enillodd Millie Tottle, Cynorthwyydd Pobl a Datblygu Sefydliadol, Wobr Seren y Dyfodol, gan gydnabod ei chyfraniad sylweddol o fewn pum mlynedd mewn cydwasanaethau.

Ym mis Mawrth 2025, cyrhaeddodd Pobl a Datblygu Sefydliadol PCGC y rhestr fer ar gyfer Gwobr AD yng Nghymru yn y categori Creadigrwydd ac Arloesi, am waith ar leihau defnyddio asiantaethau, gwelliannau o ran staffio banc, a phroses yr Achos Busnes Recriwtio Hyblyg.

Dyfarnwyd gwobr Seren y Dyfodol y Proffesiwn i James Green, Uwch Reolwr Dadansoddeg Pobl a Chynllunio.

Mae'r cyflawniadau hyn yn adlewyrchu ymrwymiad parhaus PCGC i ragoriaeth, arloesedd a gwelliant parhaus ar draws GIG Cymru.



# Datblygu Cynaliadwy



# Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nodi nodau uchelgeisiol, hirdymor sy'n adlewyrchu'r Gymru yr ydym am ei gweld, nawr ac yn y dyfodol. Rydym yn cydnabod yn llawn bwysigrwydd y weledigaeth hon, yn enwedig yng nghyd-destun ein rôl o fewn GIG Cymru a'r dylanwad ehangach sydd gennym drwy'r cydwasanaethau a ddarparwn. Mae egwyddorion y Ddeddf yn parhau i fod yn sylfaen i'n polisïau, ein strategaethau a'n cynlluniau, gan wasanaethu fel fframwaith arweiniol ar gyfer ein gwaith.

Yn unol â hyn, rydym wedi integreiddio ein nodau llesiant â'n blaenoriaethau strategol i sicrhau eu bod wedi'u gwreiddio ar draws pob agwedd ar ein darpariaeth gwasanaethau. Mae'r aliniad hwn yn atgyfnerthu ein hymrwymiad i weithlu cefnogol a gwydn, gan wella ymgysylltiad a boddhad staff wrth gyfrannu at ansawdd a chynaliadwyedd y gwasanaethau a ddarparwn.

Rydym wedi gwreiddio'r pum ffordd o weithio sy'n sicrhau ein bod yn diogelu anghenion cenedlaethau'r dyfodol heb beryglu anghenion y presennol. Mae'n sicrhau bod ein trefniadau llywodraethu cadarn yn gwella lles diwylliannol, cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol Cymru drwy'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy. Yn cyd-fynd â'r dull gweithredu hwn y mae'r angen i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a hyrwyddo'r Economi Sylfaenol.

Mae datgarboneiddio yn sail i'n strategaeth ar gyfer darparu gwasanaethau ac mae datblygu Economi Sylfaenol yng Nghymru nid yn unig yn helpu i leihau'r ôl troed carbon, mae hefyd yn darparu mwy o wydnwch ac yn hyrwyddo busnesau a swyddi lleol.



# Egwyddor Datblygu Cynaliadwy

***Rydym wedi ymrwymo'n llawn i ddatblygu a gweithredu dull Unwaith i Gymru, lle bo'n briodol. Mae'n hanfodol ein bod yn ymgorffori Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac wrth dynnu sylw at ymarfer gorau adrodd integredig, rydym wedi mapio ein huchafbwyntiau a'n cyflawniadau yn erbyn 'y Pum Ffordd o Weithio'. Mae'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol i ni feddwl am y tymor hir, integreiddio gyda'r sector cyhoeddus ehangach, cynnwys ein partneriaid a gweithio ar y cyd, er mwyn osgoi problemau a defnyddio dull mwy cydgysylltiedig o ddarparu gwasanaethau.***

| Hirdymor | Integreiddio | Cynnwys | Cydweithio | Atal |
|---|---|---|---|---|

## Hirdymor

- Gweithredu cydfuddiannau ailgylchu a gwastraff newydd ar draws pob safle i sicrhau cydymffurfedd â Rheoliadau Gwastraff Cymru newydd a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2024.
- Cynnal ail-ardystiad ISO14001:2015 ar gyfer yr amgylchedd.
- Ehangu'n gwaith yn cefnogi'r Economi Sylfaenol yng Nghymru, gan weithio gyda chyflenwyr o Gymru.
- Mwy o bwyslais ar bersbectif cylch bywyd gwastraff sy'n gysylltiedig â'n gweithgareddau mewn is-adrannau a mwy o ystyriaeth o hyn.
- Mae'r gwaith parhaus o weithredu'r prosiect paneli solar ffotofoltäig yn IP5 a Thŷ Matrix bellach wedi dechrau, ynghyd â sefydlu'r system reoli gysylltiedig ar gyfer y data ynni sy'n deillio o'r safle.
- Lleihau terfynau allyriadau ar draws y Cynllun Aberthu Cyflog ar gyfer cerbydau i hyrwyddo cerbydau trydan a cherbydau hybrid.
- Hyrwyddo'r cynllun Beicio i'r Gwaith ar gyfer staff drwy'r Tîm Buddion Staff.

## Integreiddio

- Mae datgarboneiddio wedi'i wreiddio ym mhroses gynllunio'r Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) ac mewn Nodau Strategol, ac mae targedau allweddol i'w cyflawni yn uno â'n Nodau Llesiant; integreiddio a gwreiddio'r agenda; mwy o ffocws ar adrodd integredig.
- Mae gwaith monitro ein hôl troed carbon yn broses sydd wedi'i hintegreiddio'n dda a thrwy barhau i fabwysiadu gweithio ystwyth, rydym am greu meincnod newydd a gwella'r broses o gasglu data a chywirdeb data ar draws pob safle.
- Cryfhau cysylltiadau ac alinio ein hagenda Datblygu Cynaliadwy ac ISO14001, gan gynnwys y Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio, gan weithio mewn partneriaeth â phartïon â diddordeb a rhanddeiliaid allweddol i gyflawni'r nodau.
- Cynnal Seremoni Wobrwyo Cydnabod Staff a chynnwys Cynaliadwyedd Amgylcheddol ac Iechyd a Llesiant.
- Cwblhau Asesiadau Integredig o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer pob prosiect, i gynnwys cynaliadwyedd amgylcheddol a chyflogaeth foesegol.

## Cynnwys

- Cyflwyno pecyn e-ddysgu Lefel 1 Cyflawni Net Sero GIG Cymru drwy ESR a chyrsiau Lefel 2.
- Paratoi gohebiaeth ar gyfer yr agenda datgarboneiddio i staff, gan gynnwys fideo hyrwyddo a sesiynau ymwybyddiaeth ar ffurf boreau coffi.
- Grŵp Partneriaeth Iechyd a Llesiant Staff llwyddiannus dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, a chyhoeddi cyfathrebiadau yn rheolaidd.
- Llofnododd y Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol a Gwasanaethau Cyflogaeth, yn gweithredu yn rhinwedd ein Hyrwyddwr Gwrth-Gaethwasiaeth a Chyflogaeth Foesegol yn y Gadwyn Gyflenwi, ein Datganiad Cyflogaeth Foesegol.
- Mae cyfleoedd i staff gymryd rhan yn yr agenda a gwneud gwahaniaeth trwy ddod yn Hyrwyddwr Amgylcheddol neu'n Hyrwyddwr Iechyd a Llesiant gwirfoddol. Cynhaliwyd amrywiaeth o Rwydweithiau Staff a mentrau fel Caffis y Menopos.

## Collaboration

- Rhaglen Datgarboneiddio GIG Cymru a'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig, yn ei chyfanrwydd, gan gynnwys cyfarfodydd Bwrdd y Rhaglen.
- Gweithio mewn partneriaeth â
- chydweithwyr, cwsmeriaid a phartneriaid yn GIG Cymru i gymryd rhan mewn mentrau fel Diwrnod Cynaliadwyedd y GIG, Cadwch Gymru'n Daclus, WRAP Cymru ac ati.
- Ailwampio gwefan cynaliadwyedd i fod yn un canolbwynt gwybodaeth sy'n gyfredol ac yn berthnasol i ddefnyddwyr; yn cael ei gynnal trwy ymgysylltu â phartïon â diddordeb a rhanddeiliaid allweddol.
- Gweithio gyda darparwyr iechyd meddwl a llesiant i gyflwyno sesiynau i'n gweithlu, er mwyn cyflawni Cymru Iachach a Chydnerth (e.e. iechyd a chysylltiadau â bwyta'n fwy cynaliadwy).

## Prevention

- Uwchraddio goleuadau ar draws safleoedd PCGC, i oleuadau LED mewn ymdrech i baratoi ar gyfer y dyfodol. Cynnal Asesiadau Risg Cynaliadwyedd ar gyfer pob gweithgaredd caffael dros £25,000 a chynhelir archwiliadau o'r broses hon.
- Parhau i weithredu'r Pecyn Cymorth Gweithio Ystwyth a'r dull cysylltiedig, gan ganiatáu i staff weithio'n hyblyg yn unol â gofynion sefydliadol. Lleihau'r defnydd o adnoddau prin a chyfyngedig, fel papur ac ynni, a lleihau cymudo a theithio gan staff at ddibenion busnes.
- Cadarnhawyd y bydd ffynonellau ynni ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod, 2025-26, yn parhau gyda'r darparwr presennol, Zero Carbon for Business, gyda'r cynllun tymor canolig i hir i weithio tuag at ffynonellau sero.
- Gosod rhagor o Bwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan ar draws safleoedd a chynlluniau i weithredu rhagor o Bwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan i gefnogi datblygiad y fflyd.
- Sefydlu System Rheoli Cydymffurfedd RAMIS (System Gwybodaeth Reoli Hapfynediad) ar safle IP5 yng Nghasnewydd, gyda chynlluniau cyflwyno pellach ar gyfer safleoedd, lle bo'n bosibl.



# Perfformiad Cynaliadwyedd

***Mae PCGC wedi ymrwymo i reoli ei heffaith amgylcheddol, lleihau ei hôl troed carbon ac integreiddio egwyddor datblygu cynaliadwy yn ei busnes o ddydd i ddydd. Llwyddodd PCGC i weithredu ISO14001 fel ei System Rheoli Amgylcheddol (EMS), yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru, ac mae wedi llwyddo i gynnal ei hardystiad ers mis Awst 2014, trwy weithredu'r model gwelliant parhaus, Cynllunio, Gwneud, Gwirio, Gweithredu.***

Cynhelir archwiliadau gwyliadwriaeth blynyddol i asesu cydymffurfedd parhaus â'r Safon. Mae Safon 2015: ISO14001 yn rhoi mwy o bwyslais ar ddiogelu'r amgylchedd, gwelliant parhaus trwy ddull sy'n seiliedig ar broses risg ac ymrwymiad i arweinyddiaeth o'r brig i lawr, wrth reoli anghenion a disgwyliadau partïon sydd â diddordeb a dangos perfformiad amgylcheddol cadarn, trwy reoli effaith gweithgareddau, cynhyrchion neu wasanaethau ar yr amgylchedd.

Gwnaethom lwyddo i gael ein hail-ardystio yn unol â'r Safon drwy Simply Certification Ltd, sy'n un o gyrff ardystio achrededig UKAS, a chwblhau archwiliad gwyliadwriaeth blwyddyn un ym mis Mawrth 2025. Wrth edrych tua'r dyfodol, yn unol â Chynllun Gweithredu Datgarboneiddio PCGC, byddwn yn edrych i ehangu cwmpas ein hardystiad i gynnwys safleoedd Gwasanaethau'r Golchdy.

Yn ystod 2024/25, rydym wedi cyflawni gostyngiad cyffredinol o 4.3% yn ein hôl troed carbon ar draws ein safleoedd, yn erbyn targed o ostyngiad o 3%, flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Er mwyn cyflawni'r gostyngiad hwn, mae amrywiaeth o fentrau wedi'u targedu wedi cael eu cynllunio a'u hymgorffori ar draws ein safleoedd a'n gwasanaethau. Mae buddsoddiadau mewn technolegau sy'n fwy cyfeillgar i'r amgylchedd, fel goleuadau LED, gosod paneli solar a seilwaith gwefru cerbydau trydan, wedi cyfrannu'n sylweddol at y gostyngiad yn allyriadau carbon y sefydliad.

Mae'r Hyrwyddwyr Amgylcheddol a'r Tîm Gwyrdd yn parhau i nodi ffyrdd o leihau ein heffaith a lle gellir gwneud arbedion, yn ogystal â defnyddio technoleg i wella dulliau casglu data ac adrodd arno.

Mae'r cynnydd mewn mabwysiadu trefniadau gweithio ystwyth wedi arwain at leihad yn nifer y staff ar safleoedd, ac mae hyn, ynghyd â mwy o addysg ac ymwybyddiaeth o nodau a thargedau ôl troed carbon PCGC a'r gwahaniaeth y gall staff ei wneud, ni waeth pa mor fach, wedi gwneud cyfraniad i'w groesawu at y gostyngiad. Rydym hefyd wedi annog staff i ymgymryd â modiwlau e-ddysgu fel Cyflawni Net Sero yn GIG Cymru, gan hyrwyddo ymwybyddiaeth amgylcheddol.



- Mae'r defnydd o drydan wedi gostwng 16.6% yn gyffredinol, oherwydd mesurau effeithlonrwydd wedi'u targedu megis gosod paneli solar, gosod goleuadau LED a thechnoleg synwyryddion symudiad ar draws nifer o safleoedd. Mae'r prosiectau hyn, gan gynnwys newidiadau mewn ymddygiad a'r dull gweithio ystwyth parhaus, yn dangos dull rhagweithiol a chydlynol o leihau'r defnydd o drydan.



- O ran cyfanswm y trydan a ddefnyddir, mae 2.4% yn ymwneud yn unig â defnyddio Unedau Gwefru Cerbydau Trydan (EVCUs) ar draws ein hystâd. Cynyddodd y defnydd o Unedau Gwefru Cerbydau Trydan (EVCUs) 6% yn gyffredinol ar ein safleoedd. Mae'r ffaith bod pwyntiau gwefru ar gael 24/7 a'r rhwyddineb mynediad iddynt yn annog staff GIG Cymru i'w defnyddio, hyd yn oed gyda fflyd y Gwasanaeth Negesydd Iechyd yn cael blaenoriaeth fel "olwynion y GIG yng Nghymru". O ran cynnydd yn y galw am yr EVCUs, rydym yn gweld hyn fel mesur cadarnhaol i'r gymuned ehangach o ran ansawdd aer yr amgylchedd a lleihau'r ôl troed carbon ar gyfer teithiau cymudo staff PCGC. Mae hyn yn cyfrannu at Gymru Iachach a Chyfrifol ar lefel Fyd-eang gan fod gwefru cerbydau trydan yn cynhyrchu llai o Co2e na llosgi tanwydd o beiriannau petrol a diesel.




- Gostyngodd y defnydd o nwy yn gyffredinol 8.0% yn ystod y cyfnod, a gyflawnwyd ar draws sawl safle trwy gyfuniad o newidiadau gweithredol, problemau gyda'r seilwaith a ffactorau tymhorol. Priodolwyd gostyngiad sylweddol i gamweithrediad yn system wresogi nwy'r warws yn Storfeydd Dinbych, nad oedd yn gweithio am sawl mis. Mae cynlluniau gweithredol ar waith ar gyfer IP5 i ddisodli gwresogyddion sy'n heneiddio â systemau mwy effeithlon.



- Defnyddiwyd olew cerosin gennym i gynhesu safle Ystâd Ddiwydiannol Westpoint yn ystod y cyfnod, a chynyddodd y defnydd 32.44% (amrywiad o 2,479kg o CO2e) yn ystod y flwyddyn. Dyma'r unig safle sy'n defnyddio olew i gynhesu'r adeilad, a gellir priodoli'r cynnydd i aeaf oerach ac oriau gweithredu estynedig yn ystod y misoedd brig. Arweiniodd y ffactorau hyn at alw uwch am wresogi i gynnal lefelau cysur dan do, yn enwedig yn gynnar yn y bore a gyda'r nos pan oedd y tymheredd ar ei isaf.

- Gostyngodd y defnydd o ddŵr 33.7%, oherwydd gwaith cynnal a chadw rhagweithiol ac ymgysylltiad staff. Yn ystod y cyfnod, nodwyd gollyngiadau cynnar ac ymgymerwyd ag atgyweiriadau cysylltiedig yn Nhŷ Alder. Dechreuodd y Labordy Profi Dyfeisiau Llawfeddygol olchi cotiau labordy mewn grwpiau er mwyn lleihau'r defnydd o ddŵr, ynghyd â gosod falf synhwyrydd pwysau. Mae'r amrywiad blynyddol naturiol yn gyfrifol am newid canrannol bach ac mae parhau i weithio'n ystwyth wedi arwain at nifer llai o staff ar gyfartaledd ar safleoedd.

- Mae cyfanswm y gwastraff a gynhyrchwyd ar draws ein holl safleoedd wedi cynyddu 8.4% (amrywiad o 2,496kg o CO2e). Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom barhau i adeiladu ar y gwaith a wnaed i ddiwygio'r gwaith o wahanu ffrydiau gwastraff a newidiadau ymddygiad cysylltiedig. Fodd bynnag, oherwydd nifer o brosiectau adnewyddu, fel Charnwood Court a Thŷ'r Cwmnïau, a mentrau a gynhaliwyd ar draws ein safleoedd, ynghyd â symud o Dŷ Aberhonddu a Chwmbrân i DuPont, mae'r gwastraff cyffredinol a gynhyrchir wedi cynyddu, wrth reswm.

- Cynyddodd gwastraff cyfrinachol yn gyffredinol 27.2% (amrywiad o 3,399 kg o Co2e). Gellir priodoli'r cynnydd i'r prosiectau adnewyddu a gynhaliwyd ar draws safleoedd, ynghyd ag adleoliad DuPont. Yn ogystal, gwnaeth gwasanaethau sydd fel arfer yn cynhyrchu cyfeintiau sylweddol, fel Cyfrifon Taladwy a Gwasanaethau Gofal Sylfaenol, gwblhau prosiectau sganio ac adolygu ardaloedd storio. Hefyd, gweithredodd y Labordy Profi Dyfeisiau Llawfeddygol system TG ddi-bapur yn ystod y cyfnod, a chyflwynodd broses ar gyfer argraffu dogfennau. Mae'r holl wastraff cyfrinachol yn cael ei gadw mewn biniau diogel ar y safle ac yn cael ei gludo ymaith gan ddarparwyr gwasanaeth achrededig i'w addasu i greu eitemau fel llyfrau nodiadau, papur toiled, hancesi papur, ac ati. Mae pob ffrwd wastraff arall yn cael ei gwaredu'n briodol ac yn gyfrifol ac yn unol â'r Rheoliadau perthnasol. Wrth symud ymlaen, byddwn yn parhau i ddatblygu prosesau digidol i leihau'r defnydd o bapur, arbed adnoddau a chryfhau diogelwch data, gan adlewyrchu ein hymrwymiad ehangach i leihau'r defnydd o adnoddau prin (h.y. papur).

- Gwelsom gynnydd o 32.1% (400kg o Co2e) yn y defnydd o gerbydau cronfa. Mae hyn yn gadarnhaol oherwydd ei fod yn lliniaru'r defnydd o gerbydau staff i gymudo ac yn annog rhannu ceir, lle bo'n bosibl. Mae parhau i fabwysiadu gweithio ystwyth hefyd wedi cyfrannu at y gostyngiad hwn. Yn ogystal, mae ceir cronfa a ddefnyddir o fewn y sefydliad yn ecogyfeillgar, fel cerbydau trydan neu hybrid, sy'n lliniaru ein heffaith amgylcheddol ymhellach.

- Yn yr un modd, cynyddodd y defnydd o gludiant dosbarthu 57.5%, a gellir priodoli hyn i newidiadau gweithredol, yn enwedig yn ystod adleoli safleoedd. Yng Nhŷ Aberhonddu, defnyddiwyd cludiant dosbarthu yn helaeth i gefnogi'r gwaith symud i DuPont, gan gynnwys trosglwyddo offer a deunyddiau rhwng safleoedd. Roedd hyn yn cynnwys symud eitemau i leoliadau eraill fel rhan o'r broses ddatgomisiynu. Yn ogystal â hyn, yn y safleoedd Storfeydd lle gwelsom gynnydd, mae hyn oherwydd gofynion gweithredol ac ehangu gwasanaethau. Wrth symud ymlaen, byddwn yn parhau i ddatblygu'r rhaglen moderneiddio'r fflyd i liniaru allyriadau ymhellach, gwella effeithlonrwydd tanwydd a chefnogi'r newid i gerbydau trydan ac allyriadau isel ar draws ein gweithrediadau.

- Cynyddodd milltiroedd busnes a deithiwyd 6.28% yn ystod y cyfnod. Er gwaethaf y cynnydd hwn, mae'r ffigur hwn yn parhau'n isel o gymharu â ffigurau a adroddwyd cyn mis Mawrth 2020, o ystyried trefniadau gweithio ystwyth parhaus a'r defnydd cynyddol o dechnoleg i gynnal cyfarfodydd ar-lein, gyda 861,043 milltir wedi'u teithio.

# Ethical Employment in Supply Chain and Modern Slavery

Sefydlwyd y Cod Ymarfer gan Lywodraeth Cymru er mwyn cefnogi datblygu cadwyni cyflenwi mwy moesegol i gyflenwi contractau i sefydliadau sector cyhoeddus Cymru

sy'n derbyn arian cyhoeddus. Nod y Cod Ymarfer yw sicrhau bod gweithwyr yng nghadwyni cyflenwi'r sector cyhoeddus wedi eu cyflogi yn foesegol ac mewn modd sy'n cydymffurfio â llythyren ac ysbryd deddfau'r DU, a deddfau rhyngwladol.

Mae'n ymdrin â materion cyflogaeth fel caethwasiaeth fodern, sathru ar hawliau dynol, cosbrestru, hunangyflogaeth ffug, defnydd annheg o gynlluniau ymbarél, contractau dim oriau a thalu'r cyflog byw. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod gweithgarwch caffael a gyflawnir ar ran GIG Cymru yn cael ei wneud mewn modd moesegol.

Byddwn yn sicrhau bod gweithwyr yn y cadwyni cyflenwi yr ydym yn prynu ein gwasanaethau a'n nwyddau trwyddynt yn cael eu trin yn deg. Ymrwymwyd i'r Cod a datblygwyd cynllun gweithredu i fonitro ein cynnydd. Penodwyd ein Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol a Gwasanaethau Cyflogaeth yn Hyrwyddwr Cyflogaeth Foesegol.

Mae Tryloywder mewn Cadwyni Cyflenwi yn gronfa ddata ganolog sy'n rhoi mynediad i Ddatganiadau Caethwasiaeth Fodern a bostiwyd gan gyflenwyr. Defnyddir y Datganiadau hyn yn ystod prosesau tendro, fel rhan o Ymrwymiadau'r Cod Ymarfer

Cyflogaeth Foesegol. Mae'r wefan yn galluogi PCGC i ddatgan ein gwrthwynebiad i gaethwasiaeth a'n polisïau cysylltiedig yn gyhoeddus.

Mae'r wefan wedi ei noddi gan Lywodraeth Cymru ac mae'n helpu i ddileu caethwasiaeth fodern mewn cadwyni cyflenwi.

To date, NWSSP has:

- Embedded the Ethical Employment Code of Practice into standard operating procedures
- Provided training to those involved in buying / procurement on modern slavery, ethical employment practices.
- Aligned the Code of Practice within our broader Sustainable Procurement Code of Practice.
- Became a signatory to the Transparency in Supply Chains (TISC) register and published the NWSSP Ethical Employment Statement.
- Encouraged suppliers to sign up to the commitments of the Ethical Employment in Supply Chains Code of Practice and also to the TISC register to publicise their commitment and their Modern Slavery / Ethical Employment statements.
- Engaged with wider NHS Scotland, NHS Northern Ireland, and NHS England colleagues to Mae



Llywodraeth Cymru wrthi'n adolygu ei Chod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi, a disgwylir fersiwn wedi'i diweddaru yn Hydref 2025. I gefnogi'r gwaith hwn, mae PCGC yn parhau i chwarae rhan weithredol yn y grŵp rhanddeiliaid cenedlaethol, gan gyfrannu at ddatblygu safonau moesegol gwell.

Wrth baratoi ar gyfer y Cod diwygiedig, rydym yn edrych eto ar ein hymrwymiadau ar gyfer 2025–26. Gallai hyn gynnwys gwahanu ymrwymiadau cyflogaeth fewnol a chyflogaeth yn y gadwyn gyflenwi, ystyried Cyflog Byw y Sefydliad Cyflog Byw ac integreiddio'r ymrwymiadau hyn mewn polisi ehangach.

Yn ogystal, wrth edrych tua'r dyfodol, bydd PCGC yn mabwysiadu'r gyfres o fetrigau caffael i fonitro cynnydd ac effaith, yn unol â Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023. Mae'r camau gweithredu hyn yn pwysleisio ein hymrwymiad parhaus i arferion caffael moesegol, tryloyw, cymdeithasol gyfrifol a chynaliadwy.



# Partneriaeth Gymdeithasol

Mae PCGC yn parhau i gynnal egwyddorion Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023, gan gydweithio â staff, undebau llafur a rhanddeiliaid i hyrwyddo gwaith teg, gwella llesiant a chefnogi darparu gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel. Fel galluogwr allweddol GIG Cymru, mae PCGC yn darparu ystod eang o wasanaethau anghlinigol ac yn rhoi pwyslais cryf ar ymgysylltu cynhwysol â'r gweithlu.

Drwy gydol y cyfnod adrodd, cynhaliodd PCGC ddeialog reolaidd ac ystyrlon â staff a chynrychiolwyr undebau llafur drwy fforymau partneriaeth sefydledig a strwythurau is-adrannol. Roedd y mecanweithiau hyn yn galluogi staff i gyfrannu'n weithredol at ddatblygu gwasanaethau a gwella ansawdd, yn enwedig drwy fframwaith y Ddyletswydd Ansawdd, a oedd yn cynnwys hunanasesiadau is-adrannol ac adrodd parhaus.

Mae PCGC yn gwerthfawrogi rôl undebau llafur wrth lunio amgylchedd gwaith cadarnhaol. Drwy weithio mewn partneriaeth ag undebau fel GMB, UNISON, Unite, Cymdeithas Feddygol Prydain (BMA), a MiP, mae'r sefydliad yn elwa o well dealltwriaeth gydfuddiannol, gweithredu polisïau yn fwy effeithiol, a safonau uchel o ran arferion cyflogaeth. Anogir staff i ymaelodi ag undeb, gan gydnabod pwysigrwydd ymgysylltu tryloyw a symlach rhwng cyflogwyr, undebau a gweithwyr.

Wrth flaenoriaethu llesiant a chynhwysiant staff, darparodd PCGC hyfforddiant a oedd yn cyd-fynd â Safonau'r Gymraeg ac arferion cynhwysol. Cefnogodd mentrau fel y rhaglen Codi Llais Heb Ofn, a gwerthusiadau o brofiad staff, ddiwylliant o fod yn agored a gwelliant parhaus. Dathlwyd cyfraniadau staff drwy'r Gwobrau Cydnabod Staff Blynyddol, sioeau teithiol rhanbarthol, a'r Gynhadledd Iechyd a Llesiant.

Yn unol ag egwyddorion gwaith teg, parhaodd PCGC i gynnig cyflogaeth ddiogel, cyflog teg a chyfleoedd datblygu. Cyd-gynhyrchwyd cynlluniau'r gweithlu gyda mewnbwn o bob is-adran, a chynhaliwyd prosiectau arloesi peilot dan arweiniad staff

i wella darpariaeth gwasanaethau. Roedd cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn parhau i fod yn flaenoriaeth, gyda pholisïau recriwtio cynhwysol, gweithgorau a hyfforddiant ar ragfarn ddiarwybod a chymhwysedd diwylliannol.

Hefyd, cadwodd PCGC ei Hachrediad Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cwsmeriaid, a ddyfynnwyd yn adroddiad y Ddyletswydd Ansawdd

fel tystiolaeth o ymrwymiad y sefydliad i ansawdd a chanolbwyntio ar gwsmeriaid. Llywiodd adborth gan aseswyr allanol welliannau mewnol a helpodd i rannu arfer gorau ar draws is-adrannau.

Wrth gaffael, fe wnaeth PCGC wreiddio gwerth cymdeithasol a safonau cyflogaeth moesegol, gan gefnogi cyflenwyr lleol a chyfrannu at yr economi sylfaenol. Drwy gydweithio, tryloywder a gwneud penderfyniadau ar y cyd, mae PCGC yn parhau i hyrwyddo agenda partneriaeth gymdeithasol a chefnogi nodau ehangach GIG Cymru.



# Ein Pobl



# Ein Pobl - Cipolwg

6054
Staff

| | | | |
|---|---|---|---|
| 67.69% | 23.34% | 6.97% | 2.00% |
| Gwyn | Mwyafrif Bydeang | Heb ei ddatgelu | Heb ei nodi |

45.51%
Gwryw

54.49%
Benyw

| | | | |
|---|---|---|---|
| 38.02% | 30.62% | 27.02% | 4.34% |
| Anhysbys | Yn briod | Yn sengl | Arall |

| | | |
|---|---|---|
| 22.70% | 21.67% | 55.63% |
| 31-35 | 26-30 | Arall |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 28.54% | 23.70% | 21.36% | 26.40% |
| Cristnogol | Amhenodol | Anffyddiwr | Arall |

# Ein Pobl

## Staff mewn Swydd yn ôl Is-adrannau

| Is-adrannau | Nifer y bobl | CALI |
|---|---|---|
| 043 Is-adran Cyfrifon Taladwy | 152 | 146.77 |
| 043 Is-adran Archwilio a Sicrwydd | 54 | 51.33 |
| 043 Is-adran Gorfforaethol | 28 | 24.31 |
| 043 Is-adran Atal Twyll | 7 | 7.00 |
| 043 Is-adran y Gweithlu Digidol | 26 | 25.67 |
| 043 Is-adran Tîm Canolog e-Fusnes | 18 | 17.53 |
| 043 Is-adran Cyflogaeth | 343 | 301.66 |
| 043 Is-adran Cyllid | 28 | 27.03 |
| 043 Is-adran Gwasanaethau a Letyir | 9 | 7.91 |
| 043 Is-adran y Golchdy | 188 | 163.76 |
| 043 Is-adran Cyfreithiol a Risg | 191 | 176.89 |
| 043 Is-adran Archwilio Meddygol | 97 | 64.69 |
| 043 Y Gweithlu Meddygol | 19 | 18.80 |
| 043 Is-adran Pobl a Datblygu Sefydliadol | 48 | 44.33 |
| 043 Is-adran Gwasanaethau Technegol Fferyllol | 31 | 30.60 |
| 043 Is-adran Cynllunio, Perfformiad a Gwybodeg | 45 | 44.52 |
| 043 Is-adran Gofal Sylfaenol | 306 | 283.27 |
| 043 Is-adran Caffael | 824 | 760.89 |
| 043 Is-adran Un Cyflogwr Arweiniol | 3554 | 3332.95 |
| 043 Is-adran Ystadau Arbenigol | 54 | 53.36 |
| 043 Is-adran Profi Dyfeisiau Llawfeddygol (SMTL) | 26 | 23.92 |
| 043 Is-adran Uned Cyflogwyr Cymru | 6 | 5.33 |
| **Cyfanswm Terfynol** | **6054** | **5612.53** |

## Crynodeb o Gategorïau Aseinio PCGC

| Categori Penodi | Nifer y bobl | % | CALI |
|---|---|---|---|
| Tymor Penodol dros dro | 3594 | 59.37% | 3359.16 |
| Parhaol | 2460 | 40.63% | 2253.38 |
| **Cyfanswm Terfynol** | **6054** | **100.00%** | **5612.53** |

## NWSSP Age Profile Summary

| Band Oedran | % |
|---|---|
| <=20 blwydd oed | 0.23% |
| 21-25 | 11.83% |
| 26-30 | 21.67% |
| 31-35 | 22.70% |
| 36-40 | 13.35% |
| 41-45 | 7.17% |
| 46-50 | 5.38% |
| 51-55 | 5.98% |
| 56-60 | 6.48% |
| 61-65 | 3.87% |
| 66-70 | 1.02% |
| >=71 blwydd oed | 0.33% |
| **Cyfanswm Terfynol** | **100.00%** |

## Crynodeb Rhywedd PCGC

| Rhywedd | Nifer y bobl | % | CALI |
|---|---|---|---|
| Benyw | 3299 | 54.49% | 3034.57 |
| Gwryw | 2755 | 45.51% | 2650.03 |
| **Cyfanswm Terfynol** | **6054** | **100%** | **5684.59** |

## Categorïau Gweithwyr PCGC yn ôl Rhywedd

| Llawn amser/Rhan Amser | Benyw % | Gwryw % |
|---|---|---|
| Llawn amser | 36.32% | 37.31% |
| Rhan amser | 18.17% | 8.19% |
| **Cyfanswm Terfynol** | **54.49%** | **45.51%** |

## Crynodeb o Statws Priodasol PCGC

| Statws Priodasol | Nifer y bobl |
|---|---|
| Heb ei nodi | 23.34% |
| Amhenodol | 2.00% |
| Gwyn | 6.97% |
| Mwyafrif Byd-eang | 67.69% |
| **Cyfanswm Terfynol** | **100.00%** |

## Crynodeb o Statws Priodasol PCGC

| Statws Priodasol | Nifer y bobl |
|---|---|
| Mewn Partneriaeth Sifil | 1.27% |
| Wedi ysgaru | 2.44% |
| Wedi gwahanu'n gyfreithiol | 0.21% |
| Yn briod | 30.62% |
| Yn sengl | 27.02% |
| Anhysbys | 38.02% |
| Yn weddw | 0.40% |
| **Cyfanswm Terfynol** | **100.00%** |

## Crynodeb Cyfeiriadedd Rhywiol PCGC

| Labeli Rhes | % |
|---|---|
| Deurywiol | 2.20% |
| Hoyw neu Lesbiaidd | 2.03% |
| Heterorywiol neu Syth | 68.17% |
| Heb nodi (gofynnwyd i'r person ond gwrthododd roi ymateb) | 5.02% |
| Cyfeiriadedd rhywiol arall nad yw wedi'i restru | 0.18% |
| Heb benderfynu | 0.03% |
| Amhenodol | 22.37% |
| **Cyfanswm Terfynol** | **100.00%** |

## Crynodeb o Gred Grefyddol PCGC

| Cred Grefyddol | % |
|---|---|
| Anffyddiaeth | 21.36% |
| Bwdhaeth | 0.79% |
| Cristnogaeth | 28.54% |
| Hindŵaeth | 2.02% |
| Nid wyf am ddatgelu fy nghrefydd/cred | 9.61% |
| Islam | 7.38% |
| Jainiaeth | 0.03% |
| Iddewiaeth | 0.10% |
| Arall | 6.21% |
| Siciaeth | 0.25% |
| Amhenodol | 23.70% |
| **Cyfanswm Terfynol** | **100.00%** |

# Rhagolwg



# Egwyddorion Cyffredinol ar gyfer 2024-25

## Gwneud y Pethau Sylfaenol yn DdaSylfaenol yn Dda

Mae PCGC wedi ymrwymo i ddarparu sylfaen gadarn ar gyfer GIG Cymru, drwy ddarparu gwasanaethau dibynadwy i'n partneriaid. Mae ffocws ar ragoriaeth yn hanfodol i lwyddiant cyffredinol ein CTCI ac rydym yn deall yr effaith y mae hyn yn ei chael ar ddarparu gofal iechyd ledled Cymru. Yn 2024 cynhaliodd PCGC achrediad corfforaethol ar gyfer Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth Cwsmeriaid, gan amlygu ein hymroddiad parhaus i sicrhau bod rhagoriaeth wrth wraidd ein gwasanaethau.

## Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn hanfodol i greu gweithle teg, cyfiawn a pharchus. Drwy gofleidio'r meysydd hyn mae PCGC yn anelu at feithrin diwylliant lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu parchu, a'u grymuso i gyfrannu o'u gorau. Mae hyn yn cynnwys cydnabod a gwerthfawrogi gwahaniaethau, herio rhagfarnau, a chreu arferion cynhwysol sydd o fudd i staff a defnyddwyr gwasanaeth. Trwy gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, mae PCGC yn ymdrechu i wella canlyniadau iechyd, gwella darpariaeth gwasanaethau, ac adeiladu sefydliad cryfach a mwy cydnerth.

## Llesiant Staff

Byddwn yn parhau i ddarparu cefnogaeth i'n holl staff i hybu llesiant corfforol, meddyliol ac ariannol. Byddwn yn cynnal y dull partneriaeth cryf yr ydym wedi bod yn ei adeiladu gyda'n hundebau llafur wrth inni lywio newid parhaus, a sicrhau bod lleisiau ein staff yn cael eu clywed, ac yr eir i'r afael â materion sy'n codi.

# Egwyddorion Cyffredinol ar gyfer 2024-25

## Cynaliadwyedd

Rydym yn parhau i ymrwymo i gyllideb gytbwys, i gydymffurfio â'n dyletswydd i adennill costau a chynllun ail-fuddsoddi wedi'i dargedu ar gyfer y gwasanaethau hynny gan PCGC sy'n cefnogi Blaenoriaethau Gweinidogol yn uniongyrchol. O fewn ffrydiau gwaith Gwerth a Chynaliadwyedd, rydym yn arwain mewn tri maes: y gweithlu, meddyginiaethau a rhagnodi, a gwariant caffael a gwariant nad yw'n ymwneud â chyflogau. Yn ogystal, rydym yn asesu effaith amrywiadau diangen gan ddefnyddio arbenigedd ein Tîm Gwella Gwasanaethau i herio a gwella ein gwasanaethau.

## Y Ddyletswydd Ansawdd Y Ddyletswydd Ansawdd

Mae hon yn flaenoriaeth allweddol i PCGC gan ei bod yn cyd-fynd â'n nod cyffredinol, sef Sicrhau Gwerth, Arloesedd a Rhagoriaeth drwy Bartneriaeth. Rydym yn deall y rôl hanfodol rydym yn ei chwarae wrth gefnogi agweddau amrywiol ar gyflenwi gofal iechyd, gan gynnwys caffael, fferylliaeth a gwasanaethau gweithlu. Mae ein haliniad â'r Ddyletswydd Ansawdd yn atgyfnerthu ein hymroddiad i wella ansawdd ac effeithiolrwydd cyffredinol ein gwasanaethau ledled Cymru.

***Rydym wedi ymrwymo i wneud y mwyaf o gyfleoedd i wella ansawdd, lleihau gwastraff, a sicrhau cysondeb ar draws ein holl wasanaethau. Er bod yr hinsawdd economaidd bresennol yn cyflwyno heriau, rydym yn dal yn hyderus yng ngallu ein cynllun i ysgogi arloesedd a rhagoriaeth yn y gwasanaethau a ddarparwn.***

GIG CYMRU NHS WALES | Partneriaeth Cydwasanaethau Shared Services Partnership

# Cynllun blwyddyn un ar dudalen

## Ein Gwasanaethau

Parhau â Rhaglenni Dysgu, gan ganolbwyntio ar Iechyd Menywod mewn gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol.

Cefnogi trosglwyddo cynllun WIBBS i'r Awdurdod Iawndal Gwaed Heintiedig.

Cefnogi ail-gaffael a gweithredu datrysiad Health Roster ar Sail Cymru Gyfan.

Symud i gam cynnull Datrysiad Trawsnewid y Gweithlu.

Adolygu adroddiadau yn y Gwasanaeth Archwilio Meddygol i fodloni gofynion cwsmeriaid ac aliniad â'r Ddyletswydd Ansawdd.

Ymgorffori'r rhaglen gwella recriwtio ymhellach i wella effeithlonrwydd gwasanaethau drwy arloesi ac awtomeiddio digidol.

Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ymestyn Rhaglen Recriwtio Ryngwladol Cymru Gyfan.

Gwella'r defnydd o ddadansoddeg data yng ngwaith archwilio mewnol.

Datblygu Gwasanaethau Gwybodaeth Gweithlu Gofal Sylfaenol.

Cefnogi GIG Cymru i ddarparu gwasanaethau sy'n delio â chleifion trwy well parodrwydd ar gyfer argyfwng a gwydnwch.

## Ein Gwerth

Parhau i ddatblygu Trawsnewid Mynediad at Feddyginiaethau.

Parhau i ddatblygu Sganio er Diogelwch fel rhan o raglen foderneiddio GIG Cymru.

Nodi datrysiadau i ysgogi awtomeiddio a chefnogi gwreiddio contract Offthalmig Cymru.

Arwain grŵp i ystyried caffael gynau amldro yn ganolog ar gyfer Byrddau Iechyd.

Sefydlu model gwasanaeth cadarn ar gyfer cyflwyno Rhaglenni brechu tymhorol yn genedlaethol.

Cyflawni cynllun gwaith Economi Sylfaenol Caffael y cytunwyd arno ar gyfer GIG Cymru, gyda cherrig milltir a'r hyn y gellir ei gyflawni yn cael eu datblygu gyda Llywodraeth Cymru.

Parhau i gyflawni camau gweithredu datgarboneiddio PCGC a chefnogi datgarboneiddio ehangach ledled Cymru.

Cynnal adolygiad llawn o wasanaethau cynnal a chadw Peirianneg i ddatblygu gwasanaethau'r golchdy mwy gwydn ac effeithlon.

Sefydlu Uned Radiofferylliaeth ar gyfer De-ddwyrain Cymru i gefnogi GIG Cymru.

Parhau â'r Model Logisteg Cenedlaethol ar gyfer GIG Cymru a chanolbwyntio ar resymoli a safoni.

## Ein Pobl

Darparu canllawiau a chymorth diwygiedig i GIG Cymru yn gysylltiedig â Gweithio i Wella.

Datblygu gwasanaethau ac arbenigeddau o dan fodel Un Cyflogwr Arweiniol.

Adolygu ac adrodd ar yr opsiynau strategol hirdymor ar gyfer gwasanaethau'r System Rheolaeth Ariannol.

Uwchsgilio staff i baratoi ar gyfer mwy o ddulliau digidol ac awtomeiddio yn y gweithle.

Lansio Strategaeth Iaith Gymraeg newydd i gefnogi 'Mwy Na Geiriau' a safonau'r Gymraeg.

Gwella ein hymrwymiad i gymuned y lluoedd arfog fel gweithle i gefnogi'r Lluoedd Arfog.

Parhau i gyflwyno egwyddorion y Ddyletswydd Ansawdd a'u gwreiddio ar draws yr is-adrannau.

Gweithredu Codi Llais heb Ofn gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru.

Parhau i ddatblygu ein Cynnig Gwerth Gweithwyr.

Trwy Gynllun Gweithredu Diwylliant Cynhwysol PCGC, parhau i wreiddio Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

# Ein Blaenoriaethau Strategol 2025-28

## Gwerth

**Gwneud y mwyaf o fudd, effeithlonrwydd ac effaith gymdeithasol yr hyn a wnawn i'n partneriaid.**

Rydym wedi ymrwymo i wneud y mwyaf o werth, effeithlonrwydd ac effaith gymdeithasol ein gwasanaethau ar gyfer ein partneriaid. Drwy leihau gwastraff ac amrywiadau, ein nod yw gwneud y defnydd gorau o adnoddau, gan ryddhau capasiti ac amser i gefnogi gwell gofal i gleifion.
Gan gydnabod ein rôl hanfodol yn yr agenda Gwerth a Chynaliadwyedd, byddwn yn cryfhau
ein rhaglenni Cymru Gyfan ac yn cydweithio â phartneriaid i sicrhau mwy o gysondeb.
Mae'r mentrau allweddol a ganlyn a amlinellir yn ein CTCI yn dangos ein hymrwymiad i'r amcanion hyn, gan adeiladu ar y cynnydd a wnaed yn 2024-25.



Diwylliant
Culture

## Gwella gwasanaethau a gwireddu buddion a rhagoriaeth mewn gwasanaethau cwsmeriaid

**Beth fydd hyn yn ei olygu i'n cwsmeriaid?**
Gwasanaethau mwy effeithlon a gwerth am arian o bob rhan o'n his-adrannau.

Parhaodd y Swyddfa Rheoli Prosiectau a'r Tîm Gwella Gwasanaethau i gefnogi'r gwaith o wireddu buddion trwy brosiectau a mentrau gwella, sy'n cynnwys gosod targedau mesuradwy, monitro ac adrodd rheolaidd.

Yn ystod 2024-25, cefnogodd y Tîm Gwella Gwasanaethau ddatblygiad Cynllun Gwella Gwasanaethau cyntaf PCGC wedi'i anelu'n uniongyrchol at gefnogi dull y sefydliad o fynd i'r afael â grŵp trosfwaol Gwerth a Chynaliadwyedd Cymru Gyfan.


Yn ogystal, cefnogodd y Swyddfa Rheoli Prosiectau ddatblygiad Grŵp Blaenoriaethu Cyfalaf PCGC sydd â'r nod o gefnogi ein hymagwedd at ddatblygu achosion busnes sydd hefyd yn cefnogi'r dull sefydliadol ehangach o wireddu buddion a buddsoddiad ar sail tystiolaeth.

Mae'r tîm yn parhau i gefnogi'r gwaith o gyflawni mentrau sefydliadau allweddol fel Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cwsmeriaid a mentrau allweddol eraill gan gynnwys:

- Adolygiad o Wasanaethau'r Golchdy
- Tâl Amrywiol
- Blaenoriaethu buddsoddiad cyfalaf

### Yn 2025-26, byddwn yn:

- Gwella ymhellach y gwasanaethau a'r galluoedd a ddarperir gan y Swyddfa Rheoli Prosiectau a'r Tîm Gwella Gwasanaethau trwy ddatblygu gwybodaeth a gallu.
- Cynyddu amlygrwydd ac argaeledd y Swyddfa Rheoli Prosiectau a
- Gwasanaethau Gwella Gwasanaethau.
- Cynyddu cymhwysiad y fframwaith Rheoli Newid gan weithio ar y cyd â phrosiectau a mentrau newid.



## Datgarboneiddio

**Beth fydd hyn yn ei olygu i'n cwsmeriaid?**
Rydym yn cefnogi ein partneriaid i leihau eu hallyriadau carbon a chyflawni eu Cynlluniau Gweithredu Datgarboneiddio lleol.

Datblygwyd Cynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru 2021-2030 (y 'Cynllun') i ysgogi gostyngiad mewn allyriadau carbon o weithrediadau GIG Cymru. Mae'r Cynllun yn nodi pum ffrwd waith: Rheoli Carbon; Cludiant a Chaffael; Cynllunio Adeiladau ac Ystadau, Defnydd Tir; ac Agwedd at ofal iechyd, gyda map ffordd manwl ar gyfer GIG Cymru. Mae gan y Cynllun 46 o fentrau sy'n helpu i hwyluso neu leihau allyriadau carbon yn uniongyrchol, a rennir ymhellach yn dasgau. Mae PCGC yn chwarae rhan hollbwysig wrth gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun ac uchelgais Llywodraeth Cymru o gael sector cyhoeddus sero net erbyn 2030, ar lefel genedlaethol a lleol, drwy arwain ar 36 o dasgau yn y Cynllun. Mae'r rhain yn cynnwys yr holl fentrau caffael, nifer o fentrau trafnidiaeth a sawl menter a ddosbarthwyd ar draws y ffrydiau gwaith sy'n weddill.

### *Grŵp Gorchwyl a Gorffen Trafnidiaeth*


Mae PCGC yn cadeirio ac yn hwyluso Grŵp Gorchwyl a Gorffen Trafnidiaeth Cymru Gyfan. Yn dilyn cyflwyno dogfen Ganllaw GIG Cymru ar gyfer seilwaith gwefru Cerbydau Trydan yn llwyddiannus yn 2023, mae'r grŵp bellach yn canolbwyntio ar Fenter 18. Mewn cydweithrediad â Sefydliadau'r GIG, bydd y grŵp yn sefydlu system safonol o reoli cerbydau ar gyfer cerbydau sy'n eiddo iddynt ac ar brydles. Bydd hyn yn caniatáu i sefydliadau gynllunio, rheoli ac asesu perfformiad cerbydau.

### *Caffael PCGC*

Ochr yn ochr â blaenoriaethu effeithlonrwydd ariannol, mae'r Gwasanaeth Caffael yn parhau i weithio ar gyflawni Cynllun Cyflenwi Strategaeth Datgarboneiddio GIG Cymru o ran nodi a lleihau allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â gweithgarwch caffael.

Mae'r timau ledled Cymru yn parhau i fynd ati i dargedu'r caffaeliadau cenedlaethol sydd â'r potensial mwyaf i effeithio ar leihau'r ôl troed carbon naill ai drwy newid y ffynhonnell gweithgynhyrchu, y math o gynnyrch neu gymryd camau i leihau'r defnydd a'r galw.

Un nod allweddol i dîm Caffael PCGC yw gwreiddio'r egwyddor a nodir yn yr Hierarchaeth Caffael Cynaliadwy ar draws GIG Cymru.




**Ffynhonnell:** Wrap Cymru (2021)



## *Ôl Troed Carbon PCGC*

Mae holl sefydliadau'r GIG yng Nghymru wedi datblygu Cynlluniau Gweithredu Datgarboneiddio unigol sy'n manylu ar eu hymateb i'r Cynllun a'r 46 menter. Mae PCGC wedi cael profiad sylweddol drwy gyflawni ei gynllun gweithredu blaenorol, ond mae risg o hyd o beidio â chyflawni targedau GIG Cymru. Ym mis Mawrth 2024, cafodd y Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio lleol ei adnewyddu'n llawn, gan ddarparu map ffordd uchelgeisiol y gellir ei gyflawni, gyda'r nod o ddatgarboneiddio ein cyfleusterau a'n gweithgareddau ein hunain.

Mae cyflawniadau ar gyfer y cyfnod blaenorol yn cynnwys:

- Treialu defnyddio paneli solar ffotofoltäig ar doeau cerbydau i ddarparu pŵer ategol wrth gefn a lleihau'r defnydd ar injan segur.
- Mae 90% o holl eiddo PCGC wedi'i drosi i ddefnyddio goleuadau LEDMae hyfforddiant ymwybyddiaeth e-ddysgu 'Cyflawni Sero Net' Lefel 1 wedi'i greu ac mae ar gael i'r holl staff ar lwyfan y Cofnodion Staff Electronig (ESR).
- Gweithredu tracio cerbydau. Mae dull tracio wedi'i osod ar holl fflyd Cadwyn Gyflenwi, Logisteg a Thrafnidiaeth PCGC ac mae dadansoddiad o amserlenni cerbydau arferol wedi helpu i lywio ble rydym yn cael y defnydd gorau posibl o'r fflyd Cerbydau Trydan a'u lleoliad gorau posibl.
- Mae ailgylchu gwastraff bwyd wedi'i gyflwyno yng nghyfleusterau PCGC lle cynhyrchir mwy na 5kg yr wythnos.

Y dull newydd o weithio fu datblygu cynlluniau sy'n cyd-fynd yn llawn â'r Cynllun Cenedlaethol ac sy'n gweithio o fewn y themâu canlynol:

| Theme | Example NWSSP Decarbonisation Action |
|---|---|
| Arweinyddiaeth / Rheoli | Cyflwyno hyfforddiant wyneb yn wyneb Ymwybyddiaeth Carbon Lefel 2 i 80% o'r staff a nodwyd, i'w gyflawni rhwng 2024 a 2026. |
| Ynni ac adeiladau | Lleihau gofod swyddfa i adlewyrchu trefniadau gweithio 'ystwyth' modern, gan leihau'r defnydd o garbon ar gyfer gwresogi a goleuo. |
| Gwasanaethau'r Golchdy | Cynnal adolygiad o Gydgrynhoi Llwybrau, wedi'i alinio â safleoedd lleol ar gyfer dosbarthu llieiniau a golch unwaith y bydd gwasanaethau'r golchdy wedi'u trosglwyddo'n llawn i PCGC. |
| Rheoli Gwastraff | Adolygu Ailgylchu Cadwyni Cyflenwi ar safleoedd Warws, trwy gyfuno gwastraff e.e. lleihau cardbord, plastigion. |
| Caffael, Logisteg a'r Gadwyn Gyflenwi | Bydd y dull o roi cyfrif am allyriadau ym maes caffael yn parhau i drosglwyddo i ddull 'seiliedig ar y farchnad'. |
| Trafnidiaeth a Theithio | Cynyddu'n fflyd a'n seilwaith Cerbydau Trydan. |
| Proses Glinigol | Ar ran Gwasanaethau Gofal Syflaenol, ail-ddylunio gwasanaethau (Cofnodion Meddygol ac ati) i optimeiddio'r dosbarthiad rhwng safleoedd Gofal Sylfaenol i'r Ganolfan Gwasanaethau Cymorth Gofal Sylfaenol agosaf. |
| Isadeiledd Gwyrdd / Bioamrywiaeth | Nodi a chefnogi unrhyw fentrau gwyrdd ac arloesiadau cynaliadwyedd ar draws PCGC. |



### *Addasu at newid hinsawdd*

Mae PCGC yn deall yr angen i GIG Cymru fod wedi'i addasu'n dda i newid yn yr hinsawdd, bod yn rhaid i gyflawni ar sero net a gostyngiadau allyriadau ddigwydd ochr yn ochr ag addasu i liniaru'r newidiadau yn yr hinsawdd sydd eisoes yn cael eu profi. Mae addasu i'r newidiadau presennol a'r newidiadau a ragwelir i'n hinsawdd, ar lefel genedlaethol a lleol, yn hanfodol ar draws iechyd a gofal cymdeithasol. Rhaid cydnabod bod y camau a gymerir ar gyfer datgarboneiddio ac addasu yn gysylltiedig a bod iddynt gyd-fuddiannau posibl.

Gan ddefnyddio'r Canllawiau ar Ymaddasu yn yr Hinsawdd a'r Pecyn Cymorth ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2024, bydd PCGC yn datblygu strategaeth ar gyfer Ymaddasu i gynnwys datblygu a gweithredu asesiadau risg a chyfleoedd iechyd a llesiant sy'n canolbwyntio ar yr hinsawdd. Drwy rannu ei dull o addasu a defnyddio'r rhwydwaith sefydledig o gwsmeriaid a phartneriaid i hwyluso ymgysylltu, nod PCGC yw cefnogi sefydliadau ar draws GIG Cymru.

Mae camau gweithredu pellach yn cynnwys datblygu cynlluniau ymateb i'r hinsawdd, defnyddio'r gwersi a ddysgwyd hyd yma a sicrhau dull cydgysylltiedig rhwng lliniaru ac addasu, a thrwy hynny sicrhau bod ein llwybr i Sero Net yn cydnabod yn llawn yr angen i sicrhau gwydnwch iechyd a gofal cymdeithasol hirdymor, ac effeithiau'r newid yn yr hinsawdd o ran darparu gwasanaethau.



Effeithlon
Efficient

## Yr Economi Sylfaenol ac Effeithiau Llesiant

**What will this mean to our customers?**
Ein nod yw cynyddu gwydnwch yn y gadwyn gyflenwi a chynyddu'r gwariant a'r contractau a ddyfernir i Gyflenwyr o Gymru.

Mae PCGC yn deall bod yn rhaid i'n gwasanaethau caffael ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau a'r cleifion a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Mae hyn yn golygu sicrhau bod cynhyrchion, gwasanaethau a darpariaethau yn cael eu cyrchu'n effeithlon ac am y gwerth gorau. Rydym wedi ymrwymo i gyrchu a darparu nwyddau a gwasanaethau gwerth uchel trwy weithio mewn partneriaeth gymdeithasol gyda'n cwsmeriaid, rhanddeiliaid a chyflenwyr. Yn wyneb heriau economaidd ac ariannol, ein nod yw cefnogi ail-fuddsoddi yn economi Cymru, fel yr amlinellir yn y "Cynllun Cymru Iachach".

Mae ein strategaeth gaffael yn adlewyrchu egwyddorion yr Economi Sylfaenol gan annog cadwyni cyflenwi lleol gwydn, drwy ymarferion cystadleuol teg, agored a thryloyw.

Mae Tîm Cynaliadwyedd y Gwasanaethau Caffael yn parhau i ganolbwyntio ar hyrwyddo'r ffrydiau gwaith allweddol a ganlyn:

- Darparu hyfforddiant a chymorth cynaliadwyedd ehangach i dimau caffael.
- Cynnal rhaglen allgymorth i ymgysylltu'n uniongyrchol â chyflenwyr o Gymru
- a chynnig cefnogaeth.
- Gwella data ac adrodd yn y Gwasanaethau Caffael.
- Hyrwyddo arloesedd ac arferion gorau.
- Integreiddio egwyddorion ehangach yr economi gylchol a datgarboneiddio mewn prosesau caffael ar draws GIG Cymru.

Mae'r Tîm Cynaliadwyedd yn gweithio'n agos gyda thimau caffael i feithrin newid a chyfrannu at dwf yr Economi Sylfaenol. O ystyried y pwysau ariannol a wynebir gan Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau, mae angen cynyddol i roi mentrau arbed costau ar waith gan greu tensiwn rhwng cost a chynaliadwyedd ehangach. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae'r Gwasanaethau Caffael wedi rhannu ein rhaglen gontractau er mwyn nodi contractau cyfleoedd Economi Sylfaenol a Datgarboneiddio.

Fel rhan o'n hymrwymiad parhaus, rydym yn parhau i ddyfarnu contractau i gyflenwyr lleol, er budd economi Cymru. Rydym yn pennu pwysoliad o 15% yn ein meini prawf tendro i sicrhau bod ein contractau'n cyflawni effeithiau Llesiant ac Economi Sylfaenol ehangach, lle bo hynny'n berthnasol ac yn gymesur. Ymhellach, mae timau, gyda chyfleoedd contract a nodwyd, wedi parhau i ddatblygu strategaethau tendro cystadleuol arloesol i gynnal neu ehangu effaith eu contractau ar yr Economi Sylfaenol.

Mae GIG Cymru wedi ymrwymo i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (WBFGA) a Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 (SPPP). Dros y flwyddyn i ddod, byddwn yn gweithio'n agos gyda'n cyflenwyr i ehangu ein prosesau casglu data ac adrodd yn unol â gofynion y mesurau statudol sy'n gysylltiedig â SPPP, sydd i'w cwblhau yn 2025.

Bydd GIG Cymru yn parhau i fuddsoddi yn yr Economi Sylfaenol ac mae'r ffocws hwn wedi arwain at ddyfarnu contractau sylweddol i gyflenwyr o Gymru: gwerth £101 miliwn o wariant yn cael ei ddyfarnu i gontractwyr o Gymru yn 2023-24. Mae hyn, ynghyd â mentrau eraill, wedi arwain at gyfeirio dros £2.1 biliwn, neu 43% o wariant GIG Cymru nad yw'n gysylltiedig â'r gyflogres, at gyflenwyr o Gymru yn 2023-24.

Mewn ymateb i ymholiadau pellach ynghylch yr Economi Sylfaenol, mae PCGC wedi dechrau mesur perfformiad Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau unigol yn ogystal â'r gwariant sy'n gysylltiedig â rhanbarthau Cymru yn ogystal ag ôl troed daearyddol Byrddau Iechyd unigol.

### Gan edrych ymlaen at 2025-26 a thu hwnt, mae ein blaenoriaethau'n cynnwys:

- **Adolygu Effeithiau Llesiant Cyflenwyr Presennol:** Byddwn yn ymgysylltu â'n cyflenwyr i asesu'r gwerth ychwanegol a ddaw yn sgîl eu contractau. Bydd y broses hon yn un barhaus wrth i ni adolygu ein cyflenwyr o safbwynt y Ddeddf SPPP a bydd hefyd yn cwmpasu metrigau cynaliadwyedd a datgarboneiddio ehangach.
- **Adolygiad Piblinell Contract:** Bydd cynllun newydd yn cael ei gyhoeddi, a fydd yn amlygu cyfleoedd yr Economi Sylfaenol a Datgarboneiddio a'r potensial ar gyfer Effeithiau Llesiant ychwanegol.
- **Dylanwadu ar brosesau tendro cystadleuol:** Byddwn yn ceisio manteisio ar ein gweithgareddau caffael i gyflawni'r canlyniadau gwerth gorau am arian, tra hefyd yn ceisio sicrhau canlyniadau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol cadarnhaol o'n prosesau caffael.



Person ganolog
Person centred

## Caffael

**Beth fydd hyn yn ei olygu i'n cwsmeriaid?**
Cefnogi ein cwsmeriaid i gyflawni arbedion cost ac arbed amser staff, gan alluogi ffocws ar ofal cleifion.

### *Arbedion ac Effeithlonrwydd Ariannol*

Mae Gwasanaethau Caffael PCGC yn parhau i fod wedi ymrwymo i sicrhau arbedion sy'n rhyddhau arian parod i Sefydliadau GIG Cymru, gydag ymrwymiad i gyflawni £42 miliwn ym mlwyddyn ariannol 2024-25. Mae'r targed hwn yn cynnwys cynlluniau arbed lleol, rhanbarthol a chenedlaethol a ddatblygwyd gan y timau ledled Cymru ar gyfer ystod o nwyddau a gwasanaethau. Yng nghyd-destun yr amgylchedd ariannol heriol iawn sy'n wynebu GIG Cymru a'r angen am hwyluso rhagor o gyfleoedd i wneud arbedion, mae'r gwasanaeth yn rhoi cyngor i Fwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd GIG Cymru gan nodi meysydd lle bydd angen cymorth gan yr Uwch Fwrdd Gweithredol a Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â ffafriaeth glinigol a datgloi potensial llawn yr arbedion ychwanegol sydd ar y gweill.

Mewn rhai meysydd gwariant meddygol a chlinigol nad yw'n gysylltiedig â'r gyflogres, mae amrywiadau yn y defnydd o frandiau gweithgynhyrchwyr ledled Cymru wedi creu amrywiadau mewn prisiau rhwng Byrddau Iechyd y mae angen eu herio a, lle bynnag y bo modd, cytuno ar ystod safonedig o gynhyrchion i'w defnyddio yn y dyfodol sy'n gwneud y mwyaf o botensial ymagwedd genedlaethol at gaffael.

Yn 2025-26, byddwn yn datblygu strategaeth arbedion ac adrodd cenedlaethol, lleol, ariannol ac anariannol y cytunwyd arni.

### *Newidiadau Deddfwriaethol*

Mae'r fframwaith deddfwriaethol y mae'r Gwasanaeth Caffael yn gweithredu o'i fewn hefyd yn newid yn sylweddol ym mis Chwefror 2025 gyda chyflwyniad Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 a Deddf Caffael 2023.

Bydd Deddf Caffael 2023 yn disodli'n gyfan gwbl y drefn caffael cyhoeddus bresennol, sy'n deillio o'r Undeb Ewropeaidd, ar gyfer y DU yn dilyn Brexit. Nod y newidiadau yw cynyddu hyblygrwydd i brynwyr wrth ymgysylltu â'r farchnad a gwella tryloywder wrth wneud penderfyniadau. Bydd Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 yn cwmpasu rhai o'r meysydd yn Neddf Caffael 2023 ond yn canolbwyntio'n fwy penodol ar faterion sy'n ymwneud â gwerth cymdeithasol drwy bartneriaeth, caffael sy'n gyfrifol yn gymdeithasol, gwaith teg a datblygu cynaliadwy. Bydd cyflwyno'r darnau hyn o ddeddfwriaeth yn gofyn am hyfforddiant sylweddol i ymarferwyr caffael, rhanddeiliaid a chyflenwyr yn y farchnad, ac ymwybyddiaeth sylweddol ganddynt. Mae modiwlau hyfforddi bellach wedi'u cwblhau gan holl staff caffael PCGC ynghyd â sesiynau archwilio dwfn manwl.





## Moderneiddio Recriwtio

**Beth fydd hyn yn ei olygu i'n cwsmeriaid?**
Gwasanaeth recriwtio modern ac effeithlon sy'n bodloni anghenion ein cwsmeriaid.

### *Lleihau'r Amser ar gyfer Penodi*

Datblygwyd y Rhaglen Moderneiddio Recriwtio yn 2022, a thrwy hyn mae nifer o newidiadau a gwelliannau wedi'u gwneud i brosesau, addysg a thechnoleg.

Mae'r newidiadau allweddol i brosesau sydd wedi'u rhoi ar waith hyd yn hyn yn cynnwys:

- Lleihau nifer y gwiriadau cyn cyflogaeth sy'n orfodol cyn y dyddiad dechrau.
- Trefnu dyddiad cychwyn dros dro gyda'r ymgeisydd adeg
- cynnig y swydd ar lafar.
- Dim gofynion am eirda ar gyfer penodiadau mewnol yn y sefydliad.
- Gall timau recriwtio gymeradwyo geirdaon os nad ydynt yn cynnwys unrhyw wybodaeth am salwch neu ddisgyblu.
- Gweithredu meddalwedd Dilysu Hunaniaeth Ddigidol (Trust ID).
- Cefnogi cyflwyno'r system Iechyd Galwedigaethol newydd (OPAS G2) i'wgwblhau erbyn Rhagfyr 2023.

**Yn ystod 2024-25, rydym wedi bod yn gwneud y canlynol a byddwn yn parhau â hyn yn 2025-26:**


- Adolygu cynnydd 'bod yn berchen ar y daith' ar draws Sefydliadau'r GIG a gwerthuso'r
- manteision.
- Archwilio syniadau trwy ymgynghori â sefydliadau a rheolwyr recriwtio eraill.
- Adolygu newidiadau a weithredwyd i sicrhau eu bod yn effeithiol.
- Defnyddio'r dechnoleg ddigidol sydd ar gael i gefnogi gostyngiadau pellach mewn 'amser i benodi'.

***Lleihau Amser i Benodi - Perchnogi'r Daith Recriwtio***

Er bod y newidiadau i'r broses a gweithrediad meddalwedd dilysu Hunaniaeth Ddigidol yn dangos canlyniadau cadarnhaol, mae gweithgarwch ychwanegol y gall Sefydliadau'r GIG a rheolwyr recriwtio ei wneud i gefnogi gostyngiad yn yr amser i benodi. Bydd hyn yn cynnwys cynllunio gweithgareddau recriwtio ymlaen llaw a symleiddio'r nifer o gymeradwyaethau swyddi gwag sydd eu hangen. Cytunwyd ar y gweithgareddau hyn ac mae gwaith wedi dechrau ledled Cymru. Gweithgaredd allweddol i sicrhau bod Amser i Benodi yn amser real, yw i sefydliadau lanhau cofnodion hŷn yn y system. Mae'r gwaith hwn wedi gweld gostyngiad o 25% o gofnodion sy'n hŷn na 91 diwrnod ers eu cynnig i 7%.

Bydd y Gwasanaeth Recriwtio yn parhau i gynnal sesiynau ymgysylltu â rheolwyr recriwtio ar Gostwng yr Amser i Benodi, gan gynnwys cyfathrebu awgrymiadau a chwalu mythau. Elfen allweddol o'r broses recriwtio yw cyfranogiad rheolwyr. Cynghorir rheolwyr i gadw mewn cysylltiad â'u penodai ac adolygu system recriwtio Trac yn rheolaidd i leihau oedi.





## Moderneiddio'r Gyflogres

**Beth fydd hyn yn ei olygu i'n cwsmeriaid?**
Gostyngiad mewn gordaliadau a phroses gysylltiedig a chynnydd mewn Hunanwasanaeth Rheoli, gan arwain at gywirdeb cyflogres uwch.

### *Cyngor Symud Staff*

Mae'r Ap Cyngor Symud Staff (SMA) wedi'i ddatblygu ar y cyd ag IGDC i ddisodli'r hen ffurflenni cyflogres. Mae'r SMA wedi'i adeiladu ar blatfform Microsoft 365 mewn cymhwysiad digidol ac mae wedi'i roi ar waith yn llwyddiannus mewn 10 Sefydliad Iechyd gyda chynlluniau i'w ddefnyddio mewn un arall ym mis Ionawr 2025. Bydd hyn yn gadael dau Sefydliad Iechyd yn weddill i ymrwymo i symud. Mae manteision yr SMA yn cynnwys:

- Gostyngiad sylweddol mewn gwaith gweinyddol i Sefydliadau Iechyd
- ac i PCGC.
- Gostyngiad mewn gwallau cyflogres.
- Hwylustod defnydd.
- Mae newidiadau a wneir ac a weithredir gan dîm y gyflogres yn cael eu hysbysu i'r defnyddiwr.
- Llai o alwadau i'r gyflogres - gostyngiad o 50% mewn rhai ardaloedd.

Bydd ail gam y prosiect yn cychwyn ganol 2025 pan fydd y data'n cael ei fewnbynnu'n ddigidol yn uniongyrchol i'r ESR trwy Power automate, ac yn lleihau tasgau gweinyddol beichus ymhellach.

### *Porth gordaliadau*


Mae ein tîm Gwasanaethau Cyflogaeth wedi datblygu porth gordaliadau cyflogres i gynorthwyo Sefydliadau'r GIG i leihau amlder y taliadau hyn, gan fod dros 90% o ordaliadau yn cael eu cynhyrchu gan y sefydliadau cyflogi o ganlyniad i gyflwyniadau hwyr neu anghywir.


Mae buddion y porth yn cynnwys:

- Cymorth wedi'i dargedu ar gyfer rheolwyr y gallai fod angen ailhyfforddiant a chymorth ychwanegol arnynt.
- Cesglir gwybodaeth am yr elfen adennill a wneir gan bob tîm cyllid Bwrdd Iechyd ac mae hanes cyflawn ar gael ar bob gordaliad o'r darganfyddiad i'r adferiad.
- Gall cyfarwyddwyr weld gordaliadau yn eu sefydliad ar unwaith.
- Mae'r system wedi'i lleoli mewn amgylchedd byw.
- Mae gordaliadau wedi lleihau o ganlyniad.

### Yn 2025-26, byddwn yn:

- Dechrau Cam 2 gwella gwasanaeth y Gyflogres.
- Profi a defnyddio'r mynediad uniongyrchol i'r Cofnod Staff Electronig i leihau gweinyddiaeth a gwallau yn sylweddol ac, yn y pen draw, cynnig gwell taith i'n defnyddiwr fel cwsmer.
- Gweithio gyda Byrddau Iechyd, gan ddefnyddio'r Porth gordaliadau digidol ymhellach i leihau gordaliadau.





Gwybodaeth
Information

## Parodrwydd Atebion Trawsnewid y Gweithlu

**Beth fydd hyn yn ei olygu i'n cwsmeriaid?**

Monitro gofynion y rhaglen a darparu arbenigedd cyflogres a recriwtio a mewnwelediad i gefnogi cynllun trosglwyddo gwasanaethau GIG Cymru i'r porth pobl newydd.

Mae ein Rhaglenni Moderneiddio ar gyfer y gyflogres a recriwtio wedi rhyddhau arbedion effeithlonrwydd i'n cwsmeriaid ac wedi bod yn newid sylweddol tuag at barodrwydd Datrysiad Trawsnewid y Gweithlu. Yn 2025 bydd y rhaglenni hyn yn aeddfedu i fodel darparu gwelliant parhaus mewn gwasanaethau.

Bydd ein Timau yn parhau i fonitro uchelgais y rhaglen bontio gan ddarparu mewnwelediad i wasanaethau presennol, cynghori ar gyfleoedd a dylanwadu'n broffesiynol wrth ddylunio gwasanaethau.

### Yn 2025-26 byddwn yn gwneud y canlynol ar y cyd:

- Asesu'r ymarferoldeb yn erbyn prosesau cyflogres a recriwtio blaenorol GIG Cymru.
- Rhoi cyngor ar bwyntiau gwasanaeth hanfodol a dyluniad.
- Paratoi ar gyfer cynlluniau trosglwyddo a sgiliau digidol y Gwasanaethau Cyflogaeth ar gyfer 2026-27.

Bydd ail gam y prosiect yn cychwyn ganol 2025 pan fydd y data'n cael ei fewnbynnu'n ddigidol yn uniongyrchol i'r ESR trwy Power automate, ac yn lleihau tasgau gweinyddol beichus ymhellach.



## Y Ddyletswydd Ansawdd

**Beth fydd hyn yn ei olygu i'n cwsmeriaid?**
Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar wasanaethau o ansawdd, dibynadwy, diogel ac effeithiol yn unol â safonau a rheoliadau fel y bo'n briodol, gan gefnogi'r system iechyd gyffredinol mewn partneriaeth.

***Y safonau iechyd a gofal***

Roedd ein hadroddiad blynyddol cyntaf yn dangos sut rydym wedi gweithredu ac ymgorffori'r 12 Safon Ansawdd Iechyd a Gofal ar draws PCGC. Rydym wedi cyflwyno hyn i feysydd anghlinigol, y mae hon yn ffordd newydd o feddwl iddynt, ac yn ffordd newydd o ddangos ein Systemau Rheoli Ansawdd.

### Y Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal



| Quality Standards | |
|---|---|
| Diogel | Mae hwn yn canolbwyntio ar osgoi niwed y gellir ei atal, cael prosesau a gofal yn iawn, a dysgu o ddigwyddiadau a phryderon i atal ailadrodd. |
| Amserol | Disgrifir hyn fel darparu gofal o ansawdd uchel o fewn yr amserlen gywir. |
| Effeithiol | Mae hyn yn adlewyrchu'r defnydd o arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n cynnwys atal yn ogystal â thriniaeth. |
| Effeithlon | Dull sy'n seiliedig ar werthoedd i wella canlyniadau i bobl. |
| Canolbwyntio ar yr unigolyn | Diwallu anghenion pobl. |
| Teg | Darparu cyfle cyfartal a hawliau dynol. |
| **Galluogwyr ansawdd** | |
| Y Gweithlu | Sicrhau bod y gweithlu'n fedrus ac ar gael i ddarparu gofal a chymorth i'r rhai sy'n darparu gofal. |
| Arweinyddiaeth | Gweledigaeth glir gyda llywodraethu ac atebolrwydd wedi'u gwreiddio yn y sefydliad. |
| Diwylliant | Systemau ansawdd a diogelwch mewn ffordd gefnogol sy'n galluogi rhannu syniadau newydd a dysgu o gamgymeriadau. |
| Gwybodaeth | Defnyddio data a gwybodaeth i lywio ansawdd a datblygu gwasanaethau. |
| Dysgu a Gwella | Gwella ansawdd er mwyn darparu gwasanaethau a chanlyniadau o safon. |
| Dull system gyfan | Gwella ansawdd ar draws y system gofal iechyd i wella canlyniadau poblogaeth. |

Rydym wedi ceisio adborth ar effaith y Ddyletswydd a sut mae wedi gwella ein gwaith ar draws PCGC. Mae geiriau allweddol cydweithwyr yn cynnwys; adfywio, effaith, myfyrio, cefnogol, miniog, gwelliant a ffocws. Mae hyn yn dangos bod y Ddyletswydd yn cael ei defnyddio'n adeiladol wrth gynllunio a gweithredu gwasanaethau ac mae hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar y ffordd y mae ein pobl yn meddwl ac yn gweithredu a sut y mae o fudd i ddiwylliant y sefydliad.

Roedd tystiolaeth a ddangosodd ein hymrwymiad i ansawdd yn 2023-24 yn cynnwys:

- Cynnal achrediadau ISO ac felly cyflawni safonau archwilio allanol.
- Gwobr Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cwsmeriaid y Sefydliad Cyfan.
- Cyflwyno ein Hadroddiad Dyletswydd Ansawdd Blynyddol cyntaf.
- Adroddiadau sy'n cael eu Hysgogi gan Ansawdd i Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau, er enghraifft y Gwasanaeth Archwilio Meddygol ac Archwilio a Sicrwydd.
- Rhagoriaeth yn y defnydd o ddata ansawdd i lywio gwella ansawdd, gan gynnwys Amser i Benodi, Datrysiadau Gordaliadau Digidol a chyfraniadau at Adroddiadau Dysgu Thematig.

Esbonnir y rhain ymhellach yn Adolygiad Blynyddol Dyletswydd Ansawdd 2023-2024 ac mae rhestr yn dangos rhai o'n hachrediadau yn y tabl isod.

| Cyflawniad | Is-adran | Meysydd ansawdd | Galluogwyr ansawdd |
|---|---|---|---|
| Penderfyniad i geisio achrediad Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cwsmeriaid ar draws PCGC, a'i gyflawni. | Ar draws PCGC | • Teg<br>• Canolbwyntio ar yr unigolyn | • Arweinyddiaeth<br>• Diwylliant<br>• Gwybodaeth |
| Datblygu system adfer dŵr ac ynni ar gyfer Gwasanaethau'r Golchdy BS14065:2016 ar gyfer systemau rheoli biohalogi | Gwasanaethau'r Golchdy Ystadau Arbenigol | • Effeithlon<br>• Effeithiol<br>• Diogel | • Gwybodaeth<br>• System Gyfan<br>• Dysgu, Gwella ac Ymchwil |
| Cynnal achrediadau ISO – mae'r rhain yn gweithredu fel sicrwydd ansawdd gweladwy | Ar draws PCGC | • Canolbwyntio ar yr unigolyn<br>• Diogel | • Dysgu, Gwella ac Ymchwil<br>• Arweinyddiaeth<br>• Diwylliant<br>• System Gyfan |
| Codi Llais heb Ofn | Pobl a Datblygu Sefydliadol | • Diogel<br>• Teg | • Arweinyddiaeth<br>• Y Gweithlu<br>• Diwylliant |
| Mae'r Labordy Profi Dyfeisiau Llawfeddygol wedi cyflawni ISO/IEC 17025:2017 a BS EN ISO 14001 Profi a graddnodi a systemau rheoli amgylcheddol | Labordy Profi Systemau a Deunyddiau | • Diogel<br>• Amserol<br>• Effeithlon<br>• Effeithiol | • Gwybodaeth<br>• System Gyfan<br>• Dysgu, Gwella ac Ymchwil |
| Monitro a rheoli ansawdd ar draws busnes a nodi meysydd i'w gwella ISO 9001 | Gwasanaethau Gofal Sylfaenol | • Effeithlon<br>• Effeithiol<br>• Teg<br>• Diogel<br>• Amserol | • Gwybodaeth<br>• Arweinyddiaeth<br>• Diwylliant |

### *Modiwl E-ddysgu y Ddyletswydd Ansawdd*

Cefnogodd PCGC gynhyrchu modiwl e-ddysgu Dyletswydd Ansawdd Cymru Gyfan, a lansiwyd ym mis Rhagfyr 2023. Rydym yn parhau i hyrwyddo'r defnydd o'r modiwl yn fewnol, drwy grŵp Gweithredu'r Ddyletswydd Ansawdd, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob un o Is-adrannau PCGC. Yn ystod 2025-26 bydd pob is-adran ac ardal yn cael cynnig mynediad i sesiynau hyfforddi wyneb yn wyneb neu Teams ar y Ddyletswydd Ansawdd a'i phwysigrwydd i'n gwaith bob dydd. Bydd y Cofnod Staff Electronig yn dal y nifer sy'n manteisio arno a bydd yn cael ei adrodd trwy gyfarfodydd tîm gweithredu'r Ddyletswydd Ansawdd a, hefyd, trwy'r Uwch Grŵp Arwain.

### *Gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar ansawdd*

Rydym yn parhau i roi'r Asesiad o'r Effaith ar Ansawdd ar waith gan ddangos y pwysigrwydd a roddwn ar asesu ansawdd ar lefel cynllunio strategol. Rydym hefyd wedi mapio'r safonau drwy'r ddogfen hon gan ddefnyddio'r eiconau perthnasol, lle maent yn berthnasol a sicrhau ei bod yn berthnasol ym mhob un o is-adrannau PCGC.

Mae gwreiddio'r 12 Safon Ansawdd Iechyd a Gofal fel ystyriaethau mwy ffurfiol yn ein penderfyniadau o ddydd i ddydd, yn ogystal â chynnwys metrigau ansawdd ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir ac a gaffaelir, yn dasg y byddwn yn parhau i fynd ar ei thrywydd yn ystod y flwyddyn i ddod. Mae enghraifft o hyn i'w gweld yn y system adfer dŵr ac ynni a weithredwyd yn ddiweddar ac sy'n profi'n llwyddiannus ac yn gynaliadwy yn ariannol ac yn ecolegol. Bydd hyn yn dylanwadu ar y broses o gyflwyno'r system ar draws ystâd golchdai GIG Cymru.

### *Systemau Rheoli Ansawdd*

Mae gan bob un o'n his-adrannau eu System Rheoli Ansawdd eu hunain wedi'i theilwra i anghenion gwahanol iawn pob is-adran, yn amrywio o System Rheoli Ansawdd clinigol yn ein Gwasanaethau Fferyllol a'n Labordy Profi Dyfeisiau Llawfeddygol, i'r Is-adrannau Caffael a Gweithlu anghlinigol yn bennaf. Mae rhannu arferion gorau ar draws is-adrannau yn elfen allweddol o'n strategaeth gwella ansawdd barhaus. Gwneir hyn trwy gyfarfodydd uwch arweinwyr, mewn cyfarfodydd adrannol lleol a thrwy gyfarfodydd tîm Gweithredu'r Ddyletswydd Ansawdd. Yn fwy lleol bydd hyn yn cael ei wreiddio trwy ddysgu wyneb yn wyneb ac ar-lein.

### *Adrodd*

Dechreuodd adrodd misol 'Ar waith bob amser' yn 2023 gydag is-adrannau'n paratoi cyflwyniadau yn dangos sut y maent yn ymgorffori ansawdd ar draws eu gwasanaeth. Cynhelir y cyflwyniadau hyn ar safle SharePoint PCGC, sydd hefyd yn ymddwyn fel adnodd dysgu ar draws y sefydliad. Bydd cyflwyniadau a fideos YouTube perthnasol ar gael ar wefan PCGC er gwybodaeth i'r cyhoedd.

***Mae enghreifftiau o sut rydym yn cyflawni'r ddyletswydd yn 2025-26 yn cynnwys:***

- Bydd adrodd yn cynyddu gyda phob is-adran yn amlygu sut maent yn integreiddio ansawdd yn eu gwasanaethau. Bydd hyn yn rhoi trosolwg cynhwysfawr i ni o'n dull sefydliadol tuag at y Ddyletswydd.
- Mae offeryn hunanasesu (matrics aeddfedrwydd) wedi'i ddatblygu ar gyfer pob is-adran a bydd yn cael ei ddefnyddio i gefnogi a llywio adroddiadau is-adrannol yn erbyn yr agenda ansawdd, gan gysylltu â'r Systemau Gwneud Penderfyniadau a yrrir gan Ansawdd a Systemau Rheoli Ansawdd.
- Bydd y tîm Archwilio a Sicrwydd yn parhau i hyfforddi ac uwchsgilio eu gweithlu i sicrhau bod effeithiolrwydd archwilio yn cael ei wella ac y gellir defnyddio ystod ehangach o ddata GIG Cymru.
- Bydd Gwasanaethau Ystadau Arbenigol yn darparu cymorth Prif Syrfëwr Adeiladau ar draws y GIG yng Nghymru, a fydd yn rhoi arweiniad ar y Ddeddf Diogelwch Adeiladau ac arolygon adeiladau 6 gwedd ar y Cod Ystadau.
- Bydd meysydd Cyfreithiol a Risg a Chronfa Risg Cymru yn gweithredu system rheoli achosion a dogfennau newydd gan ddarparu gwasanaeth mwy effeithiol ac effeithlon i gwsmeriaid
- Bydd Un Cyflogwr Arweiniol yn gweithio tuag at roi prosesau ar waith i sicrhau bod hyfforddeion yn cael eu derbyn a'u talu'n amserol, gan atal oedi a chynyddu boddhad gweithwyr.

***Mae enghreifftiau pellach o gorff eang o waith yn cael ei wneud o fewn PCGC sy'n cefnogi ein gwaith ar y Ddyletswydd Ansawdd yn cynnwys:***

- Sefydlu gwasanaeth dosbarthu meddyginiaethau gofal cartref cenedlaethol.
- Datblygu model gweithredol ar gyfer radiofferylliaeth.
- Darparu gwasanaethau gwell ar draws y GIG i gefnogi datgarboneiddio.
- Gweithio tuag at wreiddio contract Offthalmig Cymru.
- Ymchwilio i ddichonoldeb cofrestr risg Ystadau Cymru Gyfan.

Rydym yn parhau i ymgorffori Dyletswydd Ansawdd fel rhan o gynllunio ar draws PCGC, a gweithio gydag is-adrannau, timau ac unigolion i atgyfnerthu rôl sicrwydd ansawdd i gefnogi Dangosyddion Perfformiad Allweddol cadarn. Mae ein cyfathrebiadau allanol yn datblygu'n raddol i sicrhau bod gan y cyhoedd fynediad at wybodaeth o safon am rôl PCGC o ran cefnogi'r GIG ledled Cymru gyfan a rhoi sicrwydd ynghylch safon uchel o ddarparu gwasanaethau.

# Ein Pobl

**Cydweithio i fod y gorau y gallwn fod**

Rydym wedi ymrwymo i greu gweithle deniadol a chefnogol lle mae ein pobl yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a’u grymuso i gael effaith gadarnhaol ar bobl Cymru. Rydym hefyd yn ymroddedig i ddatblygu ein gweithlu yn y dyfodol o fewn y cymunedau a wasanaethwn, gan alinio ag egwyddorion yr Economi Sylfaenol. Mae ein Cynllun Pobl a nodir yn Atodiad C yn parhau i gael ei ddatblygu, gydag iechyd a llesiant ein pobl yn ganolog, ac mae’n adeiladu ar y sylfeini cryf yr ydym eisoes wedi’u creu.



Diwylliant
Culture

## Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol

**Beth fydd hyn yn ei olygu i'n cwsmeriaid?**
Ymrwymiad i hyrwyddo amrywiaeth, tegwch a chyfiawnder.



Mae gweithgor pwrpasol wedi canolbwyntio ar ddatblygu cynllun gweithredu diwylliant cynhwysol trosfwaol sy'n cynnwys gofynion Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

Drwy ddatblygu ein Cynllun Gweithredu Amrywiaeth a Chynhwysiant a gyhoeddwyd yn ddiweddar, rydym wedi nodi sawl cyfle i gynyddu amrywiaeth y sefydliad er mwyn adlewyrchu'r cymunedau a wasanaethwn yn well. Ochr yn ochr â hyn, rydym wedi ymrwymo i ddarparu gweithle cynhwysol lle y gallwn ddenu a chadw talent, lle mae pobl yn teimlo bod croeso iddynt, eu bod yn ddiogel, a'u bod yn perthyn.

Mewn ymateb i gyhoeddiad Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ym mis Mehefin 2022, rydym hefyd wedi datblygu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol PCGC. Mae'r cynllun hwn yn canolbwyntio'n benodol ar y nodau canlynol:

- Bydd GIG Cymru yn Wrth-hiliol ac ni fydd yn derbyn unrhyw fath o wahaniaethu nac anghydraddoldeb ar gyfer gweithwyr neu ddefnyddwyr gwasanaethau.
- Bydd staff yn gweithio mewn amgylcheddau diogel a chynhwysol, wedi'u hadeiladu ar arweinyddiaeth a chynghreiriaeth wrth-hiliol dda, gyda chefnogaeth i gyrraedd eu llawn botensial, a bydd staff a chynghreiriaid o leiafrifoedd ethnig yn cael eu grymuso i nodi a mynd i'r afael ag arferion hiliol.

## Strategaeth Safleoedd mewn amgylchedd gwaith ystwyth

**Beth fydd hyn yn ei olygu i'n cwsmeriaid?**
Rydym yn hybu effeithlonrwydd ar draws ein sefydliad ac yn hyrwyddo diwylliant o gyfathrebu agored.



Mae'r sefydliad yn parhau i fod wedi  ymrwymo i strategaeth gweithio ystwyth ar gyfer staff sydd wedi dangos yn glir nifer o fanteision wrth i ni addasu ar ôl cyfnod COVID-19. Mae'r adolygiad o'n hystâd wedi parhau wrth i ni geisio sicrhau bod yr adeiladau sydd gennym yn addas i'r diben ac ar yr un pryd yn cynnig amgylchedd gwaith da i staff. Rydym yn parhau i edrych ar weithrediad effeithlon ein Hystâd a sut y gallwn wneud hyn yn fwy cynaliadwy a chost-effeithiol yn y dyfodol.

Gan adeiladu ar arferion ystwyth, bydd PCGC yn parhau i ddatblygu'r ystâd drwy'r canlynol:

- Buddsoddiad parhaus mewn paneli Solar yn dilyn llwyddiant ysgubol prosiect IP5, a Thŷ Matrix fydd nesaf.
- Cryfhau'r gofod yn Nhŷ Matrics drwy symud Gwasanaethau Gofal Sylfaenol i'r llawr gwaelod, adleoli y Gwasanaeth Negesydd Iechyd o Lansamlet a'r gofod ychwanegol ar gyfer Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.
- Datblygiad arloesol prosiect Radiofferylliaeth a TrAMS yn IP5 i gefnogi darparu gwasanaethau canser a fferyllol.
- Defnyddio Ap archebu desg ar draws nifer o'n prif safleoedd gweithredu i gefnogi gweithio ystwyth i staff a gwneud y defnydd gorau o ofod.
- Parhau i archwilio'r opsiynau o ran safleoedd yn Ne Cymru ar gyfer staff sydd â'u safleoedd yn Nantgarw a Thŷ'r Cwmnïau ar hyn o bryd.

Person ganolog
Person centred

## Iechyd a Llesiant

**Beth fydd hyn yn ei olygu i'n cwsmeriaid?**

Ymrwymiad i hyrwyddo a chefnogi gweithlu iach ac ymgysylltiedig

Mae cynnydd wedi parhau o ran datblygu a gweithredu ein Strategaeth Iechyd a Llesiant. Rydym yn parhau i bartneru a chydweithio â nifer o sefydliadau sy'n gwella ein Darpariaeth Iechyd Meddwl gan gynnwys, Mind, Silver Cloud, Amser i Newid Cymru a Headspace.

Yn 2025-26, byddwn yn hybu ein cefnogaeth i weithlu iach ac ymgysylltiol trwy sicrhau bod gan ein pobl lais a'n bod yn gwrando ar y llais hwnnw. Ar y cyd â gweithgareddau eraill o fewn 'Dyma Ein PCGC' a'r Cynllun Gweithredu Diwylliant Cynhwysol, byddwn yn darparu amgylchedd gwaith sy'n galluogi ein pobl i ffynnu.

**Yn 2025-26, byddwn yn:**

- Cyhoeddi fersiwn wedi'i adnewyddu o'n Fframwaith Iechyd a Llesiant.
- Cynyddu nifer y Swyddogion Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl o fewn y sefydliad.
- Cynyddu ein darpariaeth sesiynau ymwybyddiaeth iechyd a llesiant i bob aelod o staff gyda sesiynau pwrpasol i reolwyr.
- Ymgorffori Canllaw Arferion Gorau Iechyd a Llesiant GIG Cymru drwy ein rhaglenni.



# Un Cyflogwr Arweiniol

**Beth fydd hyn yn ei olygu i'n cwsmeriaid?**
Gwell profiad i hyfforddeion meddygol, deintyddol a fferylliaeth gan arwain at well cyfraddau cadw ar draws Cymru.

Mae'r Un Cyflogwr Arweiniol (SLE) yn drefniant a roddwyd ar waith i reoli a chefnogi pob Meddyg a Deintydd mewn Hyfforddiant Ôl-raddedig a hyfforddeion Fferylliaeth ledled Cymru mewn cydweithrediad ag Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC). Mae cyfres o Gytundebau Rheolwyr Cyflogaeth wedi'u datblygu a'u dosbarthu i AaGIC a'r holl sefydliadau cynnal gan gynnwys Byrddau Iechyd, Practisiau Meddygon Teulu a Darparwyr Deintyddol a Fferylliaeth.

Mae'r Hyb Hyfforddeion a'r Ap Symudol yn parhau i fod yn ddull cyfathrebu allweddol a datblygwyd perthnasoedd gwaith agos gyda chynrychiolwyr hyfforddeion i wella'r ymgysylltu â'r dull hwn o gyfathrebu a gwella hyrwyddo'r dull hwn.

Yn dilyn adborth gan randdeiliaid ac adolygiad o wasanaethau mewnol, rydym wedi rhoi nifer o welliannau allweddol ar waith i wella profiad yr hyfforddeion, gan gynnwys:

- Tîm preswylio dynodedig sydd wedi arwain at arbedion effeithlonrwydd mewn amseroedd ac amserlenni ymuno wrth ddarparu gwybodaeth i sefydliadau cynnal ac AaGIC.
- Creu ffurflen dinasyddiaeth i nodi'n hawdd yr hyfforddeion a fydd yn newydd i'r wlad.
- Creu slip cyflog ffug esboniadol.
- Symleiddio'r broses credyd cynyddrannol trwy greu Microsoft Lists.
- Gweithio gyda phartneriaid i leihau hysbysiadau talu hwyr sy'n effeithio ar wybodaeth i'r gyflogres, gan arwain at ostyngiad sylweddol mewn gordaliadau.
- Arolygon rheolaidd i hyfforddeion er mwyn monitro boddhad hyfforddeion â Model yr Un Cyflogwr Arweiniol yn barhaus.



Rydym yn parhau i ymgysylltu'n barhaus â hyfforddeion, cynrychiolwyr staff, AaGIC a sefydliadau cynnal, i sicrhau ein bod yn parhau i ganolbwyntio ar wella a symleiddio model yr Un Cyflogwr Arweiniol.

Cytunwyd ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol gyda phartneriaid (PCGC, AaGIC a sefydliadau lletyol y GIG) a bydd 2025-26 yn canolbwyntio ar awtomeiddio a gwreiddio'r rhain mewn proses adrodd fisol ar gyfer rhanddeiliaid.



### *Gwella taith y cwsmer?*

Er mwyn gwella ac ychwanegu at daith ein cwsmeriaid, rydym yn archwilio ffyrdd effeithlon o wella a datblygu ein gwasanaeth yn barhaus, a gallai hyn fod gydag AaGIC, ein sefydliad cynnal yn ogystal â'n meddygon a'n deintyddion mewn hyfforddiant a hyfforddeion fferyllol.

Rydym yn parhau i hyrwyddo ap SLE ac yn edrych ar y ffyrdd mwyaf effeithiol o hyrwyddo'r ap a chynnwys gwybodaeth gyflogaeth berthnasol megis polisïau allweddol, graddfeydd cyflog, diweddariadau Codi Llais heb Ofn a mewnforio recordiadau fel rhaglen ymsefydlu SLE.

Rydym yn ymgysylltu'n rheolaidd â rhanddeiliaid allweddol ar daith y cwsmer trwy gyfarfodydd ag AaGIC, sefydliadau cynnal, cynrychiolwyr hyfforddeion a'r BMA. Rydym wedi dod yn siaradwyr allweddol i wella ymgysylltiad mewn gweminarau arbenigol a chynadleddau arbenigol i sicrhau ein bod yn hyrwyddo'r gwasanaethau sydd ar gael i'n meddygon a'n deintyddion dan hyfforddiant a'r hyfforddeion fferyllol.

Rydym yn parhau â'r cylch o awtomeiddio ein prosesau i sicrhau bod arbedion maint yn cael eu cynhyrchu, mae awtomeiddio diweddar wedi cynnwys setiau data ar gyfer ymuno a bandiau tâl; cymeradwyaethau credyd cynyddrannol a chynhyrchu dogfennau absenoldeb mamolaeth ac absenoldeb rhiant a rennir.




***Lleihau gordaliadau?***

Fel rhan o’r Cytundebau Rheoli Cyflogaeth, mae angen cadw at set gadarn o amserlenni yn fisol i sicrhau bod gordaliadau’n cael eu lleihau. Mae’n hanfodol bod unrhyw newidiadau i drefniant cyflogaeth hyfforddeion yn cael eu hadrodd mewn modd amserol.

Mae proses ddilysu fisol wedi’i sefydlu i sicrhau bod adroddiadau sy’n cael eu cynnal gan bob parti yn gyson a bod unrhyw anghysondebau’n cael eu nodi a’u hunioni er mwyn lleihau gordaliadau.

O ganlyniad i’r Polisi Gordaliadau sydd newydd ei ddatblygu, gellir datrys anghysondeb a nodir o fewn y mis cyntaf trwy addasiad yn hytrach na’i nodi fel gordaliad. Dylai’r dilysiadau misol felly leihau’r angen i ddosbarthu’r achosion hyn fel gordaliadau.

Mae system awtomataidd wedi’i datblygu i ymateb i ordaliadau ac i nodi gwraidd y gordaliad. Bydd hyn yn sicrhau y gellir cymryd camau a rhoi gwersi a ddysgwyd ar waith.

**Ehangu gwasanaethau/arbenigeddau?**

Rydym yn parhau i ymgysylltu ag AaGIC i drafod cyfleoedd a allai godi lle bydd Un Cyflogwr Arweiniol yn ehangu ei fodel i ymgorffori mwy o wasanaethau. Mae ymgysylltu â phartïon a rhanddeiliaid allweddol yn hollbwysig yn y broses hon.

Gweithlu
Workforce

## Tyfu Gweithlu'r Dyfodol

**Beth fydd hyn yn ei olygu i'n cwsmeriaid?**
Darparu gwasanaethau gwydn, sy'n addas ar gyfer y dyfodol, ochr yn ochr â chyfleoedd cyflogaeth yn ein cymunedau lleol.

Rydym yn parhau i gael ein herio gan gynigion cystadlu â sefydliadau sector preifat a chyhoeddus am y doniau gorau, yn enwedig yn ein gwasanaethau proffesiynol ac mae recriwtio'n fwyfwy heriol o ganlyniad i nifer y swyddi gwag yn y farchnad lafur heddiw.

Rydym wedi ymrwymo i dyfu ein gweithlu yn y dyfodol drwy nifer o ffrydiau gwaith. Yn eu plith mae'r agenda ehangu mynediad i sicrhau ein bod yn darparu cyfleoedd cyflogaeth a thwf i'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu, a pharhau i wella ein Cynnig Gwerth Cyflogeion a sicrhau bod gan ein pobl yr wybodaeth, y sgiliau a'r profiad drwy ddatblygu cymwyseddau ar draws ein gwasanaethau.

Yn 2025-26, byddwn yn:

- Ymgorffori Fframwaith Rheoli Talent a fydd yn galluogi adrannau i roi cynlluniau olyniaeth lleol ar waith a nodi rolau hollbwysig.
- Datblygu offer i alluogi sgyrsiau gyrfa ac adnabod unigolion sydd â'r awydd i symud ymlaen.
- Gweithredu Strategaeth Dysgu a Datblygu i fynd i'r afael ag anghenion dysgu staff ar draws y sefydliad, gan ganolbwyntio ar y canlynol:
    - Cynyddu ein galluoedd arwain a rheoli pobl
    - Galluoedd craidd gan gynnwys y Gymraeg
    - Gweithio Ystwyth
    - Llythrennedd digidol
    - Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cwsmeriaid
    - Rheoli Prosiectau

# Gwasanaethau

**Ysgogi arloesedd a darparu gwasanaethau o ansawdd uchel yn gyson.**

Rydym yn cydnabod effaith drawsnewidiol gwasanaethau a yrrir gan ddata a chanlyniadau a sut maent yn cyfrannu at wella profiadau i gleifion GIG Cymru a'r boblogaeth ehangach. Mae ein hastudiaethau achos, cyflawniadau a datblygiadau arloesol ar dudalen 12 yn amlygu sut rydym yn gweithio tuag at yr amcan hwn, gan ymgorffori'r defnydd o dechnoleg, ein hyb arloesi a gweithio mewn partneriaeth.



# Rhaglen Datrysiadau Gweithlu'r GIG yn y Dyfodol

**Beth fydd hyn yn ei olygu i'n cwsmeriaid?**

System Rheoli Dynol hyblyg ac ystwyth sy'n fwy ymatebol i anghenion GIG Cymru a all rhyngwynebu'n ddi-dor ag e-systemau eraill GIG Cymru.

Rydym yn gweithio'n agos gydag Awdurdod Gwasanaeth Busnes y GIG (NHSBSA) i arwain y gwaith, ar ran GIG Cymru, o ddatblygu a gweithredu Datrysiad Gweithlu'r GIG yn y Dyfodol, a fydd wedyn yn disodli'r Cofnod Staff Electronig (ESR) presennol ar gyfer mwy nag 1.8 miliwn o gydweithwyr yn y GIG ledled Cymru a Lloegr. Bydd y rhaglen yn rhedeg drwy gydol tymor tair blynedd yr CTCI hwn.

Daw'r contract gyda'r darparwr gwasanaeth presennol i ben yn 2025 ac mae cyfres e-fusnes Oracle y mae'r Cofnod Staff Electronig wedi'i adeiladu arni yn symud i 'ddiwedd cymorth' yn 2033. Mae gweithgareddau caffael yn mynd rhagddynt yn dda gyda'r gwahoddiad i gyflwyno tendr terfynol wedi'i gyhoeddi ym mis Tachwedd 2024 a rhagwelir y caiff y contract ei ddyfarnu yn hydref 2025.

Yn ystod blwyddyn 1 ac i mewn i flwyddyn 2 ein CTCI, byddwn yn gweithio gyda'r cyflenwr newydd i adeiladu a dechrau mudo i'r datrysiad newydd, gan weithio gyda nifer o fabwysiadwyr cynnar ledled Cymru. Mae'n hanfodol bod GIG Cymru yn gallu manteisio ar fanteision Datrysiad Gweithlu'r Dyfodol. Felly, mae PCGC eisoes yn gweithio gyda sefydliadau GIG Cymru drwy raglen waith Optimeiddio a Galluogi Parodrwydd i'w paratoi ar gyfer y newid i'r datrysiad newydd rhwng 2027-2030.

Mae achos busnes yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd sy'n amlinellu'r adnoddau a nodwyd sydd eu hangen i gefnogi camau Optimeiddio a Galluogi Parodrwydd y rhaglen.

Ym Mlwyddyn 3, bydd y gweithredu hwnnw'n dechrau gyda'n mabwysiadwyr cynnar, a byddwn yn parhau i weithio gyda'n sefydliadau sy'n weddill i'w paratoi ar gyfer y mudo.

Byddwn yn parhau i ymgysylltu â Chydweithwyr GIG Cymru ac arweinwyr strategol drwy Grŵp Llywio Cymru Gyfan sydd newydd ei sefydlu.

## Ymchwiliad Cyhoeddus COVID-19

**Beth fydd hyn yn ei olygu i'n cwsmeriaid?**
Cânt eu cefnogi drwy gamau gweithredu PCGC o ganlyniad i'r ymchwiliad a byddant yn parhau i dderbyn cyngor cyfreithiol arbenigol i gefnogi gwneud penderfyniadau gofalus a rheoli cyfreithiol a risg.



Rydym wedi ymrwymo i ddysgu o ymchwiliad COVID-19 i gryfhau ein strategaethau ymateb i bandemig. Nododd yr ymchwiliad fylchau mewn parodrwydd ar draws y DU gydag argymhellion penodol ar gyfer gwella cydlyniad cadernid systemau iechyd a rheoli risg. Rydym wedi penodi Pennaeth Parodrwydd am Argyfwng, Gwytnwch ac Ymateb i gefnogi PCGC i wreiddio gwydnwch, cryfhau strategaethau ymateb a chydweithio ar draws ein partneriaid a'n cwsmeriaid ym mhob rhan o GIG Cymru.

Rydym yn deall pwysigrwydd pentyrru a dosbarthu mewn perthynas â dysgu o'r ymchwiliad. Rydym yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i gryfhau ein hymagwedd o ran yr angen hanfodol i gynnal cyflenwad digonol o gyfarpar diogelu personol a gweithgynhyrchu a chyflenwi meddyginiaethau.

Mae ein timau Cyfreithiol a Risg wedi parhau i gefnogi sefydliadau GIG Cymru ag ymgyfreitha sy'n deillio o bandemig COVID-19, yn cynnwys pryderon ynghylch hawliadau cyfreithiol yr ymchwiliwyd iddynt o dan reoliadau Gweithio i Wella o ran ymchwiliad cyhoeddus COVID-19 y DU. Rydym yn ymwybodol iawn o'r baich ariannol y mae ymchwiliadau cyhoeddus COVID-19 yn ei roi ar y GIG yng Nghymru o ran y gost o ran amser staff a'r effaith emosiynol ar y staff dan sylw. Byddwn yn parhau i gydweithio â phob sefydliad y GIG ledled Cymru i rannu dysgu a lleihau'r effaith ar staff a chleifion y GIG.

# Gwasanaethau Gofal Sylfaenol

## Cefnogi'r gwaith o ddigideiddio cofnodion meddygol papur

**Beth fydd hyn yn ei olygu i'n cwsmeriaid?**
Cael gwared ar yr angen i argraffu a chludo cofnodion meddygol gan arbed adnoddau mewn practisau meddygon teulu.

Rydym wedi cydnabod yr angen i ymgysylltu â phartneriaid allweddol a rhanddeiliaid allweddol i ddeall sut y gall y gwasanaeth groesawu cyfleoedd i foderneiddio ac awtomeiddio o dan ofynion gweithredol a deddfwriaethol presennol.

Rydym yn adolygu'r cyfleoedd a gyflwynir gan ddatblygiadau technolegol i gefnogi'r agenda cynaliadwyedd a lleihau'r angen i gynhyrchu a chludo cofnodion meddygol papur ar draws y system.

## Gwelliant parhaus y newidiadau sydd wedi'u gwreiddio drwy'r Rhaglen Drawsnewid mewn Gofal Sylfaenol

**Beth fydd hyn yn ei olygu i'n cwsmeriaid?**
Darparu prosesau trafodion effeithlon ac o ansawdd uchel.

Mae'r rhaglen drawsnewid yn galluogi newid gwasanaethau/busnes a thrwy adolygu'n barhaus, gallwn nodi arbedion effeithlonrwydd ac ad-drefnu adnoddau i gefnogi meysydd twf o fewn yr is-adran. Wrth i ni groesawu datblygiadau technolegol, ac yn eu plith systemau newydd a phrosesau darbodus, mae gennym y gallu i gefnogi cyfleoedd busnes newydd a chynyddol wrth ddarparu cyfleoedd dysgu a datblygu i staff yn yr is-adran.

Mae'r Tîm Gofal Sylfaenol yn datblygu'r agenda gwyrdd ac egwyddorion y rhaglen ddatgarboneiddio trwy fanteisio ar egwyddorion awtomeiddio, gweithio ystwyth a gweithio o bell.

Effeithlon
Efficient

Effeithiol
Effective

## Gwasanaethau Fferylliaeth



### Trawsnewid Mynediad at Feddyginiaethau (TrAMS)

**Beth fydd hyn yn ei olygu i'n cwsmeriaid?**
Sefydlu gwydnwch cost-effeithiol yn ein cyflenwad meddyginiaethau, gan wella profiad y claf trwy ddarparu meddyginiaethau a gwasanaethau o ansawdd uchel.

Rydym yn parhau i arwain ar y rhaglen drawsnewid genedlaethol gynhwysfawr hon sy'n cynnwys y gweithlu, prosesau a buddsoddiad cyfalaf i ad-drefnu Gwasanaethau Technegol Fferylliaeth ar draws GIG Cymru yn un Gwasanaeth Technegol Fferylliaeth a rennir.

Bydd y trawsnewid hwn yn dangos gwelliannau mewn ansawdd, diogelwch a chydymffurfiaeth reoleiddiol, a fydd yn y pen draw yn sicrhau mynediad teg i gleifion ledled Cymru at feddyginiaethau critigol ac yn gwella canlyniadau cleifion a gofal fferyllol.

Cyfeirir at Raglen TrAMS yng Nghynllun Gweithredu Canser Cymru fel galluogwr allweddol ar gyfer sicrhau cyflenwad o Therapïau Gwrth-ganser Systemig.

Yn ystod 2023, llwyddodd y rhaglen i gwblhau proses Cam 1 Newid Sefydliadol

a recriwtio i'r strwythur arweinyddiaeth genedlaethol. Bydd y gwaith a gynllunnir ar gyfer 2025 – 2028 yn cynnwys:

- Adeiladu tri hwb gweithgynhyrchu meddyginiaethau rhanbarthol, dewis yr ardaloedd a ffefrir ar eu cyfer, datblygu gwaith dylunio, a pharatoi Achosion Busnes i gefnogi penderfyniadau buddsoddi. Mae statws y cynllun yn dibynnu ar y cyllid cyfalaf a fydd ar gael a disgwylir iddo fod fel a ganlyn:
    - Yn 2025-26, bydd gwasanaeth Radiofferylliaeth De-ddwyrain Cymru yn cael ei ddatblygu yn IP5. (Mae radiofferylliaeth yn cynnwys paratoi meddyginiaethau ymbelydrol i'w chwistrellu, yn bennaf i ategu sganio diagnostig.)

    - 2025-26 - Ystafelloedd Therapi Gwrth-ganser Systemig De-ddwyrain Cymru (SACT – cemotherapi chwistrelladwy) ac Ystafelloedd Ychwanegion Mewnwythiennol Canolog a Maeth Parenterol (CIVA/PN – meddyginiaethau chwistrelladwy). Parhau i ddatblygu Achos Busnes yn barod at fuddsoddiad.
    - 2025-26 Datblygu achos busnes cam cynnar dewis safle yn Ne-orllewin Cymru.

- Cefnogi a sefydlogi gwasanaethau paratoi aseptig etifeddol ledled Cymru gan gynnwys datblygu cynllun trosiannol.
- Gweithio mewn partneriaeth ag Addysg a Gwella Iechyd Cymru i adolygu'r addysg a'r sgiliau y mae eu hangen i ddatblygu ac ehangu'r gweithlu presennol.
- Parhau â'r prosesau newid sefydliadol gan ymgysylltu'n llawn â'r staff.
- Gweithio mewn partneriaeth ag Iechyd a Gofal Digidol Cymru i ddatblygu adosbarthu systemau digidol, rheoli stoc a llif gwaith.
- Ymgysylltu clinigol parhaus i ddatblygu portffolio cynnyrch safonol sy'n dileu amrywiadau diangen ar draws GIG Cymru.
- Gweithio mewn partneriaeth â gwledydd eraill y DU ar safoni'r catalog cynnyrch, ymchwil sefydlogrwydd, a rhannu arferion gorau er mwyn meithrin gwydnwch ar draws y DU.

## Uned Gwerth Meddyginiaethau

**Beth fydd hyn yn ei olygu i'n cwsmeriaid?**
Rydym yn gwella gwerth ac yn gwneud y gorau o adnoddau'n effeithlon er budd ein partneriaid a'n cleifion.

Ar ôl cwblhau cam recriwtio staff, mae'r Uned Gwerth Meddyginiaethau bellach yn cynnal rhaglen o weithgarwch caffael masnachol wedi'i dargedu gyda'r nod o sicrhau deunyddiau fferyllol a therapïau newydd ac arloesol ar gyfer GIG Cymru a'r boblogaeth cleifion a fydd yn ychwanegu gwerth a defnydd effeithlon o adnoddau. Bydd y gweithgaredd yn cael ei arwain yn glinigol ac yn seiliedig ar ddulliau seiliedig ar dystiolaeth i sicrhau canlyniadau sydd o bwys i gleifion.

Mae'r rhaglen waith bresennol yn yr Uned Gwerth Meddyginiaethau yn canolbwyntio ar nifer o weithgareddau allweddol gan gynnwys:

- Targedu contractio meddyginiaethau didrwydded drwy ddatblygu manylebau cynnyrch wedi'u safoni'n genedlaethol ac ymgysylltu â'r farchnad i ddod ag 80% o wariant Cymru ar feddyginiaethau didrwydded oddi ar gontract o dan gytundebau contract unwaith-i-Gymru.

- Ar hyn o bryd, cynhelir proses adolygu genedlaethol mewn perthynas â Meddyginiaethau Gofal Cartref i ddeall y cyfleoedd ar gyfer dull Cymru Gyfan o ddarparu meddyginiaethau gofal cartref.
- Cefnogi GIG Cymru i roi cyfleoedd effeithlonrwydd ar waith sy'n deillio o feddyginiaethau lle mae diffyg natur ddethol. Gwneir y gwaith hwn gyda rhanddeiliaid allweddol megis Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru Gyfan a Chanolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan.

Gwella, dysgu ac ymchwil
Learning, improvement and research

## Trawsnewid Gwasanaethau'r Golchdy



**Beth fydd hyn yn ei olygu i'n cwsmeriaid?**
Darparu prosesau trafodion effeithlon ac o ansawdd uchel.


Roedd y cyfyngiadau ar gyllideb gyfalaf GIG Cymru yn ei gwneud yn ofynnol inni adolygu a diwygio ein cynlluniau trawsnewid ar gyfer Gwasanaethau'r Golchdy. Roedd y cynlluniau gwreiddiol yn cynnig potensial am welliannau sylweddol i sicrhau cydymffurfedd deddfwriaethol ond roedd angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol.

Yr her yn awr yw sicrhau cymaint o'r manteision i GIG Cymru ag sy'n bosibl, ar raddfa lai o lawer o ran buddsoddiad. Yn y flwyddyn flaenorol mae BSEN14065 wedi'i gyflawni fel safon mewn 3 o'r 4 golchdy. Bydd gwaith yn dechrau yn un o'r golchdai i gyrraedd y safon, felly bydd pob safle yn ei ddal.

Yn y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi datgomisiynu un golchdy yn llwyddiannus ac wedi trosglwyddo nifer o staff trwy TUPE i PCGC. Rydym yn bwriadu parhau i gyflwyno Model Gweithredu Cymru Gyfan wrth barhau i wneud buddsoddiadau i wella gwydnwch ar draws y gwasanaeth.

Diogel
Safe

# Rhaglen Gwasanaethau'r Golchdy Cymru Gyfan



**Beth fydd hyn yn ei olygu i'n cwsmeriaid?**
Darparu Gwasanaethau Golchdy effeithlon, gwydn a hyblyg i GIG Cymru.

Rydym yn parhau i fwrw ymlaen â'r gwaith o foderneiddio Gwasanaethau'r Golchdy Cymru Gyfan gyda'r gwasanaeth rheoli canolog newydd yn gweithio'n dda o ran llywio safonau ac allbynnau, ac yn cynnig mwy o hyblygrwydd a chysondeb wrth i'r broses drawsnewid aeddfedu. Bydd y Model Gweithredu newydd yn parhau i hybu diogelwch ac ansawdd wrth sicrhau'r gwerth gorau am arian i GIG Cymru sy'n deg i bawb. Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu model effeithlon a hyblyg i holl sefydliadau GIG Cymru wrth gyflawni'r safonau golchdy glân a diogel newydd, BSEN 14065, ar draws pob safle fel prif amcan. Mae amcanion eilaidd yn cynnwys mwy o werth am arian, cysondeb yn y cyflenwad ac ôl troed carbon is ynghyd â chyfleusterau gwell ar gyfer ein staff.

Bydd y gwaith a gynllunnir ar gyfer 2025–2028 yn cynnwys:

- Gweithredu i wneud gwelliannau a nodwyd i iechyd a diogelwch gan leihau risgiau.
- Cyflawni rheolaethau ansawdd BSEN14065, gan gynnwys cofnodi a monitro peryglon biohalogi posibl, yn y safleoedd golchdai sy'n weddill i ddal yr achrediad fel Gwasanaeth Cymru Gyfan.
- Cynlluniau i darfu cyn lleied â phosibl ar gyflenwad a risg o hen beiriannau ac offer.
- Gweithredu'r Model Gweithredu Cymru Gyfan newydd.
- Ceisio effeithlonrwydd a gwydnwch ar draws y gwasanaeth wrth edrych ar weithredu model ar gyfer pob safle yn unigol i gyflawni'r trwybwn gorau.

## Rhaglen Sganio er Diogelwch Cymru

**Beth fydd hyn yn ei olygu i'n cwsmeriaid?**
Cadwyn gyflenwi fwy gwydn a thryloyw sy'n lleihau'r risg i gleifion a tharfu ar wasanaethau.

Ym mis Mehefin 2021, cymeradwyodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol achos busnes llawn a buddsoddiad cysylltiedig fel y camau cyntaf tuag at ymgorffori egwyddorion ac arferion Sganio er Diogelwch ledled Cymru. Mae diogelwch cleifion wrth wraidd y rhaglen ac mae safonau data a thechnoleg cipio data yn cael eu cyflwyno ledled GIG Cymru. Mae PCGC yn cyflwyno SupplyX, sef datrysiad Rheoli Stocrestri Cymru Gyfan sy'n defnyddio'r safonau hyn ynghyd â thechnoleg sganio â llaw.

Mae buddion ariannol optimeiddio stocrestri yn hanfodol i SupplyX, ac ar yr un pryd yn gwneud archebu ac ailgyflenwi yn llawer llai llafurddwys a dychwelyd amser clinigol yn ôl i ofal cleifion. Yn ogystal, mae diogelwch cleifion yn cael ei wella trwy gyflwyno sganio cod bar cynhyrchion, lleoedd a phobl a nodwyd yn unigryw, gan ddarparu data amser real wrth y pwynt gofal ac olrhain dyfeisiau meddygol y gellir eu mewnblannu ar unwaith os bydd angen galw cynnyrch neu glaf yn ôl.

### Yn 2025-26 a thu hwnt, byddwn yn:

- Parhau i gyflwyno Sganio er Diogelwch ar gyfer yr holl theatrau a labordai triniaeth ar draws GIG Cymru.
- Gweithredu safonau data gwell yn gysylltiedig ag olrhain cleifion a chynhyrchion.
- Gwella cysylltiadau ar draws llwybrau cleifion i fesurau canlyniadau.
- Amlygrwydd cyflenwad cenedlaethol o gynhyrchion hanfodol ar draws GIG Cymru gyfan.

## Moderneiddio Canolfannau Dosbarthu Cenedlaethol

**Beth fydd hyn yn ei olygu i'n cwsmeriaid?**
Canolfan Ddosbarthu Genedlaethol wydn ac effeithlon sy'n galluogi cwsmeriaid i ddarparu gwasanaethau effeithiol i gleifion.

I gefnogi Brexit, gyda chymorth Llywodraeth Cymru, prynodd PCGC IP5 yng Nghasnewydd, warws mawr sy'n gallu dal stociau lluosog. Daeth ei fudd i'r amlwg trwy bandemig COVID-19, a chaniataodd i ni ehangu dal swmp o gynhyrchion Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) allweddol i gefnogi gofal rheng flaen trwy Ganolfan Ddosbarthu Genedlaethol (NDC).

Ar ôl Covid-19, mae'r cyfle nawr yn ein galluogi i ddatblygu'r safle ymhellach a pharhau â'n gwaith ar gydgrynhoi stoc, adlinio codau cynnyrch i wella rheolaeth stoc ac adolygu ymhellach pa gynhyrchion meddygol y gallwn eu cadw i wella gwydnwch stoc a sicrhau gwerth am arian sy'n gysylltiedig â swmp-brynu.

Beth sydd wedi ei gyflawni hyd yma?

- Rydym wedi ail-alinio codau stoc ledled Cymru er mwyn i'r un cynnyrch gael yr un cod ym mhob un o'n warysau. Bydd hyn yn gwella ansawdd ein data er mwyn llywio defnydd mwy cywir o gynnyrch.
- Mae'r gwaith o ailgynllunio'r warws wedi dechrau er mwyn gwella'r rheolaeth ar y cynnyrchsy'n cael ei drosglwyddo, h.y. derbyn, cadw, dewis cynnyrch a silffoedd ar gyfer dosbarthu.
- Mae adolygiad o'n gwasanaethau wedi'i feincnodi'n annibynnol yn erbyn 9 maen prawf allanol, ac rydyn yn cyfateb â 7 o'r 9 maes a aseswyd, neu'n rhagori arnynt. Bydd y meincnodi hwn yn helpu i lywio ein cynlluniau moderneiddio yn y dyfodol.

### Mae'r gwaith sydd wedi'i gynllunio ar gyfer 2025-26 a thu hwnt yn cynnwys:

- Adolygiad parhaus o'r cynhyrchion a ddelir gan fonitro trwybwn cynnyrch yn well, ac yn yr un modd pa mor gritigol yw'r eitem, rheoli oes dyddiad, eitemau sydd allan o stoc a rheoli eitemau darfodedig lle y'u nodir.
- Ychwanegu cynhyrchion fel rhan o Ystod Cynnyrch wedi'i Stocio'n Genedlaethol i ychwanegu cynnyrch ychwanegol i gefnogi gwasanaethau ar draws GIG Cymru a gwneud y mwyaf o gyfleoedd i arbed arian.
- Gwell model Dosbarthu i gefnogi defnydd mwy effeithiol o adnoddau fflyd, gan alinio'r pwynt dosbarthu agosaf i'r warws mwyaf priodol.
- Gweithredu safonau data gwell mewn perthynas ag olrhain cleifion a chynhyrchion sy'n gysylltiedig â Sganio er Diogelwch a gwelededd cyflenwad Cenedlaethol cynhyrchion clinigol ar draws GIG Cymru gyfan.
- Bydd y cyllid cylchol y gofynnwyd amdano yn cefnogi modelu'r Ganolfan Ddosbarthu Genedlaethol (NDC) ac yn dal rhai o'r costau a ddaw yn sgil cynnydd mewn trwybwn a dosbarthiad cynnyrch, gyda'r cynnig i ychwanegu 300 llinell arall yn y tymor hwy a chau rhai o'r costau gweithredu a fydd yn codi.

Diolch am ddarllen ein Hadolygiad Blynyddol. Os hoffech chi gael gwybod mwy, ewch i'n gwefan, ein sianeli cyfryngau cymdeithasol, neu defnyddiwch y manylion cyswllt isod:


01443 848585

shared.services@wales.nhs.uk

www.nwssp.wales.nhs.uk

Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru,
4-5 Charnwood Court
Heol Billingsley,
Parc Nantgarw,
Caerdydd
CF15 7QZ



*Dyluniwyd y ddogfen hon gan Dîm Cyfathrebu PCGC.*
*nwssp.communications@wales.nhs.uk*